
WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

13 Tachwedd 2008
www.wao.gov.uk

# Gweithrediadau Comisiwn Coedwigaeth Cymru



Paratowyd yr adroddiad hwn i’w gyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a 2006.

Roedd tîm Swyddfa Archwilio Cymru a’m cynorthwyodd i baratoi’r adroddiad hwn yn cynnwys Jason Blewitt, Martin Gibson, Emma Giles, Jackie Joyce, Rob Powell a Ceri Stradling.

**Jeremy Colman**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn gwbl annibynnol ar y Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae’n archwilio ac yn gwirio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth y Cynulliad a chyrff cyhoeddus a noddir gan, neu sy’n gysylltiedig â’r Cynulliad Cenedlaethol, gan gynnwys cyrff y GIG yng Nghymru. Hefyd, mae ganddo’r hawl statudol i wneud adroddiad ar gynildeb, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y cyrff hynny ac i wella’u defnydd o adnoddau wrth gyflawni’u dyletswyddau.

Mae’r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn penodi archwilwyr i gyrff llywodraeth leol yng Nghymru, yn cynnal a hyrwyddo astudiaethau gwerth am arian yn y sector llywodraeth leol ac yn archwilio cydymffurfiaeth â gofynion gwerth gorau dan Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella. Fodd bynnag, er mwyn diogelu safle cyfansoddiadol llywodraeth leol, nid yw’r adrodd yn ôl yn benodol i’r Cynulliad Cenedlaethol ar y gwaith llywodraeth leol hwn, ar wahan i phan y mae’n ofynnol i wneud hynny gan ddeddf.

Yr Archwilydd Cyffredinol a’i staff gyda’i gilydd yw Swyddfa Archwilio Cymru. Am fwy o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Cymru, byddwch cystal ag ysgrifennu at yr Archwilydd Cyffredinol yn y cyfeiriad uchod, ffôn 029 2032 0500, e-bost: wales@wao.gov.uk, neu gwelwch ein gwefan http://www.wao.gov.uk

Ⓗ Archwilydd Cyffredinol Cymru 2008

Gellir ail-ddefnyddio’r cyhoeddiad hwn (gan eithrio’r logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat. Mae’n rhaid ei ail-ddefnyddio’n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Mae’n rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a dylid nodi teitl y cyhoeddiad hwn.

Lle rydym wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti, mae’n rhaid sicrhau caniatâd y rheini sydd a’r hawlfraint cyn ei ail-ddefnyddio.

Adroddiad a gyflwynwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol i'r Cynulliad Cenedlaethol ar 13 Tachwedd 2008



# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| | **Crynodeb** | **6** |
| | Argymhellion | 10 |
| **1** | **Mae'r Comisiwn wedi cyrraedd targedau ariannol a'r rhan fwyaf o dargedau perfformiad tra'n cyflawni agenda ehangu** | **14** |
| | Mae agenda ehangu coedwigaeth wedi gosod disgwyliadau ychwanegol ar y Comisiwn | 14 |
| | Yn ystod y blynyddoedd diweddar mae'r Comisiwn wedi cyflawni'r rhan fwyaf o DPAau, gan gynnwys targedau ariannol allweddol, ac mae ar y trywydd iawn i barhau i'w cyflawni | 15 |
| | Mae rhanddeiliaid yn cydnabod cynnydd y Comisiwn o ran ymateb i agenda ehangu coedwigaeth | 18 |
| | Mae nifer o brosiectau'r Comisiwn wedi cyflawni amrywiaeth ehangach o amcanion coedwigaeth yn effeithiol | 19 |
| | Mae'r Comisiwn wedi bachu ar y cyfleoedd a roddwyd drwy'r trefniadau llywodraethu sy'n ei wneud yn rhan o Gomisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr a hefyd yn is-adran 'rithwir' o Lywodraeth y Cynulliad | 27 |
| | Mae'r Comisiwn yn gwneud defnydd da o'r cyfleoedd a roddir drwy ei gysylltiadau â Chomisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr | 29 |
| **2** | **Mae angen i'r Comisiwn ymateb i nifer o heriau sylweddol** | **31** |
| | Mae angen i'r strategaeth gorfforaethol gysylltu blaenoriaethau ac adnoddau | 31 |
| | Mae angen atgyfnerthu prosesau busnes craidd a'u hintegreiddio ag amcanion strategol fel y gellir rheoli'r cyfaddawdu a geir wrth gefnogi agenda ehangu'r Comisiwn | 32 |
| | Mae angen i'r Comisiwn reoli ei adnoddau'n effeithiol | 38 |
| | Mae angen rheoli newid yn effeithiol er mwyn sicrhau newid a sicrhau bod gan randdeiliaid mewnol ac allanol ddealltwriaeth glir o gyfeiriad strategol y Comisiwn | 54 |

| | |
|---|---|
| **Atodiadau** | **58** |
| Atodiad 1 – Methodoleg | 58 |
| Atodiad 2 – Gwaith grŵp Rheoli Ystad y Comisiwn | 60 |
| Atodiad 3 – Perfformiad diweddar y Comisiwn yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol | 62 |
| Atodiad 4 – Canfyddiadau allweddol o'n grwpiau ffocws o staff y Comisiwn | 65 |

# Crynodeb

1 Mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru (y Comisiwn), sy'n rhan o Gomisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr[1], yn gwneud argymhellion i Lywodraeth y Cynulliad ynglŷn â pholisi coedwigaeth. Mae'r Comisiwn hefyd yn gyfrifol am gyflawni amcanion polisi coedwigaeth Llywodraeth y Cynulliad. Wrth gyflawni'r rôl hon, mae'r Comisiwn:

- yn rheoli'n uniongyrchol y coedwigoedd ar ystad 126,000 hectar (ha) Llywodraeth y Cynulliad sy'n cyfrif am tua chwech y cant o dir Cymru; ac
- yn annog arferion rheoli tir cynaliadwy yn y sector coedwigaeth preifat drwy gymhellion grant[2] a rheoleiddio gan gynnwys trwyddedu cymynu ac ailblannu.

2 Yn 2007-2008, cafodd y Comisiwn £22.3 miliwn o'i drosiant blynyddol o £45 miliwn gan Lywodraeth y Cynulliad. Mae'r Comisiwn hefyd yn cynhyrchu tua £9 miliwn bob blwyddyn o werthu coed, yn ogystal â chael arian o dan gynlluniau grant Ewropeaidd.

3 Yn 2001 cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad *Coetiroedd i Gymru*, ei gweledigaeth 50 mlynedd ar gyfer polisi coedwigaeth a choetiroedd yng Nghymru. Mae *Coetiroedd i Gymru* yn amlinellu gweledigaeth newydd ac amlbwrpas ar gyfer coedwigaeth. Yn ogystal â chefnogi'r diwydiannau coed, disgwyliai Llywodraeth y Cynulliad i goedwigoedd a choetiroedd Cymru esgor ar nifer o fanteision cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach. Mae ymgynghoriad Llywodraeth y Cynulliad ar ddiwygio *Coetiroedd i Gymru* yn rhagweld ehangu cylch gwaith y Comisiwn ymhellach, gyda phwyslais penodol ar y rôl y gall coedwigaeth ei chwarae i ymateb i heriau newid yn yr hinsawdd.

4 Yng ngoleuni ehangu agenda coedwigaeth, ystyriwyd a oedd y Comisiwn mewn sefyllfa dda i gyflawni ei amcanion nawr ac yn y dyfodol. Canfuwyd bod y Comisiwn ar y cyfan yn cyflawni agenda ehangu coedwigaeth a bod angen bellach iddo ymateb i nifer o heriau.

## Mae'r Comisiwn wedi cyrraedd targedau ariannol a'r rhan fwyaf o'r targedau o ran perfformiad ac ar yr un pryd wedi cyflawni agenda ehangu

5 Mae'r Comisiwn wedi cyflawni'r rhan fwyaf o'i Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (DPAau) ac wedi cyrraedd targedau ariannol allweddol yn 2006-2007 a 2007-2008. Mae'r DPAau yn adlewyrchu'r agenda ehangach y mae'r Comisiwn yn ei dilyn bellach. Fodd bynnag, mae wedi colli lleiafrif o'i DPAau.

6 Gwelwyd tystiolaeth bod y Comisiwn yn gweithio'n effeithiol gyda'i bartneriaid ar lawr gwlad i gyflawni blaenoriaethau canlynol Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer coedwigaeth:

- cyfleoedd am fynediad a hamdden;
- rôl coedwigaeth ym maes datblygu cymunedol drwy gynnwys cymunedau wrth ganfod eu hanghenion o ran y goedwig a rhoi atebion;

1 Mae hwn yn cynnwys y tri Chomisiwn Coedwigaeth yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Mae coedwigaeth yng Ngogledd Iwerddon wedi'i ddatganoli'n llawn ers 1922.

2 Drwy grantiau o'r fath, mae'r Comisiwn yn dylanwadu ar y ffordd y rheolir wyth y cant arall o dir Cymru.



- creu cyfleoedd addysg mewn coetiroedd;
- gwella bioamrywiaeth mewn coetiroedd;
- hwyluso cynhyrchu ynni adnewyddadwy drwy reoli proses gaffael fawr ar ran Llywodraeth y Cynulliad i greu ffermydd gwynt ar dir y Comisiwn; ac
- ehangu'r farchnad ar gyfer cynhyrchion coed.

7 Er ei fod yn ddadleuol, bydd prosiect caffael ffermydd gwynt diweddar y Comisiwn yn cyflawni'r rhan fwyaf o darged Llywodraeth y Cynulliad i gynhyrchu 800 Megawat (MW) o drydan adnewyddadwy o ddatblygiadau ffermydd gwynt ar y tir. Mae'r targed hwn yn cefnogi targed Llywodraeth y DU i gyflawni 10 y cant o drydan o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2010.

8 Mae'r Comisiwn hefyd yn rhan o Gomisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr ac yn gweithredu fel 'is-adran rithwir' o Lywodraeth y Cynulliad, gyda'i Gyfarwyddwr yn rhan o Dîm Rheoli'r gyfarwyddiaeth berthnasol yn Llywodraeth y Cynulliad. Mae datblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y Comisiwn a Llywodraeth y Cynulliad wedi cyfrannu at weithredu trefniadau a allai fod yn gymhleth yn llwyddiannus.

## Mae angen i'r Comisiwn ymateb i nifer o heriau sylweddol

9 Bwriad strategaeth ddiwygiedig arfaethedig Llywodraeth y Cynulliad *Coetiroedd i Gymru* yw rhoi arweiniad clir i'r Comisiwn ynglŷn â'r cyfaddawdu y bydd angen ei reoli wrth gyflawni nifer o amcanion ym maes coedwigaeth. Mae staff y Comisiwn hefyd yn dweud bod angen i'r sefydliad gael mwy o eglurder ynglŷn â'i flaenoriaethau ac nad yw gwahanol rannau o'r Comisiwn yn cyd-fynd â'i gilydd o ran ei gyfeiriad strategol, a all arwain at rai tensiynau mewnol. O ganlyniad, mae angen i'r Comisiwn ddatblygu cyfeiriad corfforaethol a phroses dyrannu adnoddau sy'n llawer cliriach i reoli'r cyfaddawdu rhwng gwahanol agweddau ar ei agenda ehangach yn effeithiol, a rheoli disgwyliadau croes o bosibl rhanddeiliaid.

10 Ynghyd â'r ffaith bod dangosyddion wedi cael eu mynegi'n anghyson, gall newidiadau i DPAau ei gwneud yn anodd olrhain tueddiadau. Mae lle i greu cyfres symlach o fesurau allweddol sy'n adlewyrchu diben ac amcanion y Comisiwn yn llawn a disgwyliadau rhanddeiliaid ohono. Drwy ddefnyddio dulliau rheoli perfformiad sy'n cysylltu diben, strategaeth a mesurau o gynnydd yn fwy uniongyrchol, gellid gwella'r trefniadau presennol yn sylweddol.

11 Nid yw prosesau busnes craidd y Comisiwn yn helpu i gyflawni ei flaenoriaethau strategol yn gyson. Yn benodol, mae ei waith cynllunio busnes yn fyrdymor o ran natur ac mae wedi'i lywio gan ystyriaethau ariannol yn hytrach na rhai strategol. Bu angen mwy o gydlynu canolog o ran caffael, gan fod problemau ynglŷn â diffyg cydymffurfiaeth â gweithdrefnau'r Comisiwn a chadw cofnodion gwael. A gwelwyd enghreifftiau lle na chafodd prosiectau mawr eu hategu gan achosion busnes ffurfiol pan gododd cyfleoedd y tu hwnt i'r broses pennu cyllideb flynyddol neu pan oedd arian ar gael ar fyr rybudd. Mae angen atgyfnerthu prosesau busnes yn y meysydd canlynol:

- **Cynllunio busnes**, dylid mabwysiadu dull o werthuso achosion busnes sy'n cysylltu gweithgarwch, dyrannu adnoddu prin a blaenoriaethau strategol allweddol.
- **Reoli perfformiad** fod wedi'i gysoni'n fwy effeithiol ag amcanion corfforaethol, i'r Comisiwn cyfan ac i aelodau unigol o staff.
- **Caffael** yn effeithiol drwy'r Comisiwn.

- Mae'r Comisiwn wedi cyflwyno'r **cynllun grant** Coetiroedd Gwell i Gymru. Mae angen iddo ddatblygu systemau effeithiol i roi adroddiad ar berfformiad sy'n canolbwyntio ar sicrhau ei amcanion a'i ganlyniadau hirdymor a rhoi cymorth priodol i'r nifer fawr o ymgeiswyr er mwyn goresgyn rhwystrau y gwyddys amdanynt sy'n effeithio ar gymeradwyo cynlluniau.
- Er bod y Comisiwn wedi gwella ei drefniadau **rheoli risg**, nid oes trefniadau rheoli risg penodol ar gyfer risgiau busnes allweddol, megis amrywiadau ym mhrisiau coed a grantiau.

12 Mae rheoli ariannol y Comisiwn yn fyrdymor o ran natur, yn rhannol yn adlewyrchu ei drefniant ariannu gyda Llywodraeth y Cynulliad. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cytuno ar gyllideb am dair blynedd â'r Comisiwn ar sail rhagolygon o incwm coed tebygol y Comisiwn. Er y gall Llywodraeth y Cynulliad roi arian ychwanegol i'r Comisiwn ar ben y cyllid y cytunwyd arno i wneud iawn am ddiffygion gwirioneddol, mae swm adnoddau ychwanegol o'r fath a'i amseriad yn ansicr. Er gwaethaf natur hirdymor y busnes coedwigaeth a chylch bywyd asedau allweddol, nid yw'r Comisiwn yn ymgymryd â chynllunio ariannol effeithiol yn y tymor canolig ac mae'n gorfod ymateb i newidiadau sydyn mewn incwm coed o ganlyniad i amrywiadau mewn prisiau ar y farchnad. Adlewyrchir hyn yn y duedd i ymgymryd â gweithgarwch caffael tua diwedd y flwyddyn ariannol a'r cynllun cyfalaf sy'n adlewyrchu incwm yn hytrach na strategaeth neu angen.

13 Nid yw Llywodraeth y Cynulliad yn caniatáu i'r Comisiwn ddal cronfeydd arian parod wrth gefn na chyfalaf ecwiti i leddfu effaith amrywiadau yn y farchnad, ar wahân i gario dau y cant o'i ofyniad arian parod net ymlaen[3]. Gellir disgwyl i ddulliau cadarnach o ragweld incwm coed a Chyfrifyddu yn ôl Amcanion, a fydd yn dosbarthu rhaglenni a'r adnoddau sydd eu hangen i'w cyflawni yn ôl yr amcanion strategol perthnasol, roi sylfaen ar gyfer ffordd fwy strategol o reoli ariannol. Yn yr un modd, mae lle i'r Comisiwn wella'r ffordd y rheolir asedau corfforaethol i roi gwell gwerth am arian, yn enwedig o ran datblygu ffordd fwy strategol o reoli asedau allweddol, megis ei adeiladau.

14 Mae'r Comisiwn wedi datblygu prosesau newydd i helpu i gynhyrchu coed, sy'n creu tua un rhan o bump o incwm blynyddol y Comisiwn. Ers 1997, mae'r Comisiwn wedi cynnig contractau hirdymor i'r rhai sy'n prynu coed. Daeth y cylch cyntaf o gontractau hirdymor i ben yn 2005-2006 ac esgorodd ar fanteision drwy roi incwm sefydlog i'r Comisiwn yn ystod amodau anffafriol yn y farchnad. Mynegodd y rhai sy'n gweithio yn y diwydiant a gyflwynodd sylwadau drwy ein gwefan rai pryderon ynglŷn â'r lleihad yn y cyflenwad o goed a digonolrwydd rhagolygon cynhyrchu a'r graddau y cadwyd atynt. Fodd bynnag, yn sgîl cymynu llawer mwy o goed nag a ragwelodd yn 2004 a 2005, mae'r Comisiwn wedi cymryd nifer o gamau i wella rhagolygon o gynhyrchu coed ar ei ystad ei hun, sy'n cynnwys datblygu cynllun cynaeafu pum mlynedd sy'n ymestyn dros gyfnod hwy na'r cynlluniau cyfatebol yn Lloegr a'r Alban.

15 Er bod gan y Comisiwn y sylfeini cywir ar waith i gynhyrchu coed, mae ein gwaith wedi nodi nifer o bryderon:

- mae risgiau i werth am arian am fod y Comisiwn wedi caniatáu cymynu mwy o na'r hyn a nodir mewn contractau a'u cymynu ar ôl dyddiadau terfynol y contract, ar delerau felly nad ydynt o bosibl yn adlewyrchu newidiadau yn amodau'r farchnad a thrwy hynny leihau incwm y Comisiwn mewn marchnad sydd ar i fyny;


3 Yn 2005-2006, cytunodd Llywodraeth y Cynulliad, ar sail eithriad blwyddyn, y gallai'r Comisiwn gario pump y cant o'i ofyniad arian parod net. Ni ddefnyddiwyd y ddarpariaeth hon gan y Comisiwn.

- er bod y Comisiwn wedi cynhyrchu'r un lefel o incwm fesul uned o goed â'r Comisiwn Coedwigaeth yn Lloegr a'r Alban, nid yw wedi gwneud dadansoddiad i asesu i ba raddau y gellid amrywio cydbwysedd cynhyrchu uniongyrchol a gwerthu coed heb eu cymynu a allai fod yn fwy proffidiol (gweler Blwch 4);
- o 2004-2005, bu'n rhaid i'r Comisiwn leihau faint o goed a gymynwyd ganddo o ychydig o dan chwarter er mwyn adlewyrchu problemau hanesyddol gor-gymynu ar raddfa fawr a'r cyflenwad cyfredol o goed nad oedd yn gynaliadwy.

16 O sylfaen staffio tebyg, rhwng 2004 a 2007, mae nifer staff y Comisiwn wedi lleihau naw y cant tra bod nifer y staff yn Lloegr a'r Alban wedi cynyddu dros yr un cyfnod. Mae'r Comisiwn yn disgwyl lleihad pellach mewn staffio dros y tair blynedd nesaf, tra rhagwelir y bydd niferoedd yn Lloegr a'r Alban yn cynyddu. Ar ôl cyflawni agenda ehangach wrth i nifer y staff leihau, mae'r Comisiwn yng Nghymru a Chomisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr wedi mynegi pryder ynglŷn â ph'un a fydd y Comisiwn yn gallu darparu ar gyfer agenda ehangu, er enghraifft o'r strategaeth *Coetiroedd i Gymru* ar ei newydd wedd, heb adnoddau ychwanegol. Yn ogystal â'r gweithlu cyffredinol, bydd angen i'r Comisiwn ystyried sut y bydd yn datblygu'r cymysgedd o sgiliau y bydd ei angen arno i gyflawni'r agenda ehangu coedwigaeth.

17 Mynegwyd amrywiaeth o safbwyntiau ynglŷn â rôl yr ystad goedwigaeth gyhoeddus yng Nghymru gan randdeiliaid mewnol ac allanol. Roedd gan rai safbwyntiau traddodiadol iawn ynglŷn â chynhyrchu coed, tra bod eraill yn llawer mwy cefnogol i sicrhau manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ehangach o'r ystad. Adlewyrchir gwahaniaethau o'r fath yn y disgwyliadau croes o bosibl ymhlith rhanddeiliaid allanol ac mewn gwahaniaethau diwylliannol o fewn y Comisiwn. O ganlyniad, mae angen clir am arweiniad effeithiol gan y Comisiwn i uno staff o amgylch cyfeiriad strategol amlwg, ac i reoli effaith disgwyliadau croes o bosibl ymhlith rhanddeiliaid allanol.

**Ffigur 1 – Mae'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn gofyn i'r Comisiwn roi cyfeiriad corfforaethol cliriach, a chysoni ei brosesau busnes craidd a'i ddefnydd o adnoddau ag ef, gyda chymorth arweiniad effeithiol**




# Argymhellion

18 Mae ein hargymhellion yn dod o dan grwpiau y gellir eu cysylltu ac fe'u nodir yn Ffigur 1 uchod.

### *Cysylltu strategaeth gorfforaethol, blaenoriaethu a dyrannu adnoddau*

1 Cred staff y Comisiwn fod angen i'r sefydliad egluro ei flaenoriaethau. Nid yw gwahanol rannau o'r Comisiwn yn cyd-fynd o ran ei gyfeiriad strategol a allai arwain at densiynau mewnol ac anawsterau wrth reoli materion gweithredol yn yr ystad coedwigoedd. Wrth ymateb i'r **strategaeth ddiwygiedig *Coetiroedd i Gymru*, dylai'r Comisiwn amlinellu cynllun a blaenoriaethau corfforaethol clir, wedi'u hategu gan gynlluniau cadarn i'w cyflawni.**

### *Atgyfnerthu prosesau busnes craidd drwy eu hintegreiddio ag amcanion strategol*

2 Mae cynllunio busnes y Comisiwn yn fyrdymor o ran natur ac mae wedi'i lywio gan ystyriaethau ariannol yn hytrach na rhai strategol, gan adlewyrchu'n rhannol bwysau ei ddibyniaeth ar incwm o werthu coed. Mae angen integreiddio cynllunio ariannol a busnes â chynllunio corfforaethol yn well er mwyn sicrhau y dyrennir adnoddau yn ôl blaenoriaethau strategol yn hytrach na phatrymau ariannol hanesyddol. Nid oes cynllun ariannol ar gyfer y tymor canolig y tu hwnt i dair blynedd, ac mae gwendidau mewn cynllunio cyfalaf fel gwariant cyfalaf yn tueddu i ymwneud mwy â'r incwm sydd ar gael yn hytrach nag angen. **Gan adeiladu ar ddatblygu Cyfrifyddu yn ôl Amcanion, dylai'r Comisiwn:**

- **cynnal adolygiad sylfaenol o'i systemau cynllunio busnes a rheoli ariannol er mwyn sicrhau bod ymagwedd tymor hwy yn arwain at ddyrannu adnoddau yn ddigon strategol, yn ogystal â ffocws ar bwysau uniongyrchol ar lif arian parod;**
- **datblygu prosesau clir i gysylltu cynlluniau busnes canolfannau cost â'r cynllun corfforaethol;**
- **datblygu cynllun cyfalaf tymor canolig, wedi'i ategu gan achosion busnes; a**
- **datblygu cynllun ariannol yn y tymor canolig a'r hirdymor wedi'i gysoni â'r cynllun busnes corfforaethol newydd a'r cynlluniau busnes dosbarth.**

3 Nid oes gan y Comisiwn system rheoli perfformiad sydd wedi'i chysoni ag amcanion strategol, ac mae wedi defnyddio cyfres anghyson o DPAau. Nid yw DPAau corfforaethol yn cysylltu'n uniongyrchol â'r amcanion yn *Coetiroedd i Gymru*. Wrth i ddewisiadau strategol ddod yn gliriach drwy strategaeth ddiwygiedig *Coetiroedd i Gymru* Llywodraeth y Cynulliad, **dylai'r Comisiwn ddatblygu cyfres lai o fesurau allweddol o berfformiad, sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'i ddiben, amcanion strategol Llywodraeth y Cynulliad a disgwyliadau rhanddeiliaid. Dylai gysylltu amcanion strategol a mesurau craidd o berfformiad. Dylai unrhyw fesurau newydd fod yn seiliedig ar asesu:**

- **y galw am wasanaethau'r Comisiwn o safbwynt ei gwsmeriaid, gan gynnwys amcanion Llywodraeth y Cynulliad a amlinellir yn y fersiwn diwygiedig o *Coetiroedd i Gymru*;**
- **y galw i ddeall ei sefyllfa gyfredol, ei berfformiad a'i allu yn well;**
- **y lle i gynyddu ei allu drwy wella'r ffordd y mae'n cyflawni ei waith; ac**
- **effaith cyfaddawdu rhwng cyflawni ei amrywiol amcanion ar lefel strategol a gweithredol.**

4 Nid yw rheoli perfformiad corfforaethol ac unigol wedi'i gysylltu'n gyson ag amcanion corfforaethol. Nododd rheolwyr llinell anawsterau o ran esbonio i'r staff sut y cyfrannodd eu rolau unigol i gyflawni strategaeth y Comisiwn. **Dylai'r Comisiwn strwythuro amcanion unigol staff yn ôl amcanion corfforaethol allweddol, fel y gall pob un o gyflogeion y Comisiwn weld sut y mae eu rôl yn cyfrannu i gyflawni amcanion allweddol y Comisiwn.**

5 Nid yw'r Comisiwn yn caffael mewn ffordd gydlynol, ac yn aml mae'n caffael yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol pan fydd lefelau'r incwm coed yn gliriach. Arweiniodd hyn at weithredu yn y byrdymor heb gysylltiad clir ag amcanion strategol. Cafwyd enghreifftiau lle nad yw achosion busnes wedi cael eu datblygu a hefyd enghreifftiau o gontractau coed sy'n ymestyn y tu hwnt i ddyddiadau terfynol neu'r meintiau a gontractiwyd. Mae'r canllawiau presennol yn hirfaith ac awgryma canfyddiadau archwiliad diweddar nad ydynt wedi'u deall yn dda. Dylai'r broses o benodi swyddog caffael penodol sy'n mynd rhagddi wella gallu ac ymagwedd gorfforaethol y Comisiwn tuag at gaffael. **Dylai'r Comisiwn weithio'n agosach gyda Gwerth Cymru i sicrhau gallu ac arbenigedd ychwanegol er mwyn helpu'r swyddog caffael newydd, er enghraifft i wneud y canlynol:**

- **datblygu strategaeth gaffael benodol i'r Comisiwn a chanllawiau syml a chlir i'r staff ar lawr gwlad;**
- **cadw cofrestr ganolog o dendrau a chronfa ddata o gontractau, gan**

**gynnwys terfynau rhybuddio i dynnu sylw at gontractau sy'n agosáu at eu terfynau;**

- **cyd-drafod ymestyniadau priodol i gontractau a rhoi gwerth am arian;**
- **gweithredu contractau yn ôl gofyn a rhestrau o gyflenwyr cymeradwy sy'n unigryw i Gymru;**
- **cyflwyno trefniadau effeithiol ar gyfer archwilio a chysoni'r gronfa ddata o gontractau a'r gofrestr ganolog o dendrau; a**
- **datblygu systemau i ddysgu a lledaenu gwersi a ddysgwyd o gaffael ar raddfa fawr, megis y rhaglen ffermydd gwynt.**

6 Mae angen i'r Comisiwn werthuso ei gynllun grant Coetiroedd Gwell i Gymru yn effeithiol er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni yn unol ag amcanion *Coetiroedd i Gymru*. Yn ystod blwyddyn gyntaf y cynllun, methodd y Comisiwn â chyflawni'r ddau DPA a oedd yn ymwneud â chyfranogi a gwariant ar gynllun grant Coetiroedd Gwell i Gymru. O ganlyniad mae angen i'r Comisiwn adolygu'r cynllun i gynyddu nifer y Cynlluniau Rheoli a gymeradwyir, ac yn y pen draw annog gwell coetiroedd. **Dylai'r Comisiwn:**

- **datblygu dealltwriaeth dda o'r ffordd y mae darpar ymgeiswyr yn edrych ar ei gynlluniau grant drwy ddadansoddi tueddiadau o ran ymgeisio, canfyddiadau rhanddeiliaid a meysydd i'w gwella;**
- **dylai'r Comisiwn ystyried symleiddio ei gynllun Coetiroedd Gwell i Gymru ac ystyried y rhesymau pam bod nifer y Cynlluniau Rheoli cymeradwy yn is na'r disgwyl;**
- **dylai'r Comisiwn ddatblygu cyfres o fesurau o berfformiad ar gyfer ei gynlluniau grant sy'n mesur ac yn rhoi adroddiad ar gynnydd yn erbyn canlyniadau yn ogystal â phroses.**

7 Nid yw'r Comisiwn wedi cysylltu ei gofrestr risg â'i amcanion corfforaethol ac nid yw wedi sefydlu trefniadau cadarnach ar gyfer meysydd busnes allweddol, megis incwm coed a grantiau. **Dylai'r Comisiwn gysylltu ei gofrestr risg â'i amcanion corfforaethol yn glir. Dylai hefyd ystyried sefydlu cofrestru risg sylfaenol ar wahân ar gyfer incwm coed a grantiau. Dylai adolygu'r cofrestrau risg hyn o leiaf bob chwarter.**

### *Rheoli ei adnoddau yn effeithiol*

8 Dylanwedir ar sefyllfa ariannol y Comisiwn a'i gynllunio a'i reoli ariannol yn y byrdymor yn fawr gan ei incwm coed cyfnewidiol a'i ddiffyg cyfalaf ecwiti. **Dylai Llywodraeth y Cynulliad nodi'r lle i lacio ei chyfyngiadau ar y Comisiwn o ran cadw cronfeydd wrth gefn er mwyn ei helpu i reoli arian ac asedau yn fwy strategol, ac er mwyn helpu i leddfu effeithiau amrywiadau mewn marchnadoedd coed.**

9 Mae angen i'r Comisiwn fabwysiadu ymagwedd strategol tuag at reoli ei asedau corfforaethol. **Dylai'r Comisiwn ddatblygu cynllun rheoli asedau sy'n nodi a oes angen yr asedau o hyd, a ydynt yn y lleoliad cywir, y gwaith sydd ei angen i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas at y diben, ac sy'n amlwg yn gysylltiedig â rhaglen gyfalaf.**

10 Mae'r Comisiwn yn ddibynnol iawn ar incwm o goed sy'n gyfnewidiol ac sy'n amrywio yn ôl grymoedd y farchnad. Fodd bynnag, nid yw wedi dilyn cyfeiriad strategol cyson o ran y cydbwysedd rhwng gwerthu coed heb eu cymynu o'u cymharu â chynhyrchu uniongyrchol. **Er mwyn Rheoli risgiau sy'n gysylltiedig ag amrywiadau yn y farchnad goed, dylai'r Comisiwn:**



- **datblygu cynlluniau cadarn wrth gefn i ymdrin ag amrywiadau yn y farchnad;**
- **o gofio bod maint yr elw yn wahanol rhwng cynhyrchu uniongyrchol a gwerthu coed heb eu cymynu, asesu cost a budd newid y cydbwysedd cyfredol rhwng y ddau ddull, gan ystyried yr holl newidynnau perthnasol megis elw mwy o werthu coed heb eu cymynu a'r risgiau cysylltiedig;**
- **sicrhau bod yr asesiad hwn wedi'i adlewyrchu yn ei strategaeth farchnata ehangach; a**
- **datblygu senario cynllunio clir i asesu'r cyfleoedd a'r risgiau sy'n codi o incwm coed sy'n gostwng neu'n cynyddu.**

11 Nid yw'r Comisiwn wedi rheoli'r broses ar gyfer mynd y tu hwnt i'r meintiau mewn contractau coed yn ddigonol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. **Dylai'r Comisiwn roi gweithdrefnau ar waith sy'n gosod trothwy y gall staff awdurdodi meintiau y tu hwnt i lefelau contractau yn unol ag ef, ond y byddai'n rhaid ceisio cymeradwyaeth y tu hwnt i'r trothwy hwnnw.**

12 Er bod y Comisiwn yn cydnabod nad yw ei ystad gyfredol wedi'i lleoli yn y rhannau mwyaf priodol o Gymru, nid oes ganddo strategaeth glir i adleoli'r ystad. Hefyd, o dan y trefniadau ariannol cyfredol â Llywodraeth y Cynulliad, ni all y Comisiwn ddefnyddio derbyniadau o werthiannau ar ôl y flwyddyn waredu. **Ar ôl i'r Comisiwn gwblhau ei arolwg sylfaenol o'r ystad gyfredol, dylai'r Comisiwn a Llywodraeth y Cynulliad ddatblygu strategaeth glir ar gyfer datblygiad ei hystadau yn y dyfodol, gan gynnwys cynigion ar gyfer gwaredu a chaffael tir a defnyddio unrhyw dderbyniadau.**

### *Rheoli newid yn effeithiol er mwyn sicrhau bod rhanddeiliaid mewnol ac allanol yn deall cyfeiriad strategol y Comisiwn*

13 Mae angen i'r Comisiwn gyflawni rheoli newid effeithiol er mwyn sicrhau bod rhanddeiliaid mewnol ac allanol yn deall ei gyfeiriad a'i strategaeth. **Er mwyn datblygu diwylliant corfforaethol cryfach a sicrhau bod staff yn unedig ynglŷn â chyfeiriad strategol a ddeellir yn glir, dylai'r Comisiwn:**

- **datblygu cynllun cyfathrebu strategol i helpu staff i ddeall cyfeiriad y sefydliad a lleihau tensiynau diwylliannol;**
- **cysoni ei negeseuon i randdeiliaid mewnol ac allanol; a**
- **cheisio datblygu cynlluniau i symud staff o'u rolau arferol i rannau eraill o'r busnes er mwyn datblygu eu dealltwriaeth o'r cyd-destun ehangach.**

# Rhan 1 – Mae'r Comisiwn wedi cyrraedd targedau ariannol a'r rhan fwyaf o dargedau perfformiad tra'n cyflawni agenda ehangu

## Mae agenda ehangu coedwigaeth wedi gosod disgwyliadau ychwanegol ar y Comisiwn

### Amlinellodd *Coetiroedd i Gymru* (2001) weledigaeth eang o goedwigaeth amlbwrpas

1.1 Mae strategaeth Llywodraeth y Cynulliad, *Coetiroedd i Gymru*, yn nodi ei disgwyliadau y dylai coedwigoedd a choetiroedd Cymru esgor ar fanteision cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach (Ffigur 2). Gyda chyfrifoldeb llwyr am gyflawni'r amcanion hyn ar ystad coetiroedd o dan berchenogaeth gyhoeddus yn bennaf ar ran Llywodraeth y Cynulliad, mae'r ffocws ehangach yn nodi cyfeiriad newydd i'r Comisiwn a symudodd oddi wrth 'planhigfeydd unswydd' (wedi'u hanelu at gefnogi diwydiannau prosesu coed) tuag at ddefnyddiau mwy arloesol o adnoddau coetiroedd sy'n cyfrannu at gyflawni polisïau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol Llywodraeth y Cynulliad. Mae Atodiad 2 yn disgrifio unedau'r Comisiwn sy'n cyflawni'r agenda hon.

### Yn fwy diweddar mae newid yn yr hinsawdd wedi dod yn sbardun strategol allweddol i goedwigaeth yng Nghymru

1.2 Mae polisi diweddar Llywodraeth y Cynulliad yn ehangu cylch gwaith coedwigaeth yng Nghymru ymhellach, gan bwysleisio rôl coedwigaeth yn y gwaith o leddfu effeithiau newid yn yr hinsawdd a heriau newid yn yr hinsawdd ar gyfer yr ystad coetiroedd. Wrth ystyried sut y dylid mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, mae dogfen '*Cymru'n Un*' Llywodraeth y Cynulliad[4] yn nodi ei hymrwymiadau i greu 'Coedwig Genedlaethol i Gymru o goed brodorol i weithredu fel sinc carbon[5]'.

**Ffigur 2 – Mae *Coetiroedd i Gymru* yn amlinellu nodau strategol Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer coedwigaeth**

**Coetiroedd i bobl**
Dylai coetiroedd a choedwigaeth esgor ar fanteision cymdeithasol ac amgylcheddol i gymunedau lleol, gan gynnwys cyfleoedd i ddysgu, ac wrth wneud hynny gyfrannu at gynaliadwyedd lleol.

**Pwyslais newydd ar reoli coetiroedd**
Galwodd y strategaeth am gymorth mwy effeithiol i reolwyr a pherchnogion coetiroedd, er mwyn sicrhau'r manteision cyhoeddus a phreifat mwyaf o goetiroedd.

**Cymru fel lleoliad ar gyfer diwydiannau coedwigaeth o'r radd flaenaf**
Amcangyfrifodd y strategaeth fod diwydiannau coetiroedd wedi cyfrannu tua £400 miliwn i economi Cymru, a nododd fod angen helpu proseswyr coed i ddatblygu eu busnesau, cadw swyddi crefftus a chysylltu â chyfleoedd busnes eraill ym maes amaethyddiaeth a thwristiaeth.

**Amgylchedd amrywiol ac iach**
Nododd *Coetiroedd i Gymru* fod angen cynnal a gwella nodweddion ffisegol a biolegol y coetiroedd drwy gadw a gwella ansawdd pridd a dŵr a hyrwyddo bioamrywiaeth ledled yr ystad coetiroedd.

**Twristiaeth, hamdden ac iechyd**
Nododd y strategaeth goetiroedd fel lleoliad ar gyfer ymarfer corff a mwynhad a rhagwelodd rôl allweddol i goetiroedd yn y gwaith o gynnal iechyd emosiynol a chorfforol pobl Cymru.

*Ffynhonnell: Coetiroedd i Gymru (2001)*

4 Arweiniodd etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol ar 3 Mai 2007 at lywodraeth glymblaid yn cynnwys Aelodau Llafur a Phlaid Cymru o'r Cynulliad. Mae'r ddogfen '*Cymru'n Un*', y cytunwyd arni ar y cyd rhwng y ddwy blaid hyn ar 27 Mai 2007, yn amlinellu blaenoriaethau'r glymblaid ar gyfer gweithredu.

5 Adran Materion Gwledig Llywodraeth y Cynulliad sy'n gyfrifol, drwy gynllun cyflawni Llywodraeth y Cynulliad a'r cynllun busnes Materion Gwledig, am fonitro perfformiad y Comisiwn yn erbyn yr ymrwymiad hwn.



1.3 Ym mis Gorffennaf 2007, cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad ddogfen ymgynghori ar ddiwygio ei strategaeth. O gymharu â strategaeth wreiddiol *Coetiroedd i Gymru* 2001, mae'r ddogfen ymgynghori hon yn rhoi mwy o bwyslais ar yr effeithiau y gall coedwigaeth eu cael ar newid yn yr hinsawdd. Y tu hwnt i neilltuo carbon, mae'r ddogfen ymgynghori yn rhagweld y bydd coedwigoedd yn chwarae rhan bwysig o ran:

- addasu i realiti newid yn yr hinsawdd, er enghraifft drwy weithredu fel rhwydweithiau cynefin a thrwy hynny ei gwneud yn haws i rywogaethau wrthsefyll newid yn yr hinsawdd; a
- chyfnewid tanwyddau ffosil am danwydd coed a defnyddio cynhyrchion coed sy'n llygru llai yn lle cynhyrchion megis concrid a dur sy'n defnyddio llawer o ynni[6].

1.4 Mae *Strategaeth Amgylcheddol* Cymru yn nodi ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i ddatblygu cynllun addasu i newid yn yr hinsawdd i fynd i'r afael ag effeithiau newid yn yr hinsawdd ar amaethyddiaeth a choedwigaeth, a sicrhau bod polisi coedwigaeth yn hyrwyddo ystad sy'n gallu gwrthsefyll heriau newid yn yr hinsawdd.

1.5 Ym mis Tachwedd 2007, cynhaliodd Comisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr gynhadledd fawr i helpu i ddatblygu gwell dealltwriaeth o'r berthynas rhwng coedwigaeth a newid yn yr hinsawdd. Ym mis Mehefin 2008 cynhaliodd y Comisiwn yng Nghymru gynhadledd debyg o unigolion allweddol yng Nghymru sy'n gwneud penderfyniadau ac yn llunio polisïau i godi ymwybyddiaeth ynglŷn â'r rôl y gall coedwigoedd a choedwigaeth ei chwarae i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd yng Nghymru. Nododd staff a rhanddeiliaid allweddol yn gyson y cyfleoedd a gynigir, a'r bygythiadau a godir gan newid yn yr hinsawdd. Nododd ein grwpiau ffocws â staff y Comisiwn waith y Comisiwn ar wrthsefyll newid yn yr hinsawdd fel enghraifft o arfer da. Bu rhanddeiliaid allanol, gan gynnwys y cyhoedd a wnaeth sylwadau drwy wefan Swyddfa Archwilio Cymru, yn pwysleisio'n gyson bwysigrwydd newid yn yr hinsawdd i raglen waith y Comisiwn yn y dyfodol.

## Yn ystod y blynyddoedd diweddar mae'r Comisiwn wedi cyflawni'r rhan fwyaf o DPAau, gan gynnwys targedau ariannol allweddol, ac mae ar y trywydd iawn i barhau i'w cyflawni

1.6 Mae'r Comisiwn yn defnyddio cyfres o DPAau i asesu ei berfformiad. Mae'r DPAau hyn wedi'u strwythuro yn ôl y themâu a nodir yng nghynllun corfforaethol y Comisiwn. Mae'r Comisiwn yn defnyddio'r themâu cyffredinol canlynol i asesu ei berfformiad:

- coetiroedd wedi'u rheoli'n gynaliadwy;
- coetiroedd sy'n cefnogi cymunedau effeithiol a chryf;
- coetiroedd sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol i economi Cymru;
- coetiroedd sy'n cyfrannu i amgylchedd mwy iach a gwydn; a
- chyflawni'n effeithiol ac yn effeithlon mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y cwsmer.

6 Mae gwaith gan grŵp Ymchwil i Goedwigoedd Comisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr wedi dod i'r casgliad 'yr effaith gadarnhaol fwyaf o ran carbon y gellir ei chael yw drwy reoli coedwigoedd yn gynaliadwy ar gyfer cynhyrchion a all gael eu defnyddio yn lle defnyddiau sydd ag ôl troed carbon mawr' (crynodeb o'r Gynhadledd *'Forests and Climate Change A Convenient Truth?'* ym mis Mehefin 2008)

1.7 Yn 2006-2007, cyflawnodd y Comisiwn 16 (62 y cant) o'i 30 DPA (Atodiad 3), gan gynnwys y rhai a oedd yn ei rwymo i weithredu o fewn ei gyllideb gyffredinol a'i setliad ariannol gan Lywodraeth y Cynulliad. Yn 2007-2008, cadwodd y Comisiwn ei ymrwymiad i reoli alldro yn unol â'r gyllideb a gweithredu o fewn y cyllid a ddarparwyd gan Lywodraeth y Cynulliad a chyflawnodd 19 (neu 79 y cant) o'i gyfres lai o 24 o DPAau ar gyfer y flwyddyn honno (Atodiad 3). Mae Ffigur 3 yn nodi'r DPAau nas cyflawnwyd gan y Comisiwn yn 2007-2008 gydag esboniad o'u harwyddocâd.

**Ffigur 3 – Methodd y Comisiwn â chyflawni pum DPA yn 2007-2008**

| Dangosydd perfformiad allweddol | Perfformiad gwirioneddol 2007-2008 | Sylwadau |
|---|---|---|
| DPA 5: Ardal o Goetir sy'n rhan o'r cynllun Coetiroedd Gwell i Gymru (paragraff 2.16) | Y targed oedd sicrhau bod 10,000 ha o goetiroedd yn rhan o'r cynllun – cyfanswm gwirioneddol y tir a gynhwyswyd dan y cynllun oedd 6,537 ha. | Mae Coetiroedd Gwell i Gymru yn gosod dyletswydd ar ddeiliad y coetir i ddatblygu a chyflwyno cais cychwynnol ac wedyn Cynllun Sylfaen a Chynllun Rheoli Coetir manwl. Mae'r Comisiwn yn nodi nifer fawr o ymgeiswyr. Fodd bynnag, mae'r ffactorau canlynol yn golygu bod llai o'r ymgeiswyr na'r disgwyl wedi mynd ati i gyflwyno Cynllun Rheoli Coetir, gan arwain at lai o geisiadau wedi'u cymeradwyo na'r disgwyl:<br>■ ffactorau allanol, er enghraifft gallu o fewn y sector rheoli coetiroedd proffesiynol ac anawsterau ymhlith darpar ymgeiswyr wrth fapio tir; a<br>■ ffactorau mewnol, megis problemau cynnar gyda'r llwyfan TG a oedd yn cefnogi'r cynllun; a chymhlethdod y cynllun.<br>Mae'r Comisiwn wrthi'n symleiddio'r cynllun, a byddai'n disgwyl gweld y cynllun yn datblygu ymhellach i adlewyrchu *Coetiroedd i Gymru* ar ei ffurf ddiwygiedig a chasgliadau adolygiad Llywodraeth y Cynulliad o Echel 2 o'r Cynllun Datblygu Gwledig.<br>Mae'r pwyntiau hyn hefyd yn gysylltiedig â DPA 23 y methodd y Comisiwn â'i gyflawni hefyd. |
| DPA 9 Nifer y prosiectau datblygu cymunedol a gyflawnwyd drwy Cydcoed (Astudiaeth Achos B) | Mesurir y dangosydd hwn ar sail nifer y prosiectau sydd wedi'u cwblhau'n ariannol, gyda chwblhau ariannol wedi'i ddiffinio fel tystiolaeth o wariant llawn (yn erbyn y grant a ddyrannwyd). O ddefnyddio'r diffiniad hwn, ar gyfer 2007-2008 cwblhaodd y Comisiwn 57 o'r 81 o brosiectau datblygu cymunedol Cydcoed a fu'n rhan o'r targed. | Telir arian Cydcoed ymlaen llaw i grwpiau cymunedol. Mae'r Comisiwn yn nodi ei fod wedi methu â chyflawni'r targed hwn, er iddo dalu'r holl arian a oedd ar gael o dan y rhaglen ymlaen llaw, am nad yw pob grŵp wedi dangos tystiolaeth eu bod wedi gwario eu dyraniad yn llawn.<br>Ar 31 Mawrth 2008, y gwahaniaeth rhwng grantiau a dalwyd ymlaen llaw a'r dystiolaeth o wariant oedd tua £54,000, gan beri i Swyddfa Archwilio Cymru roi barn amodol ar gais y Comisiwn am grant i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO)[7]. |

7 WEFO sy'n rheoli cronfeydd strwythurol yr UE; Ariennir Cydcoed drwy raglen Amcan Un yr UE.

| Dangosydd perfformiad allweddol | Perfformiad gwirioneddol 2007-2008 | Sylwadau |
|---|---|---|
| DPA 10 Cyfanswm y coed a gynaeafwyd o'r ystad drwy ddull coedamaeth | Y targed oedd cynaeafu 770 $km^3$, cynaeafwyd 680$km^3$ mewn gwirionedd. | Mae hyn yn cyfeirio at y ganran o goed a gynaeafir drwy deneuo coed a chymynu pob coeden mewn ardal.<br>Mynegodd staff rai pryderon ynglŷn â'r rheswm dros deneuo coed mewn rhai ardaloedd o dir y Comisiwn. Mae staff yn cydnabod bod teneuo coed yn fuddiol o ran gwella bioamrywiaeth, cynnal y dirwedd ac ychwanegu gwerth at y cnwd coed ond roedd ganddynt amheuon a ddylai'r dull drutach hwn o gynaeafu gael ei ddefnyddio mewn ardaloedd o werth masnachol, hamddena a bioamrywiaeth isel.<br>Mae Cynlluniau Dylunio Coedwig yn nodi ardaloedd lle cymynir pob coeden ond nid ardaloedd ar gyfer teneuo coed, ac felly ni fyddant yn helpu i gyflawni'r targed hwn yn y dyfodol.<br>Polisi'r Comisiwn yw tybio bod coed ym mhob ardal o'r ystad yn cael eu teneuo (gyda rhai eithriadau)[8]. Er mwyn cefnogi'r polisi hwn, mae'r Comisiwn wedi datblygu system fapio (a elwir yn Haen Deneuo Weithredol) sy'n ei gwneud yn ofynnol i asesu'r posibilrwydd o deneuo coed ym mhob ardal o ystad y Comisiwn.<br>O dan y system Haen Deneuo Weithredol, mae'r Comisiwn yn anelu at gyflawni teneuo llwyr o'r hyn a elwir yn 'haen las' neu'r holl dir yr asesir ei fod yn gymwys am deneuo. Mae'r 'haen las' yn cynnwys tir sydd ar hyn o bryd ar restr ar gyfer teneuo a thir y bydd angen achos busnes yn ei gylch cyn teneuo (hy, am y bydd teneuo yn gofyn am fuddsoddiad cychwynnol sylweddol). Mae'r Comisiwn yn rhagweld proses fesul cam ar gyfer teneuo coed ar yr ardaloedd mwy costus hyn, gan ddechrau yn 2010.<br>Mae'r pwys amlwg a roddir ar deneuo yn golygu y bydd angen i'r Comisiwn ddarbwyllo ei holl grwpiau o staff o werth cynhenid y ffordd hon o reoli coedwigoedd. |
| DPA 11 Canran o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) ar yr ystad sydd â chynlluniau cymeradwy | Methodd y Comisiwn â chyrraedd y targed hwn o drwch blewyn; methwyd â chymeradwyo dau o'r 19 o gynlluniau targed erbyn mis 31 Mawrth 2007. Cyflawnwyd y DPA hwn gan y Comisiwn yn y flwyddyn flaenorol. | Mae gan SoDdGAau gynlluniau rheoli i'w cynnal mewn cyflwr 'ffafriol' neu eu rhoi mewn cyflwr 'ffafriol'. Mae'n rhaid llunio cynlluniau ar gyfer dynodiadau newydd o fewn naw mis. Dengys arolygon fod SoDdGAau mewn cyflwr gwaeth yng Nghymru ar y cyfan nag ydynt yn Lloegr a'r Alban; nid yw data ar gyflwr SoDdGAau ar dir y Comisiwn yn benodol ar gael. Os oes cynlluniau rheoli ar waith mae hyn yn debygol o helpu Llywodraeth y Cynulliad i gyrraedd ei tharged y dylai 90 y cant o SoDdGAau yng Nghymru fod mewn cyflwr 'ffafriol' erbyn 2010. |
| DPA 23 Defnyddio cyllideb grantiau i goetiroedd preifat | Y targed oedd gwario mwy na 90 y cant o'r gyllideb, gwariwyd 88 y cant o'r gyllideb mewn gwirionedd. | Gweler sylwadau ar DPA 5. |

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru.*

8 Mae Llyfryn Cyfarwyddyd Gweithredol 9 yn nodi 'we presume that all productive conifer crops will be thinned' ac yn nodi'r rhesymeg dros y dybiaeth hon. Mae'r Llyfryn hefyd yn nodi lle nad yw teneuo coed yn briodol o bosibl, ymhlith yr eithriadau a nodwyd mae achosion lle mae teneuo coed yn debygol o arwain at fuddsoddiad cychwynnol annerbyniol o fawr (megis adeiladu ffordd fynediad) neu lle y byddai'n arwain at risg annerbyniol o uchel o chwyth gwynt.

# Mae rhanddeiliaid yn cydnabod cynnydd y Comisiwn o ran ymateb i agenda ehangu coedwigaeth

## Cred staff y Comisiwn ei fod yn cyflawni agenda ehangu coedwigaeth, tra'n parhau i gefnogi diwydiannau coed

**1.8** Nododd ein grwpiau ffocws fod staff y Comisiwn yn credu ei fod yn cyflawni'n effeithiol weledigaeth Llywodraeth y Cynulliad o goedwigaeth sy'n esgor ar fanteision cymdeithasol ac economaidd, ac ar yr un pryd yn cefnogi'r diwydiannau coed traddodiadol yng Nghymru (Atodiad 4). Teimlai'r rhai a gymerodd ran fod y Comisiwn yn gwneud yn arbennig o dda o ran cyflawni'r agenda coedwigaeth gymdeithasol, gan roi mynediad i'r cyhoedd i gyfleusterau hamdden, megis canolfannau ymwelwyr, llwybrau beicio mynydd a marchogaeth a nodwyd nifer o fentrau gan y Comisiwn yr ystyrid eu bod yn cyfrannu i amgylchedd o ansawdd gwell yng Nghymru.

**1.9** Er bod staff yn llai hyderus ynglŷn â gwaith y Comisiwn i 'gefnogi diwydiannau coetiroedd ffyniannus', teimlent fod y Comisiwn wedi rhoi ar waith nifer o fentrau i hyrwyddo buddsoddiad hirdymor y sector preifat yn y diwydiant coed. Yn y dadansoddiad o'r cyflwyniadau a gawsom gan y cyhoedd nodwyd peth cefnogaeth i honiadau staff o ran effeithiau cadarnhaol y Comisiwn ar y diwydiant coed (Blwch 1), er bod mwy o sylwadau negyddol ynglŷn ag effeithiau ar y diwydiant (Ffigur 24).

**Blwch 1 – Sylwadau cadarnhaol gan y cyhoedd ynglŷn â'r ffordd y mae'r Comisiwn yn meithrin cynhyrchu coed cynaliadwy**

'Cytunir yn gyffredinol yn y sector prosesu coed fod y Comisiwn Coedwigaeth wedi helpu i ddatblygu'r diwydiant yn dda drwy roi coed ar y farchnad mewn modd cyson, waeth beth fo amrywiol amodau'r farchnad.'
'Mae gan Gymru ddiwydiant coedwigaeth ffyniannus er gwaethaf anawsterau byd-eang diweddar sy'n codi o brisiau coed, a'r meintiau mawr o goed sy'n cael eu rhoi ar y farchnad o Rwsia a Dwyrain Ewrop.'

*Ffynhonnell: Cyflwyniadau cyhoeddus i wefan Swyddfa Archwilio Cymru*


## Mae partneriaid allanol yn cydnabod ymrwymiad y Comisiwn a'i staff o safon dda i gyflawni amcanion cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach

**1.10** Yn gyffredinol dywedodd partneriaid allanol y Comisiwn wrthym fod y Comisiwn yn ymrwymedig i weledigaeth amlbwrpas o goedwigaeth a choedwigoedd. Roedd partneriaid yn gallu nodi'r hyn a ystyrid yn fentrau o safon dda yn cyflawni yn erbyn amcanion coedwigaeth cymdeithasol ac amgylcheddol llai traddodiadol. Nododd partneriaid y Comisiwn nifer o fentrau sydd â'r nod o fynd i'r afael â phryderon amgylcheddol allweddol, megis lleihad mewn rhywogaethau ac ansawdd dŵr gwael. Wrth weithio i fynd i'r afael â phoblogaethau llai o rywogaethau allweddol, gwnaeth y Comisiwn a'r Gymdeithas Frenhinol er Diogelu Adar yng Nghymru ddylunio a gweithredu Prosiect Adfer Ceiliogod Du (Astudiaeth Achos Ch).

**1.11** Mae'r Comisiwn hefyd wedi bod yn ystyried ffyrdd o liniaru effeithiau negyddol o bosibl gweithrediadau cynaeafu ar ansawdd dŵr. Mae'r Comisiwn wedi bod yn gweithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru i:

- nodi a gweithredu arferion rheoli priodol, er enghraifft y defnydd o fatiau gwaddod[9] yn ystod gweithrediadau cynaeafu;
- adolygu canllawiau i gontractwyr cynaeafu'r sector preifat; a

9 Matiau bioddiraddadwy a osodir ar wely afon yw matiau gwaddod. Fe'u defnyddir i ddal gwaddod a symudir gan weithgareddau megis gosod pibellau (naill ai mewn cyrsiau dŵr neu'n agos iddynt), a thrwy hynny atal llygredd i lawr yr afon.



- monitro effeithiau torri 'malurion'[10] ar ansawdd pridd.

**1.12** Nododd sefydliadau statudol ac yn y sector gwirfoddol y ddarpariaeth o safon a wnaed gan y Comisiwn i wella mynediad a hamdden, yn enwedig datblygiad llwybrau beicio mynydd megis y rhai yng nghanolfan Ymwelwyr Coed y Brenin (Astudiaeth Achos A), yr oedd rhai yn ei hystyried yn brosiect enghreifftiol. Yn y cyflwyniadau gan y choedd i wefan Swyddfa Archwilio Cymru nodwyd hefyd y manteision cymdeithasol ac amgylcheddol a grëir gan y Comisiwn (Blwch 2), gan nodi'r cyflawniadau allweddol canlynol:

- darparu cyfleusterau hamdden, megis canolfannau ymwelwyr;
- rhoi cyfleoedd mynediad megis llwybrau beicio mynydd; a
- chynnal a chadw a gwella cynefinoedd a bywyd gwyllt.

**1.13** Mae staff a rhanddeiliaid allanol wedi cymeradwyo ansawdd staff y Comisiwn. Teimlai staff yn ein grwpiau ffocws mai prif gryder y sefydliad oedd gwybodaeth, sgiliau, ymrwymiad ac ymroddiad ei staff. Roedd y Comisiwn yn cael ei ystyried yn sefydliad ‘medra’, sydd wedi cael llwyddiannau sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf gyda'i staff yn ymateb yn dda i'r agenda goedwigaeth sy'n datblygu. Gostyngodd lefelau salwch o fewn y Comisiwn o lefel flynyddol gyfartalog o 8.6 diwrnod y cyflogai yn 2004-2005 i 4.9 diwrnod yn 2006-2007, sy'n cymharu'n ffafriol iawn â meincnodau'r sector cyhoeddus a'r sector preifat yn ogystal â sefydliadau â gweithlu o faint tebyg.

**Blwch 2 – Tynnodd aelodau o'r cyhoedd sylw at fanteision cymdeithasol ac amgylcheddol gwaith y Comisiwn**

Pan ofynnwyd i gyfranogwyr ddisgrifio'r hyn a wnaeth y Comisiwn yn dda, gwnaed y sylwadau canlynol:

‘Mae [y Comisiwn] yn darparu gwasanaeth lluosog ardderchog i lawer o fuddiannau nad ydynt yn rhai craidd megis y rhaglen addysg, hawliau mynediad a chyfleusterau cyhoeddus (ee canolfannau beicio).’

‘Ar dir y Comisiwn ei hun, mae'n darparu cyfleusterau ardderchog ar gyfer mynediad i'r cyhoedd mewn mannau poblogaidd.’

‘Safleoedd amwynder, llwybrau coedwigaeth ag arwyddion, gweithgareddau wedi'u rheoli yn y coedwigoedd.’

‘Rhaglen addysg ardderchog a chyfleusterau hamddena, mynediad i'r cyhoedd, grantiau a thrwyddedau ac ymchwil. Gwasanaeth cwsmeriaid da i'r cyhoedd.’

‘Darparu canolfannau hamddena o safon sy'n darparu ar gyfer amrywiaeth mawr o weithgareddau ac yn rhoi gwerth addysgol.’

‘Darparu cyfleusterau hamddena anfasnachol. Gwaith i wella'r amgylchedd.’

*Ffynhonnell: Cyflwyniadau cyhoeddus i wefan Swyddfa Archwilio Cymru*

## Mae nifer o brosiectau'r Comisiwn wedi cyflawni amrywiaeth ehangach o amcanion coedwigaeth yn effeithiol

### Mae'r Comisiwn wedi rhoi cyfleoedd o safon ar gyfer mynediad a hamdden

**1.14** O dan *Coetiroedd i Gymru* mae'n rhaid i'r Comisiwn rhoi cyfleoedd i'r cyhoedd gael mynediad i'r coedwigoedd at ddibenion twristiaeth, hamdden ac iechyd. Pan ofynnwyd i staff y Comisiwn nodi enghreifftiau o arfer da nodwyd y ddarpariaeth o gyfleusterau hamdden drwy gyfres o ganolfannau ymwelwyr megis Canolfan Ymwelwyr Coed y Brenin a'r rhwydwaith cysylltiedig o lwybrau beicio mynydd (Astudiaeth Achos A).

10 Mae 'malurion' yn cyfeirio at yr hyn sy'n weddill ar safle ar ôl gweithrediadau cynaeafu traddodiadol. Mae'r Comisiwn wedi nodi marchnad ar gyfer y gweddillion hyn fel math o fiodanwydd. Fodd bynnag, mae symud malurion o safleoedd cynaeafu yn risg i ansawdd pridd, gan arwain at asideiddio pridd o bosibl (http://www.forestry.gov.uk/fr/infd-623hxh).

| Astudiaeth Achos A – Canolfan Ymwelwyr Coed y Brenin a llwybrau beicio mynydd |
|---|

Mae Coed y Brenin ger Dolgellau yng Nghanolbarth Cymru wedi ennill ei blwyf fel cyrchfan i feicwyr mynydd ers amser. Roedd poblogrwydd cynyddol y safle, a oedd yn denu dros 80,000 o ymwelwyr bob blwyddyn, yn golygu na allai'r cyfleusterau cyfredol gynnig gwasanaeth priodol mwyach.

Mewn ymateb i'r galw mawr hwn, gweithredodd y Comisiwn brosiect tair blynedd i uwchraddio cyfleusterau ar y safle a datblygu siop feiciau a chaffi. Mae'r ganolfan newydd wedi'i chynllunio i gael effaith weledol fach ac i ddilyn egwyddorion adeiladu cynaliadwy. Er enghraifft, mae'r ganolfan yn defnyddio system hidlo mawn i drin carthion sy'n ei gwneud yn bosibl i ollwng dŵr gwastraff o'r safle yn uniongyrchol i Afon Eden gerllaw, sef Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Hefyd mae gan y ganolfan system wresogi tanwydd coed biomas sy'n diwallu ei holl anghenion gwresogi a dŵr poeth.

Mae'r safle yn cynnig nifer o gyfleoedd hamdden, ar nifer o lefelau:

- cyfres o lwybrau cerdded ar gyfer pob gallu; er enghraifft, mae gan un o'r llwybrau allweddol raddiant o 10 y cant ar y mwyaf gyda lleoedd gorffwys bob 150 metr i alluogi pobl sy'n gallu cerdded, ond sydd angen cael seibiant bob hyn a hyn, i fwynhau'r llwybr;
- mae'r ardal chwarae i blant wedi'i gosod ar dair haen wahanol i roi cyfleusterau am amrediad oedran eang;
- dau lwybr rhedeg, ag arwyddion o'r ganolfan ymwelwyr, o dair a phum milltir;
- tri chwrs cyfeiriannu, wedi'u cynllunio gyda phartneriaid lleol i safon genedlaethol; a
- phum llwybr beicio mynydd a llwybr seiclo i deuluoedd.

Darparodd Llywodraeth y Cynulliad arian cyfatebol i arian Amcan Un gan WEFO i roi £1.6 miliwn i ariannu'r prosiect hwn, ar yr amod bod y Comisiwn yn cynyddu nifer yr ymwelwyr i 120,000 erbyn y drydedd flwyddyn weithredol.

Yn ôl archwiliad y Comisiwn o'r defnydd o Goed y Brenin a'r arolwg annibynnol o brofiadau ymwelwyr:

- yn ystod ei blwyddyn weithredol gyntaf, rhagorwyd ar y ffigur o'r 120,000 o ymwelwyr y flwyddyn yr oedd angen ei gyrraedd erbyn blwyddyn tri;
- roedd y rhan fwyaf o ymwelwyr yn credu bod eu taith wedi bod yn dda iawn, gyda thua 53 y cant yn ei disgrifio yn 'ardderchog' a 42 y cant yn ei disgrifio yn 'dda iawn';
- byddai 91 y cant o ymwelwyr yn bendant yn argymell ymweliad â Choed y Brenin; a
- dywedodd 58 y cant fod gan y safle 'fantais fawr iawn' o'i gymharu â safleoedd hamdden awyr agored eraill.

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, yn seiliedig ar y Comisiwn*

**1.15** Mae'r Comisiwn hefyd wedi bod yn llwyddiannus o ran helpu i ddatblygu chwaraeon moduro yng Nghymru, sydd wedi arwain at fanteision economaidd ehangach. Yn 2007 hawliodd y Comisiwn £150,000 oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad i gefnogi Menter Chwaraeon Moduro (2002) Llywodraeth y Cynulliad. O dan y cytundeb hwn, roedd y Comisiwn yn gyfrifol am adeiladu 3.5 km o ffordd newydd yn y coedwigoedd i gymhwyso am ddigwyddiad Baja byd-eang llawn[11]. Mae'r Comisiwn yn nodi bod y darn ychwanegol hwn o ffordd hefyd wedi gwella mynediad i'r coedwigoedd i'r rhai sy'n defnyddio'r ardal at ddibenion hamdden eraill. Hefyd, cafodd y Comisiwn £47,000 o dan y fenter i adeiladu ffordd newydd yng Nghoedwig Penllergaer – ar gyfer Cam 'Shake Down' o Rali Cymru Prydain Fawr a thua £17,000 i wella cyffordd yn Nhrawscoed.

**1.16** Y Comisiwn sy'n cydlynu Rali Cymru Prydain Fawr y cynhelir 90 y cant ohono ar ystad y Comisiwn. Yn 2008, bydd y Comisiwn yn cynnal 28 o ddigwyddiadau chwaraeon moduro, gan gynnwys tri digwyddiad pencampwriaeth y byd. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn amcangyfrif y bydd digwyddiad chwaraeon modur rhanbarthol bach yn dod â thua £60,000 i ardal, tra bydd

11 Gelwir y digwyddiadau hyn ar ôl anialwch Baja yng Nghaliffornia lle cynhaliwyd y digwyddiadau dygnwch 4x4 cyntaf.



Pencampwriaeth ranbarthol neu'r Du Pencampwriaeth Cymdeithas Chwaraeon Moduro'r DU yn ychwanegu tua £0.25 miliwn i'r economi leol. Amcangyfrifodd gwerthusiad diweddar o effeithiau economaidd Rali Cymru Prydain Fawr 2006 fod y digwyddiad wedi cyfrannu £3.9 miliwn i'r economi leol gyda phob punt o arian cyhoeddus a wariwyd yn arwain at £1.70 o arian hollol newydd i Gymru drwy'r rali. Yn ogystal â rhoi mwy o gyfleoedd i grwpiau mwy amrywiol i ddefnyddio'r ystad coedwigoedd, mae datblygiadau o'r fath yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar economïau lleol.

## Mae'r Comisiwn wedi dangos sut y gall coedwigaeth chwarae rhan mewn datblygu cymunedol

**1.17** Mae'r Comisiwn, yn gyson ag agenda bolisi ehangach Llywodraeth y Cynulliad a'i hymrwymiad i ymwneud â'r cyhoedd, wedi ceisio cynnwys cymunedau yn y broses o benderfynu beth yw eu hanghenion eu hunain o'r goedwig a bod yn gyfrifol am roi atebion ar waith.

**1.18** Er enghraifft, mae pob coedwig gyhoeddus yng Nghymru wedi'i chwmpasu gan Gynlluniau Dylunio Coedwig[12] a gymeradwyir am gyfnod o 10 mlynedd, ond sydd fel arfer yn cael eu hadolygu ar ôl pum mlynedd. Mae angen ymgynghori ynglŷn â phob cynllun drafft, gydag ymgynhoreion statudol ond hefyd yn aml â'r gymuned ger y goedwig, grwpiau lleol â diddordeb ac unigolion â diddordeb. Nod rhaglen Cydcoed (Astudiaeth Achos B) yw defnyddio coetiroedd fel dull o ddatblygu cymunedol mewn ardaloedd Amcan Un ac mae'n rhoi arian i gymunedau difreintiedig i nodi sut y byddent yn elwa fwyaf o fannau gwyrdd ychwanegol, a chymryd y camau a nodwyd ganddynt i ddiwallu'r anghenion hyn.

### Astudiaeth Achos B – Rhaglen datblygu cymunedol Cydcoed

Mae rhaglen Cydcoed yn targedu'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru a'r rhai lle nad oes fawr ddim mynediad i fannau gwyrdd cymunedol os o gwbl. Yn y cymunedau hyn mae'r rhaglen yn anelu at:

- wneud y mannau coetir sy'n bodoli eisoes yn fwy hygyrch;
- datblygu mannau coetir ychwanegol; a
- meithrin ymwneud y gymuned yn y gwaith o ddatblygu coetiroedd yn gynaliadwy.

Cam 1 o raglen Cydcoed oedd rhaglen grant dair blynedd gwerth £4 miliwn (2001 i 2004) a oedd yn cael ei rhedeg gan y Comisiwn gydag arian o raglen Amcan Un yr Undeb Ewropeaidd ac o raglen grant Ffordd i Ffyniant Llywodraeth y Cynulliad.

Rhoddodd y rhaglen gymorth a grantiau am hyd at 100 y cant o gostau i grwpiau cymunedol yn rhanbarth Amcan Un Ewropeaidd Cymru i'w helpu i ddefnyddio coetiroedd ar gyfer datblygu cymunedol. Lansiwyd Cam 2 o Cydcoed, gyda £12 miliwn o arian gan yr Undeb Ewropeaidd o dan Amcan Un a Llywodraeth y Cynulliad, ym mis Ionawr 2003 gan barhau tan fis Medi 2008. Mae gan Gam 2 123 o brosiectau sy'n cwmpasu'r un ardal ddaearyddol â Cham 1. Methodd y Comisiwn â chyflawni ei ddangosydd perfformiad allweddol o ran nifer y prosiectau a gwblhawyd drwy Cydcoed yn 2007-2008 (Ffigur 3).

Mae'r hyn a gyflawnwyd ar Gam 1 yn cynnwys:

- 5,121 ha o goetir newydd sy'n cael cyfranogiad cymunedol;
- 33 ha o goetir cymunedol newydd ar dir nad yw'n dir amaethyddol;
- 4,702 ha o goetir wedi dod o dan reolaeth gynaliadwy;
- 49 o swyddi wedi'u diogelu; a
- 24 o swyddi wedi'u creu a phedwar busnes wedi'u cynorthwyo.

Bwriedir cyhoeddi gwerthusiad o Raglen Cydcoed gan grŵp Ymchwil i Goedwigoedd Comisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr, a fydd yn asesu effeithiau a chanlyniadau'r rhaglen, yn 2008.

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, yn seiliedig ar y Comisiwn*

12 Mae Cynlluniau Dylunio Coedwig yn esbonio sut y bwriedir rheoli ardaloedd coedwig unigol ac yn nodi'r rhesymeg dros yr arferion rheoli arfaethedig. Maent yn cynnwys opsiynau o ran cynaeafu ac ailstocio yn ystod oes y cynllun, a hefyd yn trafod materion megis rheoli safleoedd dynodedig (ee, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig).

## Astudiaeth Achos C – Mae'r Comisiwn wedi creu cyfleoedd addysgol o fewn y goedwig

**Menter Addysg y Coed**

Mae Menter Addysg y Coed yn bartneriaeth rhwng y Comisiwn Coedwigaeth a naw sefydliad arall (gan gynnwys yr elusen amgylcheddol Groundwork, a Confor sy'n cynrychioli cynhyrchwyr a phroseswyr coed). Nod Menter Addysg y Coed yw dangos potensial economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol coedwigaeth a'r cysylltiadau rhwng coed a chynhyrchion pob dydd. Mae Menter Addysg y Coed yn gweithio'n bennaf gyda phlant a phobl ifanc, ond hefyd gydag athrawon ac arweinwyr ieuenctid ac eraill sy'n ymwneud ag addysg amgylcheddol.

**'Ysgol y Goedwig'**

Mae Ysgol y Goedwig yn ffordd o ddefnyddio coetiroedd ar gyfer dysgu a datblygu. O dan arweiniad arweinydd hyfforddedig Ysgol y Goedwig mae plant ysgolion cynradd ac uwchradd yn ymweld â'r un coetir yn wythnosol gan gymryd rhan mewn amrywiaeth mawr o weithgareddau gan gynnwys codi llochesi, gemau amlsynnwyr, coginio uwchben tân, defnyddio offer syml a chwarae mig.

Mae cymorth y Comisiwn i Ysgolion Coedwig yng Nghymru yn cynnwys cynnig cyngor, rhedeg rhaglenni Ysgolion Coedwig fel enghreifftiau o arfer da, cydlynu hyfforddiant, codi ymwybyddiaeth drwy gyfarfodydd, cynadleddau ac adroddiadau yn y cyfryngau a pharatoi adnoddau megis Pecyn yr Arweinydd a'r DVD cysylltiedig.

Erbyn diwedd 2007, roedd 250 o bobl wedi cwblhau cwrs Arweinydd Ysgol y Goedwig ac roedd dros 100 o raglenni Ysgol y Goedwig ar waith. Mae dysgwyr o bob oed yn cymryd rhan yn Ysgol y Goedwig gan ddefnyddio coetiroedd gwledig a threfol ledled Cymru. Yn ôl gwerthusiad diweddar, a ganolbwyntiodd ar blant 3 i 11 oed, mae dysgwyr yn cael budd mewn chwe phrif ffordd: hyder, sgiliau cymdeithasol, iaith a chyfathrebu, cymhelliant a chanolbwyntio, sgiliau corfforol a gwybodaeth a dealltwriaeth. Yn ôl yr ymchwil hon hefyd mae Ysgol y Goedwig yn cael effeithiau cadarnhaol ychwanegol ar athrawon, rhieni a'r teulu estynedig.

Nododd y Comisiwn fod rhywfaint o ddrwgdybiaeth ohono ymhlith Arweinwyr Ysgolion Coedwig Annibynnol ar y cychwyn. Nododd y Comisiwn ei fod wedi goresgyn hyn drwy 'sicrhau ei fod yn gwneud pethau' a bod yn agored i sylwadau ac ymwneud eraill drwy'r Rhwydwaith Hyfforddi Ysgolion Coedwig a'r Fforwm Coetiroedd ar gyfer Dysgu. Nododd y Comisiwn mai'r ffactor allweddol i lwyddiant yw ei barodrwydd i weithio mewn partneriaeth a dysgu oddi wrth eraill.

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, yn seiliedig ar y Comisiwn*

## Astudiaeth Achos Ch – Prosiect Adfer Ceiliogod Du

Digwyddodd y prosiect Adfer Ceiliogod Du a gynhaliwyd gan y Comisiwn, ar y cyd â'r RSPB, ar ddau gam rhwng 1997 a 2006. Dros y cyfnod hwn, darparodd Cyngor Cefn Gwlad Cymru, y Comisiwn a WEFO (drwy raglen arian Amcan Un) gyfanswm o £1 filiwn i reoli cynefinoedd Ceiliogod Du yng Nghymru yn well. Darparodd y Comisiwn £301,000 dros y cyfnod hwn a gwnaed gwaith gwerth £312,000 ar ei dir. Nod y prosiect oedd cael ffordd fwy strategol a chydlynol o reoli cynefinoedd sy'n bwysig i geiliogod du, ac mae'n newid o fewn y Comisiwn tuag at ymagwedd ar sail cynefin tuag at wrthdroi'r lleihad mewn rhywogaethau allweddol, ac oddi wrth ymagwedd ar sail rhywogaeth tuag at y mater hwn.

Er mwyn asesu llwyddiant y cynllun, gwnaeth y RSPB gyfrifo mannau paru (cyfrifo ceiliogod du gwryw yn y gwanwyn pan fyddant yn ymgasglu i baru ag aderyn benyw) ar safleoedd y Comisiwn a oedd yn rhan o'r rhaglen a thir o fewn 100m o safleoedd y Comisiwn a chymharu hyn â data ar boblogaethau cyn y rhaglen. Dengys y data hwn fod nifer y Ceiliogod Du yn lleihau tan 1998, ac awgryma fod y prosiect, a ddechreuodd yn 1997, wedi llwyddo i atal lleihad pellach. Ers hynny mae'r niferoedd ar dir y Comisiwn neu o fewn 100 metr wedi dangos cynnydd amrywiol ond araf, o dri yn 1998 i 16 yn 2007. Er bod y gost yn ymddangos yn uchel o'i chymharu â'r cynnydd yn y boblogaeth o Geiliogod Du, yn ogystal â'r cynnydd mewn Ceiliogod Du ar ei dir ei hun, mae poblogaethau o Geiliogod Du wedi cynyddu'n fwy cyffredinol. Dywedodd swyddogion y Comisiwn wrthym fod y gwaith wedi esgor ar fanteision rheoli tir ehangach ar ei ystad.

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, yn seiliedig ar y Comisiwn a RSPB Cymru*



### Mae'r Comisiwn wedi creu cyfleoedd addysgol yn y goedwig

**1.19** Mae'r Comisiwn wedi pwysleisio'r rôl y gall coedwigoedd ei chwarae er mwyn rhoi cyfleoedd addysg i blant a phobl ifanc. Ar lefel strategol, mae'r Comisiwn wedi datblygu strategaeth addysg sy'n cwmpasu'r tri maes canlynol:

- gwaith uniongyrchol gyda phlant;
- helpu eraill i ddefnyddio'r goedwig fel amgylchedd dysgu, megis gweithio gydag Arolygwyr Estyn i nodi meini prawf y gellir eu defnyddio i werthuso athrawon sy'n rhoi cyfleoedd dysgu mewn amgylchedd awyr agored; a
- chysylltu â pholisïau addysg ehangach Llywodraeth y Cynulliad.

**1.20** Er mwyn gweithredu'r strategaeth hon, mae'r Comisiwn yn darparu gwasanaethau addysg yn uniongyrchol, yn gweithio gyda rhanddeiliaid i godi ymwybyddiaeth ynglŷn â manteision defnyddio coedwig fel lleoliad dysgu ac yn gweithredu Menter Addysg y Coed a rhaglen hyfforddiant 'Ysgol y Goedwig' (Astudiaeth Achos C).

### Mae'r Comisiwn wedi gwella bioamrywiaeth o fewn yr ystad coedwigoedd

**1.21** Gwelir y prosiect Adfer Ceiliogod Du fel enghraifft o'r Comisiwn yn gweithio gydag eraill i annog amrywiaeth rhywogaethau o fewn y coedwigoedd (Astudiaeth Achos Ch). Nododd partneriaid y prosiect hwn fel enghraifft o 'newid enfawr' yn ffocws y Comisiwn tuag at gyflawni amcanion amgylcheddol.


**1.22** Mae'r Comisiwn yn gyfrifol am benderfynu cyfansoddiad neu'r rhywogaethau ar yr ystad gyhoeddus. O ganlyniad un o'r ffyrdd y gall y Comisiwn wella amrywiaeth rhywogaethau yn uniongyrchol yw drwy ehangu nifer y rhywogaethau y mae'n eu plannu ar yr ystad honno. Er mwyn gwella amrywiaeth rhywogaethau a lleihau nifer y coed conwydd ar yr ystad gyhoeddus, mae'r Comisiwn yn plannu canran fwy o goed llydanddail. Cynyddodd canran y coed llydanddail a blennir gan y Comisiwn o ychydig dros un y cant o gyfanswm y coed a blannwyd yn 2000-2001 i 16 y cant yn 2007-2008. Rhagwelir y bydd hyn yn cynyddu i 21 y cant erbyn 2010-2011 (Ffigur 4).

### Mae'r Comisiwn wedi hwyluso cynhyrchu ynni adnewyddadwy, yn bennaf drwy'r Rhaglen Ffermydd Gwynt Genedlaethol

**1.23** O dan bolisi Llywodraeth y DU mae'n rhaid i 10 y cant o'r cyflenwad trydan ddod o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2010. Yn Nodyn Cyngor Technegol 8 Gorffennaf 2005 Llywodraeth y Cynulliad (a elwir yn TAN 8) pennwyd targed o gynhyrchu pedwar terawat (TWh) o drydan o ffynonellau ynni adnewyddadwy erbyn 2010 a saith TWh erbyn 2020. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cyfrifo bod angen y gallu i gynhyrchu 800 MW ychwanegol o ddatblygiadau gwynt ar y tir er mwyn cyrraedd y targed hwn. Daeth TAN 8 i'r casgliad y dylid canolbwyntio datblygiadau gwynt ar y tir o fewn saith ardal benodedig, a elwir yn Ardaloedd Chwilio Strategol.

**1.24** Yn 2005 penderfynodd Llywodraeth y Cynulliad mai'r Comisiwn fyddai'n gyfrifol am yr ymarfer tendro cychwynnol a'r gwaith wedi hynny o weinyddu'r fferm wynt lwyddiannus o dan y Rhaglen Ffermydd Gwynt Genedlaethol. Adlewyrchodd penderfyniad Llywodraeth y Cynulliad y gyfran sylweddol o dir yr Ardaloedd Chwilio Strategol a reolir gan y Comisiwn. Ym mis Hydref 2005 ymrwymodd y Comisiynwyr Coedwigaeth (yn cynrychioli'r Comisiwn) a Llywodraeth y Cynulliad i gytundeb Adran 41 a roddodd y pŵer i'r Comisiwn weithredu fel asiant Llywodraeth y

**Ffigur 4 – Er bod y Comisiwn wedi lleihau cyfanswm y coed y mae'n eu plannu, dengys ffigurau gwirioneddol a rhagamcanol gynnydd yng nghanran y coed llydanddail a blannwyd rhwng 1999 a 2011**




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata Comisiwn Coedwigaeth Cymru*

Cynulliad a rhai pwerau cyfyngedig i gaffael a gwaredu tir ar ran Llywodraeth y Cynulliad. Yn benodol, cafodd y Comisiwn y pŵer i waredu rhannau o'r ystad coedwigoedd at ddibenion nad ydynt yn ymwneud â choedwigaeth megis cynhyrchu ynni adnewyddadwy neu adeiladu cartrefi.

**1.25** Cadarnhaodd ein dadansoddiad o'r broses gaffael a weinyddwyd gan y Comisiwn ei bod wedi bod yn gadarn, ac wedi defnyddio arbenigedd cyfreithiol a thechnegol perthnasol. Ategir ein hasesiad gan y ffaith i'r Comisiwn amddiffyn y broses dendro yn llwyddiannus yn 2006 yn erbyn honiad y dylai fod yn destun adolygiad barnwrol ar ôl honiad bod ei weithdrefnau wedi bod yn ddiffygiol, yn afresymol ac yn annheg. Methwyd â chadw at amserlen wreiddiol y broses gaffael am fod yr adolygiad barnwrol wedi arwain at oedi o ddeufis cyn y Gwahoddiad i Dendro ar ôl y cam cyn-gymhwyso.

**1.26** Mae'r Comisiwn wedi sicrhau datblygiadau ffermydd gwynt ar bump o'r saith Ardal Chwilio Strategol a llofnodwyd cytundebau opsiwn ym mis Mawrth 2008. Ym mhob un o'r pum achos, mae wedi sicrhau bod y tâl am rentu tir yn gysylltiedig â phris trydan yng Nghymru. Ar y sail hon amcangyfrifir y dylai'r Rhaglen Ffermydd Gwynt Genedlaethol, erbyn diwedd y cyfnod adeiladu, gynhyrchu tua £11 miliwn mewn breindaliadau i Lywodraeth y Cynulliad. Amcangyfrifir hefyd y bydd y datblygiadau hyn wrth iddynt ddod yn weithredol yn gallu cynhyrchu 639 MW. Noda'r Comisiwn y bydd y safleoedd hyn yn dechrau cynhyrchu ynni rhwng 2012 a 2016 gan adlewyrchu'r amser y bydd y datblygwyr yn ei gymryd i gael caniatâd cynllunio ar gyfer pob datblygiad ac wedyn eu hadeiladu.



**Astudiaeth Achos D – Mae'r Comisiwn wedi trefnu contract yn ddiweddar i gyflenwi tanwydd coed i waith sector preifat**

Mae'r Comisiwn wedi trefnu contract i gyflenwi tanwydd coed i waith biomas newydd Western Bioenergy ym Margam.

Mae'r Comisiwn yn disgwyl cyflenwi 66,000 tunnell o danwydd coed y flwyddyn i waith Western Bioenergy. Mae'r Comisiwn yn amcangyfrif y bydd hyn yn cynhyrchu incwm o £1.45 miliwn y flwyddyn. Fodd bynnag, mae gwerth y coed a gyflenwir yn seiliedig ar nifer o ffactorau, gan gynnwys:

- pris trydan wrth ei werthu;
- lleithder y coed; a'r
- cyfaint a gyflenwir.

Mae'r Comisiwn yn disgwyl cyflenwi'r cyfaint llawn a nodir yn y contract er bod telerau'r contract yn caniatáu iddo gyflenwi llai o danwydd coed.

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, yn seiliedig ar y Comisiwn*

**1.27** Mae'r breindaliadau a gaiff eu cynhyrchu a'r gallu gweithredol yn llai nag a ragwelwyd yn wreiddiol gan Lywodraeth y Cynulliad. Mae gallu'r gosodiadau yn llai na'r targed o 800 MW yn TAN 8 am fod y cynigydd buddugol ar gyfer tair o'r saith Ardal Chwilio Strategol wedi tynnu ei gynnig yn ôl ym mis Ionawr 2008 o ganlyniad i anghydfod â'r Comisiwn ynglŷn â thelerau'r contractau. O ganlyniad, penderfynodd y Comisiwn ddyfarnu'r opsiynau hyn i'r cynigydd uchaf ond un ym mhob achos. Mae'r incwm sydd i'w dderbyn a'r gallu cynhyrchu gan yr ail gynigydd dipyn yn llai na'r hyn a fyddai wedi'i gyflawni pe na bai'r cynigydd a ffafriwyd gan y Comisiwn ar gyfer y tair Ardal Chwilio Strategol hyn wedi tynnu'n ôl. Gwnaeth hyn leihau'r incwm a ragwelwyd yn sylweddol o £32 miliwn i £11 miliwn, er i gynllun busnes y Comisiwn ar gyfer y Rhaglen Ffermydd Gwynt Genedlaethol nodi mai cynhyrchu ynni adnewyddadwy, yn hytrach nag incwm, oedd prif ddiben y rhaglen.

**1.28** Gall coed a ddefnyddir fel tanwydd, yn lle glo neu olew, gyfrannu i dargedau cenedlaethol i gynyddu'r defnydd o ynni adnewyddadwy a thargedau byd-eang i leihau allyriadau carbon. Mewn ymateb i botensial coed fel ffynhonnell ynni adnewyddadwy a helpu Llywodraeth y Cynulliad i gyflawni ei hymrwymiadau o ran ynni adnewyddadwy, mae'r Comisiwn wedi rhoi'r mentrau canlynol ar waith:

- mae'r Comisiwn wedi trefnu contract yn ddiweddar i gyflenwi tanwydd coed i waith biomas newydd Western Bioenergy ym Margam (Astudiaeth Achos D).
- Ar raddfa lai, mae'r Comisiwn yn darparu 'malurion' i gyflenwi gwaith Gwres a Phŵer Cyfun yng Ngogledd-ddwyrain Cymru (Astudiaeth Achos Dd).
- Prosiect pedair blynedd oedd y Cynllun Busnes Ynni Coed a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2008. Gan dargedu ardaloedd Amcan Un ac Amcan Dau, gydag arian o'r Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth y Cynulliad, rhoddodd y cynllun grantiau i'r rhai a oedd yn rhedeg adeiladau cyhoeddus bach neu ganolig eu maint i osod systemau gwres a phŵer sy'n defnyddio tanwydd coed. Rhoddodd grantiau hefyd i brynu peiriannau a oedd eu hangen i droi pren meddal yn sglodion a phelenni coed. Gweithredodd y Comisiwn y Cynllun Busnes Ynni Coed ar ran Llywodraeth y Cynulliad a rhagorodd ar ei darged o gwblhau 65 o brosiectau o dan y cynllun yn 2007-2008.

## Astudiaeth Achos Dd – Mae'r Comisiwn wedi darparu malurion i gyflenwi gwaith gwres a phŵer cyfun yn Shotton

Noda'r Comisiwn na fu defnydd cyffredinol o gyfarpar byrnu malurion yn y DU cyn ei waith treialu gyda chwmni sy'n gweithredu melin bapur yn Shotton.

Lluniodd y Comisiwn gontract i ddarparu tua 4,000 tunnell o falurion am bris treial o £1 y dunnell o'r bonyn (ystyr hyn yw bod y cwsmer yn talu'r holl gostau cynaeafu a chludo) a ddaeth i ben ym mis Ebrill 2008. Mae'r Comisiwn wedi llunio cytundeb pellach am 645 tunnell am £3.50 y dunnell. Mae'r maint llai yn adlewyrchu natur dros dro ail gontract y Comisiwn gyda'r bwriad o ddatblygu contract ar raddfa fwy. Noda'r Comisiwn ei fod yn gallu cael pris uwch am nad yw byrnu malurion yn gymaint o risg dechnegol mwyach ac am fod y meincnodau sydd ar gael (megis pris ynni) yn cefnogi pris uwch.

Mae'r Comisiwn hefyd yn bwriadu cynnal gwerthiant o safleoedd byrnu malurion drwy dendr gan fod y treial wedi nodi nifer o broblemau amgylcheddol sylweddol a ddaeth i'r amlwg o ddefnyddio byrnau o falurion, er enghraifft, y lefel o garbon deuocsid a ryddhawyd drwy'r broses o gynaeafu'r malurion. Mae hon a phroblemau eraill sydd wedi dod i'r amlwg yn golygu y bydd angen i'r Comisiwn ystyried a yw'r broses yn gydnaws ag amcanion eraill, megis gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd.

Drwy warantu cyflenwad i egin-ddiwydiant, mae'r Comisiwn yn ceisio datblygu hyder yn y diwydiant a'r cynhyrchion sy'n cefnogi'r diwydiant hwn. Dylai hyn yn ei dro ddangos i gynhyrchwyr coed fod marchnad am gynhyrchion megis malurion, tra'n dangos i'r rhai sy'n ystyried buddsoddi mewn bio-ynni bod gan y diwydiant coed yr adnoddau i ddiwallu eu hanghenion.

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, yn seiliedig ar y Comisiwn*

## Mae'r Comisiwn yn gweithio i ehangu'r farchnad am gynhyrchion coed

**1.29** Ym mis Chwefror 2007 nododd y Comisiwn fod angen rhoi gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod ei goetir llydanddail ei hun yn cael ei reoli mewn ffordd gynaliadwy sy'n:

- cydymffurfio â Safon Sicrwydd Coetiroedd y DU (UKWAS) a meini prawf y Forestry Stewardship Council ac sy'n gwella bioamrywiaeth;
- marchnata lleiniau o goetir llydanddail addas i ddefnyddwyr terfynol ar raddfa fach ledled Cymru; a
- chodi proffil y Comisiwn fel corff arbenigol yn y gwaith o reoli coetir llydanddail.

**1.30** Mae UKWAS, a lansiwyd ym mis Mai 1999, yn safon ardystio annibynnol ar gyfer dilysu gwaith rheoli coedwigoedd a choetiroedd yn gynaliadwy yn y Deyrnas Unedig. Bwriad ardystiad y Forest Stewardship Council yw sicrhau y rheolir coedwigoedd mewn ffordd sy'n gwarantu'r cyflenwad o goed yn yr hirdymor ac yn diogelu cyfanrwydd amgylcheddol y coedwigoedd ac yn cefnogi bywoliaethau'r rhai sy'n gweithio yn y sector. Bu'r Comisiwn yn rhan o UKWAS ers ei chyflwyno ym 1999 ac nid yw wedi cael barn anffafriol yn gyffredinol yn ystod yr archwiliadau hyn.

**1.31** Er mwyn diwallu'r angen hwn, mae'r Comisiwn wedi penodi rheolwr marchnata coetir llydanddail rhan-amser i gefnogi a chynghori staff maes y Comisiwn, sefydlu rhwydwaith o gwsmeriaid pren caled bach ledled Cymru a'r gororau, ac i ddatblygu cynllun gwerthu a marchnata ar gyfer ystad pren caled y Comisiwn. Mae mentrau perthnasol eraill yn cynnwys gwaith prosiect y Comisiwn gyda Coed Cymru ac arian ar ei gyfer, sef elusen sy'n ceisio datblygu marchnadoedd newydd ar gyfer prosiectau pren caled.

**1.32** Mae'r Comisiwn hefyd wedi darparu £300,000 i Bartneriaeth Busnes Coedwigoedd Cymru. Mae hon yn bartneriaeth o dan arweiniad busnes, lle mae Cyfarwyddwr y Comisiwn yn chwarae rôl ex officio, ac mae iddi ddau brif faes gweithgarwch. Yn gyntaf, mae'r



bartneriaeth yn anelu at ddatblygu strategaethau marchnata ar gyfer cynhyrchion coed Cymru. Bwriedir i'r ail faes, sy'n gweithredu fel Gwybodaeth Coed Cymru, symbylu ymchwil a datblygu yn y diwydiant coed. Nododd Coed Cymru iddo ddefnyddio arian a ddarparwyd drwy Gwybodaeth Coed Cymru i ledaenu gwybodaeth dechnegol i randdeiliaid allweddol ynglŷn â datblygu cynnyrch yn y diwydiant coed, er enghraifft drwy weithdai a seminarau.

## Mae'r Comisiwn wedi bachu ar y cyfleoedd a roddwyd drwy'r trefniadau llywodraethu sy'n ei wneud yn rhan o Gomisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr a hefyd yn is-adran ‘rithwir’ o Lywodraeth y Cynulliad

### Mae cyfyngiadau deddfwriaethol cyfredol yn golygu bod y Comisiwn yn gweithredu o fewn trefniadau llywodraethu cymhleth


1.33 Mae polisi coedwigaeth wedi'i ddatganoli, ac mae'n rhan o gylch gwaith Llywodraeth y Cynulliad. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn wedi parhau'n rhan o Gomisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr (gweler troednodyn 1), ond hefyd fe'i disgrifir yn aml fel is-adran 'rithwir' o Lywodraeth y Cynulliad. Mae'r Comisiwn yn gweithredu fel adran goedwigaeth Llywodraeth y Cynulliad yn y bôn. Fodd bynnag, ceir hefyd gyfres o 'materion a gadwyd yn ôl', y mae Comisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr yn ymdrin â hwy ac y mae eu costau yn cael eu hariannu'n gyfan gwbl gan Lywodraeth y DU:

- materion coedwigaeth rhyngwladol;
- safonau coedwigaeth;
- ymchwil i goedwigoedd;
- iechyd planhigion a deunyddiau atgynhyrchiol coedwigoedd;
- ystadegau; a
- materion masnach.

1.34 Rhoddwyd trefniadau llywodraethu ar waith i gefnogi trefniadau gweithredol sy'n edrych i mewn i Lywodraeth y Cynulliad a thuag allan i Gomisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr (Ffigur 5). Mae Cyfarwyddwr y Comisiwn yn rhoi adroddiadau i bennaeth Adran Materion Gwledig a Threftadaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gynnydd yn erbyn amcanion strategol (fel y'u nodwyd yn Coetiroedd i Gymru) a pherfformiad yn erbyn cyllideb. Mae Cyfarwyddwr y Comisiwn yn aelod o uwch dîm rheoli'r Adran ac mae'n cael ei gynrychioli ar Gyfarfodydd Bwrdd Polisi Gweinidogol misol.

1.35 Fodd bynnag, mae Cyfarwyddwr y Comisiwn hefyd yn atebol i Gyfarwyddwr Cyffredinol y Comisiwn Coedwigaeth ar lefel Prydain Fawr, gyda Chyfarwyddwr Cyffredinol y Comisiwn Coedwigaeth yn rheolwr llinell uniongyrchol ar Gyfarwyddwr y Comisiwn yng Nghymru. Er mwyn llunio barn ynglŷn â pherfformiad Cyfarwyddwr y Comisiwn yng Nghymru, bydd Cyfarwyddwr Cyffredinol Comisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr yn cael cyngor gan bennaeth adran Materion Gwledig a Threftadaeth Llywodraeth y Cynulliad. Mae amcanion personol Cyfarwyddwr y Comisiwn yng Nghymru yn gyfuniad o dargedau coedwigaeth Llywodraeth y Cynulliad a nodwyd yn *Coetiroedd i Gymru* a nifer o dargedau corfforaeth Comisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr megis amrywiaeth a chyfathrebu.

**Ffigur 5 – Rhoddwyd trefniadau llywodraethu ar waith i gefnogi trefniadau gweithredol sy'n edrych i mewn i Lywodraeth y Cynulliad a thuag allan i Gomisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr**




**1.36** Gan fod coedwigaeth yn fater wedi'i ddatganoli, mae gan ddau o'r 11 o Gomisiynwyr Coedwigaeth presennol gyfrifoldeb uniongyrchol am faterion coedwigaeth yng Nghymru, ac maent yn uniongyrchol atebol i Weinidogion Cymru ynglŷn â'u gweithgareddau yng Nghymru. Yn ogystal â'r Comisiynwyr, mae aelodau o'r Pwyllgor Cenedlaethol yn cynnwys pennaeth Adran Materion Gwledig a Threftadaeth Llywodraeth y Cynulliad, Cyfarwyddwr y Comisiwn a chadeirydd y Panel Cynghori Strategaeth Goedwigaeth (WSAP), sy'n cynnwys cynrychiolwyr o nifer fawr o grwpiau â diddordeb, gan gynnwys y diwydiant coed a grwpiau amgylcheddol.

## Mae'r Comisiwn wedi datblygu perthynas waith effeithiol â Llywodraeth y Cynulliad

**1.37** Er gwaethaf cymhlethdodau posibl y trefniadau llywodraethu, teimlai'r rhan fwyaf o staff a rhanddeiliaid allanol y siaradwyd â hwy fod priod rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd yn eglur ac na chafwyd problemau ar y cyfan. Er mwyn cysoni cydberthnasau, sefydlwyd Concordat Coedwigaeth Cymru gan Lywodraeth y Cynulliad a'r Comisiwn yn 2003, a ddisodlwyd gan Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth 2006. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn amlinellu cyfrifoldebau rhanddeiliaid allweddol megis y Comisiynwyr Coedwigaeth, y Pwyllgor Cenedlaethol a'r Comisiwn. Nododd Comisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr fod y broses o negodi'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn hanfodol



**Ffigur 6 – Enghreifftiau o fanteision a ddaw i'r Comisiwn o ymwneud â grwpiau i'r DU gyfan**

| Grŵp lefel Prydain Fawr | Enghreifftiau o fanteision i'r Comisiwn |
|---|---|
| Rheolwyr grantiau a thrwyddedu | Mae grŵp rheolwyr Grantiau a Thrwyddedu wedi cael ei ddefnyddio fel fforwm ar gyfer trafod caffael data lloeren ar y cyd, gyda'r tair gwlad yn cyd-ariannu cost ymchwil i'r feddalwedd sydd ar gael.<br>Mae staff sy'n gweithio yn uned Grantiau a Thrwyddedu'r Comisiwn wedi defnyddio cronfa ddata, a ddatblygwyd gan y Comisiwn Coedwigaeth yn Lloegr yn bennaf, i reoli gorfodi rheoliadau cymynu. Noda'r Comisiwn fod y gronfa ddata hon wedi helpu i reoli achosion o gymynu anghyfreithlon yn gynt ac yn fwy effeithiol drwy leihau'r risg o 'golli' achosion o fewn y system. |
| Grŵp y Swyddogion Rheoli Coedwigoedd | Mae grŵp y Swyddogion Rheoli Coedwigoedd wedi trafod problemau diweddar o ran goroesiad planhigion i nodi atebion posibl ac arfer da. Mae'r Comisiwn wedi defnyddio Ymchwil i Goedwigoedd, a ariennir yn uniongyrchol gan Lywodraeth y DU, gyda'r tair gwlad yn penderfynu ar y cyd ar ei blaenoriaethau ymchwil, i nodi arfer gorau o ran cael y cyfraddau goroesi planhigion gorau.<br>Mae grŵp y Swyddogion Rheoli Coedwigoedd hefyd yn ddiweddar wedi ceisio nodi effeithiau tebygol newid yn yr hinsawdd ar amrywiaeth o rywogaethau pyrwydd ledled y DU. |
| Grŵp Gwasanaethau Gweithredol | Gwnaeth y Grŵp Gwasanaethau Gweithredol hwn waith ar weithredu Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (2000), a oedd yn berthnasol i bob un o'r tair gwlad.<br>Nododd staff y Comisiwn feysydd lle maent wedi defnyddio adnoddau ychwanegol ac arbenigedd ar lefel Prydain Fawr. Er enghraifft, datblygwyd canllawiau a hyfforddiant ar y Gyfarwyddeb Ewropeaidd ynglŷn â Rhywogaethau a Warchodir ar y cyd â'r Comisiwn Coedwigaeth yn Lloegr. |

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru*

i bawb ddeall priod rolau a chyfrifoldebau. Ym marn Comisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr mae datblygu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn enghraifft o arfer da, y gellid ei fabwysiadu mewn mannau eraill i sicrhau manteision tebyg.

**1.38** Ymhlith yr enghreifftiau o'r Comisiwn a Llywodraeth y Cynulliad yn defnyddio'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth i gyflawni amcanion cyffredin ar y cyd mae:

- datblygu polisi coedwigaeth yng Nghymru a arweiniodd at y strategaeth *Coetiroedd i Gymru*; ac
- o dan gytundeb Adran 41 gyda Llywodraeth y Cynulliad, gwaith rheoli'r Comisiwn o ran y Rhaglen Ffermydd Gwynt Genedlaethol (paragraffau 1.23-1.27).

## Mae'r Comisiwn yn gwneud defnydd da o'r cyfleoedd a roddir drwy ei gysylltiadau â Chomisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr

**1.39** Er gwaethaf cymhlethdodau posibl yn y trefniadau gweithredol a llywodraethu presennol, mae'r Comisiwn wedi gwneud defnydd da o'r cysylltiadau trawsffiniol sy'n codi ohonynt. Mae ymwneud y Comisiwn mewn gweithgorau i'r DU gyfan wedi ei alluogi i nodi cyfleoedd yn y dyfodol a dysgu o arfer da (Ffigur 6).

**1.40** Mae Comisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr yn darparu cyfres o wasanaethau a rennir – Adnoddau Dynol, Cyllid, Gwasanaethau

Technoleg Gwybodaeth a Busnes - i bob un o'r tair gwlad. Ceir cyfeiriad ar y cyd drwy gyfres o Fyrddau Gwasanaeth ac ariennir pob gwasanaeth drwy gytundebau lefel gwasanaeth unigol. Noda'r Comisiwn fod y gwasanaethau a rennir a ddarperir gan Gomisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr yn addas ar gyfer y Comisiwn yng Nghymru ac yn adlewyrchu ei fuddiannau. Cynrychiolir y Comisiwn ar bob Bwrdd Gwasanaeth ac mae Cyfarwyddwr y Comisiwn yn aelod o'r Bwrdd Gweithredol. Er nad yw'r Comisiwn wedi cynnal unrhyw ymarferion meincnodi ffurfiol i ymchwilio i effeithlonrwydd posibl defnyddio darparwr amgen, mae wedi cynnal ymchwiliadau mwy anffurfiol i fanteision posibl cydweithio â Llywodraeth y Cynulliad i ddarparu gwasanaethau Adnoddau Dynol ond cred fod y model darparu cyfredol yn rhoi gwell lefel o wasanaeth.

**1.41** Cafwyd problemau sylweddol wrth baratoi cyfrifon y Comisiwn i'w harchwilio eleni am fod un aelod o staff yng Nghomisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr wedi gadael y sefydliad. Mae hyn yn amlygu'r risgiau sy'n codi o ddibyniaeth fawr y Comisiwn ar nifer fach o staff allweddol ar gyfer swyddogaethau megis cyfrifon blynyddol, a'r angen i atgyfnerthu prosesau cynllunio olyniaeth a chynllunio wrth gefn.



# Rhan 2 – Mae angen i'r Comisiwn ymateb i nifer o heriau sylweddol

**2.1** Er mwyn adeiladu ar ei gynnydd cadarnhaol o ran ymateb i'r agenda ehangu coedwigaeth, mae angen i'r Comisiwn ymateb i nifer o heriau sy'n canolbwyntio ar yr angen i ddatblygu ymagwedd gorfforaethol gliriach tuag at redeg ei fusnes. Mae angen i'r Comisiwn:

- cysylltu strategaeth gorfforaethol, blaenoriaethau a dyrannu adnoddau;
- atgyfnerthu ei brosesau busnes craidd a'u hintegreiddio ag amcanion strategol i'w helpu i reoli'n effeithiol y cyfaddawdu sy'n rhan annatod o'r agenda ehangu coedwigaeth;
- rheoli ei adnoddau'n effeithiol; a
- rheoli newid yn effeithiol er mwyn i randdeiliaid mewnol ac allanol gael gwell dealltwriaeth o gyfeiriad strategol a chyfraniad y Comisiwn i'r gyflawniad o bolisi'r goedwigaeth yng Nghymru.

## Mae angen i'r strategaeth gorfforaethol gysylltu blaenoriaethau ac adnoddau

**2.2** Nid yw Cynllun Corfforaethol y Comisiwn ar gyfer 2005-2006 a 2007-2008 yn blaenoriaethu gweithgareddau a gofynion adnoddau cysylltiedig yn glir. Tynnodd staff

**Ffigur 7 - Tynnodd staff y Comisiwn sylw at y ffaith bod angen i'r Comisiwn egluro ei flaenoriaethau**

Pan ofynnwyd i gyfranogwyr nodi meysydd i'w gwella gwnaed y sylwadau canlynol:

- Mae'r ffordd y mae'r amcanion wedi'u rhestru yn awgrymu eu bod yr un mor bwysig â'i gilydd, ond mewn gwirionedd ystyrir bod rhai yn fwy pwysig nag eraill.
- Mae'r amcanion yn amrywio o ran eu pwysigrwydd - ystyrir rhai yn bwysig iawn, eraill yn ddymunol o bosibl gyda chyfraniad cyfyngedig a chaiff rhai eraill eu hystyried yn sgil-effeithiau defnyddiol swyddogaethau eraill. Er mwyn cyflawni yn erbyn y strategaeth gyffredinol mae angen sefydlu grŵp llywio gyda'r dasg benodol o oruchwylio'r broses weithredu a chynnydd a rhoi trefn ar bethau.
- Sefwch i fyny a dweud na o bryd i'w gilydd. Blaenoriaethu prosiectau.
- Mae angen i ni ddechrau deialog â Llywodraeth y Cynulliad wrth bennu ein hamcanion â blaenoriaeth, creu'r polisi ar gyfer cyflawni'r rhain ac yna parhau i ganolbwyntio ar gyflawni'r rhain. Mae angen i ni osgoi mynd at i gyflawni'r hyn y mae Llywodraeth y Cynulliad, rhanddeiliaid, y cyhoedd ac ati am ei gael yn ein barn ni a pheidio â cheisio cyflawni popeth ac wedyn methu â chyflawni fawr ddim!
- Mae angen i ni fod yn gliriach ynglŷn â'n blaenoriaethau wrth reoli ardal o goetir. Byddai'n fwy buddiol i'r goedwig pe baem yn canolbwyntio ar weithgareddau penodol mewn lleoliadau penodol.
- Mae angen i ni allu blaenoriaethu ein hamcanion, er mwyn i'r staff wybod beth sy'n dod gyntaf, yn hytrach na gwneud popeth yn yr un modd.
- Mae angen i ni weithio'n galetach ar flaenoriaethu ein hamcanion, gan ein bod yn darparu amrywiaeth mawr o nwyddau a gwasanaethau sydd yn aml yn cystadlu am adnoddau'n fewnol.
- Blaenoriaethau, parodrwydd i ddweud na.
- Mae angen i'r sefydliad fod yn gadarnach wrth wneud penderfyniadau a pheidio â meddwl y gallwn fodloni pawb drwy'r amser.
- Gwell dealltwriaeth o flaenoriaethau.

*Ffynhonnell: Grwpiau ffocws Swyddfa Archwilio Cymru â staff Comisiwn Coedwigaeth Cymru*

sylw at y ffaith bod angen i'r Comisiwn egluro ei flaenoriaethau'n fwy effeithiol (Ffigur 7 ac Atodiad 4).

**2.3** Oherwydd y diffyg blaenoriaethau clir a fynegir drwy fecanweithiau megis y cynllun corfforaethol golyga hynny nad yw'r gwahanol rannau o'r sefydliad bob amser yn ymddangos fel petaent yn cyd-fynd â chyfeiriad strategol y Comisiwn. Er enghraifft, nododd staff densiynau rhwng y Rhanbarthau Coedwigoedd ac Uned Grantiau a Thrwyddedu'r Comisiwn ynglŷn â chymeradwyo Cynlluniau Dylunio Coedwig[13]. Roedd y tensiwn hwn yn ymwneud â faint o goedwig y dylid ei hailstocio â choed at ddefnydd masnachol, a faint y dylid ei ddatgoedwigo neu ei hailstocio â rhywogaethau sy'n llai atyniadol yn fasnachol. Er bod Safon Coedwigoedd y DU yn rhoi canllawiau manwl ar rai o'r materion hyn, gan nodi y dylai 10 i 20 y cant o'r goedwig aros yn fan agored, nid oes gan y Comisiwn unrhyw ganllawiau mewnol ar sut y dylid dehongli'r gofyniad hwn yn genedlaethol neu o fewn ardaloedd unigol o goedwig.

**2.4** Gall diffyg blaenoriaethau strategol clir arwain at wrthdaro mewnol, ond hefyd risgiau gweithredol gan nad ymdriniwyd â materion megis cynaeafu, datgoedwigo ac ailstocio yn ddigonol. Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo ei hun i gynyddu faint o goetir llydanddail sy'n cael ei blannu yng Nghymru ond mae rhai aelodau o staff yn pryderu na chafwyd esboniad clir o'r rhesymau dros hyn, er enghraifft ai gwella amrywiaeth oedd yr unig fwriad ynteu gwella amrywiaeth a chael cnwd o goed llydanddail sy'n fasnachol ddichonadwy. Mae eglurder yn bwysig i lywio'r ffordd y rheolir yr ystad coed llydanddail ar lawr gwlad. Nododd y staff hefyd gysylltiad rhwng y diffyg eglurder ynglŷn â blaenoriaethau ac amryfusedd ynglŷn â chyflawni amcanion penodol.

## Mae angen atgyfnerthu prosesau busnes craidd a'u hintegreiddio ag amcanion strategol fel y gellir rheoli'r cyfaddawdu a geir wrth gefnogi agenda ehangu'r Comisiwn

### Dylai cynllunio busnes gael ei lywio gan amcanion corfforaethol yn hytrach na chan ystyriaethau ariannol

**2.5** Mae cynllun busnes y Comisiwn yn cael ei lywio gan ystyriaethau ariannol yn y bôn. Mae rheolwyr canolfannau cost yn datblygu cynlluniau busnes tair blynedd a adolygir bob blwyddyn, ac a fonitrir yn ystod y flwyddyn gan yr Adran Gyllid. Nod y broses hon yw herio rhagamcanion rheolwyr canolfannau cost a sicrhau bod amrywiannau yn cael eu nodi. Gwelwyd mai cyflwyniadau cyllidebol yw dogfennau cynllunio busnes canolfannau cost i bob pwrpas, wedi'u llywio gan yr angen i gynnal y gwasanaethau a'r cyfleusterau presennol o fewn cyllideb benodol.
O weithredu yn ôl ystyriaethau ariannol yn y modd hwn mae gallu'r Comisiwn i ymateb i'r agenda goedwigaeth newidiol yn cael ei beryglu. Mewn Adroddiad Archwilio Mewnol diweddar ni welwyd unrhyw gysylltiadau clir rhwng y cynllun corfforaethol a'r system cynllunio busnes fewnol. O ganlyniad, mae angen i'r Comisiwn fabwysiadu ymagwedd fwy corfforaethol tuag at gynllunio busnes, drwy sicrhau bod y cynllun busnes corfforaethol yn cael ei ddatblygu gan gyfeirio’n glir at y strategaeth gorfforaethol (yn hytrach nag adlewyrchu cynlluniau busnes canolfannau cost yn unig), a bod rheolwyr canolfannau cost yn deall yn glir sut y mae eu cynlluniau busnes eu hunain yn helpu i gyflawni'r cynllun corfforaethol a blaenoriaethau strategol.

13 Mae uned Grantiau a Thrwyddedu'r Comisiwn yn gweithredu fel rheoleiddiwr yr ystad coedwigoedd yn nwylo preifat a chyhoeddus yng Nghymru, ac fel y cyfryw mae wedi'i lleoli y tu allan i unedau Rhanbarthau Coedwigoedd. Fel y rheoleiddiwr, mae'n rhaid i'r uned Grantiau a Thrwyddedu gymeradwyo pob Cynllun Dylunio Coedwig a gyflwynir gan y Rhanbarthau Coedwigoedd.



2.6 Gan gydnabod yr angen i atgyfnerthu ei brosesau cynllunio busnes, mae'r Comisiwn wedi sefydlu tîm Polisi a Rhaglen gyda Rheolwr Polisi a Chynllunio yn ddiweddar. Bwriad y tîm yw sicrhau cysondeb clir rhwng y strategaeth *Coetiroedd i Gymru* ar ei ffurf ddiwygiedig, cynllun corfforaethol y Comisiwn a'r cynllun busnes corfforaethol. Yn sgîl cyflwyno Cyfrifyddu yn ôl Amcanion yn 2007-2008 (lle mae rhaglenni a'r adnoddau y mae eu hangen i'w cyflawni wedi'u dosbarthu ar sail yr amcan strategol y disgwylir iddynt ei gyflawni) dylai'r Comisiwn ddod i ddeall yn well sut y mae gwariant cyfredol yn adlewyrchu ei amcanion strategol.

2.7 Mae angen i'r Comisiwn ddatblygu proses gadarn ar gyfer datblygu a gwerthuso achosion busnes sy'n cysylltu'n benodol â strategaeth gorfforaethol, gan i ni weld enghreifftiau lle nad oedd prosiectau mawr yn cael eu hategu gan achosion busnes ffurfiol pan gododd cyfleoedd y tu allan i'r broses pennu cyllideb flynyddol neu pan oedd arian ar gael ar fyr rybudd. Er enghraifft:

- Defnyddiodd y Comisiwn arian yr UE yn ddiweddar i ailddatblygu Canolfannau Ymwelwyr yn Nant yr Arian a Choed y Brenin heb Achosion Busnes ffurfiol. O ganlyniad nid ystyriodd y Comisiwn yn benodol sut y byddai'n talu costau refeniw parhaus y canolfannau hyn ar ôl i'r grant ddod i ben. Mae'r Comisiwn wedi penderfynu talu'r costau refeniw parhaus hyn ar ôl bod yn ymwybodol o'r costau tebygol o Ganolfannau Ymwelwyr blaenorol.

- Cafodd y Comisiwn wybod ar fyr rybudd am fwriad Llywodraeth y Cynulliad i'w wneud yn gyfrifol am y Rhaglen Ffermydd Gwynt Genedlaethol, a olygai nad oedd digon o amser i lunio achos busnes i gefnogi'r broses o gyflawni'r rhaglen. Wrth gytuno i gyflawni'r Rhaglen Ffermydd Gwynt Genedlaethol, nid oedd gan y Comisiwn arian yn ei gyllideb sylfaenol ar gyfer costau rheoli'r broses gaffael gychwynnol. Fodd bynnag, roedd y Comisiwn yn hyderus y gallai dalu'r costau untro amcangyfrifedig o £0.5 miliwn i gyflawni hyn o'i adnoddau presennol. Gofynnodd y Comisiwn am gymeradwyaeth Llywodraeth y Cynulliad i ddefnyddio'r adnoddau presennol yn y modd hwn ac fe'i rhoddwyd.

- Yn Llythyr Rheoli Swyddfa Archwilio Cymru 2005-2006 nodwyd bod y Comisiwn wedi prynu cyfarpar cyfalaf arbenigol a gostiodd ychydig dros £0.5 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn heb achos busnes. Noda'r Comisiwn fod enghreifftiau o'r fath yn adlewyrchu cyfyngiadau cytundeb ariannu sy'n ei wahardd rhag cario adnoddau ymlaen, a'i fod yn symud oddi wrth ddull gweithredu sy'n arwain at wariant ar ddiwedd y flwyddyn.

## Mae angen i reoli perfformiad ar lefel unigol a chorfforaethol fod yn gadarn ac yn gyson ag amcanion strategol

2.8 Mae'n bwysig cysylltu blaenoriaethau strategol ar lefel gorfforaethol ag amcanion aelodau unigol o staff, er mwyn i bob un ddeall eu cyfraniad unigol i lwyddiant y sefydliad. I'r rhai sy'n gweithredu fel Rheolwyr Rhanbarthau Coedwigoedd, mae'r Comisiwn wedi ceisio sicrhau bod amcanion unigol yn amlwg yn gyson ag amcanion strategol, gan fod yr amcanion a bennir ar gyfer Rheolwyr Rhanbarthau Coedwigoedd wedi'u trefnu o dan yr un penawdau a ddefnyddir yn y cynllun corfforaethol. Fodd bynnag, ni raeadrwyd hyn i staff ar bob gradd o fewn y Rhanbarthau Coedwigoedd. Y tu allan i'r Rhanbarthau Coedwigoedd mae rhai o'r staff sy'n gweithredu fel rheolwyr llinell wedi ceisio cysoni amcanion y cynllun corfforaethol ag amcanion unigol, ond mae hyn yn adlewyrchu

ffordd o weithio rheolwyr unigol yn hytrach na ffordd gorfforaethol glir o weithio. Dywedodd rhai rheolwyr llinell wrthym fod diffyg cyfeiriad a blaenoriaethu corfforaethol clir yn ei gwneud yn anodd cysoni amcanion corfforaethol a phersonol. Dywedodd rhai ei bod yn anodd rheoli staff o ganlyniad i hyn, gan na allent gyfleu'n glir i'r staff pam y dylent wneud rhai pethau a pheidio â gwneud pethau eraill. Bwriad y tîm Polisi a Rhaglen a sefydlwyd yw datblygu ymagwedd a chyfeiriad cyffredin i sicrhau yr adlewyrchir y cyfeiriad corfforaethol mewn cynlluniau swydd unigol.

**2.9** Mae angen i drefniadau rheoli perfformiad corfforaethol fod yn gadarnach hefyd. Mewn nifer fawr o feysydd busnes allweddol, nid yw'r Comisiwn yn meincnodi â chyrff allanol megis y Comisiwn Coedwigaeth yn yr Alban a Lloegr, neu gyrff cyhoeddus eraill. Ac nid yw'n cynnal ymarferion meincnodi mewnol ychwaith, er enghraifft, nid yw'r Comisiwn wedi cynnal ymarferion meincnodi ar draws y pedwar Rhanbarth Coedwig yng Nghymru. O ganlyniad, nid yw gwaith rheoli'r sefydliad wedi'i ategu gan ddealltwriaeth glir o'i berfformiad cyfredol, ei allu a'r lle i wella.

**2.10** Gwelwyd nad oedd cysylltiad clir rhwng dangosyddion *Coetiroedd i Gymru*, dangosyddion y cynllun corfforaethol a DPAau. Mae diffyg eglurder o'r fath yn creu nifer o broblemau wrth olrhain yr hyn a gyflawnir. Mae'r ffaith nad oes cysylltiadau uniongyrchol ar y cyfan rhwng dangosyddion *Coetiroedd i Gymru* a DPAau yn ei gwneud yn anodd i Lywodraeth y Cynulliad asesu perfformiad y Comisiwn o ran cyflawni yn erbyn y strategaeth goedwigaeth allweddol i Gymru.

**2.11** Wrth gydnabod yr angen i ddatblygu cyfres symlach a mwy strategol o ddangosyddion perfformiad sy'n adlewyrchu'n well beth mae'n ei wneud a pham, mae'r Comisiwn wedi lleihau nifer y DPAu a ddefnyddir i asesu perfformiad. Dros y cyfnod rhwng 2006-2007 a 2007-2008 lleihaodd y Comisiwn nifer y DPAau o 30 i 24. Fodd bynnag, mae angen o hyd i'r Comisiwn sicrhau gwell perthynas rhwng DPAau a ddefnyddir ganddo i asesu perfformiad a dangosyddion ei gynllun corfforaethol a *Coetiroedd i Gymru*. Ar ôl i'r broses bresennol o ddiwygio strategaeth *Coetiroedd i Gymru* gael ei chwblhau mae angen i'r Comisiwn sicrhau y cysonir DPAau â'i gynllun corfforaethol a pholisi coedwigaeth Llywodraeth y Cynulliad. Wrth ddatblygu mesurau newydd byddai adolygiad sylfaenol o ddiben y Comisiwn yn fuddiol ynghyd â'r mesurau sy'n adlewyrchu'r galw am wasanaethau a chanlyniadau orau, er enghraifft drwy ddatblygu Cerdyn Sgorio Cytbwys.

**2.12** Bu rhai anghysonderau yn y mesurau DPA a ddefnyddiwyd gan y Comisiwn oherwydd dileu rhai DPAau, ychwanegu eraill a newid diffiniadau rhai dangosyddion rhwng blynyddoedd. Gall hyn ei gwneud yn anodd cymharu tueddiadau mewn perfformiad rhwng blynyddoedd, ac mae cyfeiriadau anghyson at DPAau gan y Comisiwn rhwng blynyddoedd wedi ei gwneud y sefyllfa'n waeth. Byddai adolygiad o'i fesurau allweddol yn fuddiol i'r Comisiwn, gyda'r nod o gysylltu ei ddiben craidd â chyfres lai ond mwy penodol o fesurau sy'n mesur cynnydd yn erbyn blaenoriaethau strategol. Dylai staff chwarae rhan lawn yn y gwaith o ddatblygu cyfres o fesurau craidd o'r fath gan mai hwy sy'n agosaf at y gwaith a hwy a fydd angen eu coleddu.

### Mae arferion caffael yn gofyn am fwy o gydweithredu canolog a dylid defnyddio arbenigedd perthnasol

**2.13** Mewn profion archwilio diweddar nodwyd nifer o broblemau gyda phrosesau caffael y Comisiwn a oedd yn rhai cyffredinol neu'n rhai penodol i gaffael ym maes cludo nwyddau (Ffigur 8).

## Ffigur 8 – Profion archwilio diweddar o gyfundrefn gaffael y Comisiwn

**Canfyddiadau cyffredinol ynglŷn â chaffael**

Mae Archwilio Mewnol a'n gwaith archwilio ein hunain wedi nodi nifer o broblemau caffael sy'n dod o dan y themâu canlynol:

- mynd y tu hwnt i'r gwerthoedd a nodir mewn contractau o dipyn, er enghraifft ar un contract roedd y gwerth cronnol bron 10 y cant (£3,523) yn uwch na gwerth y contract; yn 2005-2006, o'r 10 contract a brofwyd, roedd gan ddau wariant cronnol o £33,602 – pump y cant – yn uwch na gwerth y contractau sef £618,000;
- defnyddio estyniadau i gynyddu meintiau contract heb aildendro;
- cadw cofnodion gwael, er enghraifft dim cofnodion gwahoddiadau i Dendro na Holiaduron i Gyflenwyr Cymwys ar ffeil, neu fethiant i gofnodi cymeradwyaeth gan y rheolwr priodol lle na dderbyniwyd y dyfynbris rhataf; ac
- mewn chwech allan o'r saith contract a archwiliwyd methwyd â sicrhau'r tri thendr gofynnol (cyflwynwyd dau dendr yn unig ar gyfer dau gontract, nid oedd tystiolaeth o ymarfer tendro ar gyfer tri chontract a chafodd un ei reoli gan Bensaer Tirwedd allanol ond nid oedd cofnodion o'r canlyniad ar ffeiliau'r Comisiwn).

**Caffael ym maes cludo nwyddau**

Yn 2006-2007, archwiliwyd caffael ym maes cludo nwyddau, a nodwyd nifer o broblemau penodol:

- ni chafwyd proses dendro ffurfiol ar gyfer contractau cludo nwyddau, a greodd risg bod y Comisiwn yn cyfyngu ar y farchnad bosibl ar gyfer gwasanaethau cludo nwyddau ac nad oedd yn cael y gwerth gorau am arian; mae'r Comisiwn wedi cynnal ymarfer tendro ar gyfer cludo nwyddau yn ddiweddar;
- o brofi sampl o bum contract caffael gwerth tua £81,000 i gyd nodwyd ym mhob un o'r pum achos na ddyfarnwyd y contract yn unol â gweithdrefnau'r Comisiwn, ac yn achos pedwar o'r pum contract aeth y Comisiwn i gostau cyn llofnodi'r contract; ac
- yn 2006-2007, gwariodd y Comisiwn £79,000 (17 y cant) yn fwy na'i gyllideb cludo nwyddau o £462,000.

*Ffynhonnell: Llythyrau Rheoli Swyddfa Archwilio Cymru 2005-2006 a 2006-2007; Adroddiad Archwilio Mewnol Comisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr, Tachwedd 2007*

**2.14** Nododd ein gwaith maes ar gyfer yr adroddiad hwn faterion eraill ynglŷn â chaffael, yn benodol yr angen i'r Comisiwn wneud mwy o ddefnydd o arbenigedd perthnasol a datblygu ffordd fwy cydlynol o ymgymryd â gweithgarwch caffael. Nodwyd y canlynol:

- Yn draddodiadol, ymgymerwyd â pheth o waith caffael y Comisiwn gan uned unigol neu ar lefel rhanbarth heb gydlynu canolog. Mae hyn yn arwain at risgiau i werth am arian gan na all y Comisiwn nodi cyfleoedd i sicrhau arbedion maint. Mae hefyd yn arwain at gystadleuaeth marchnad fewnol wrth i unedau a rhanbarthau gystadlu â'i gilydd ac yn erbyn prosiectau'r UE. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran canoli rhai agweddau ar gaffael. Yn 2000 sefydlodd y Comisiwn dîm Cynaeafu a Marchnata i Gymru i gydlynu contractau o ran cynaeafu a gwerthu coed. Mae'r Comisiwn hefyd wedi recriwtio arbenigwr caffael i integreiddio gweithgareddau caffael unedau busnes ymhellach.
- Nid yw'r Comisiwn yn gwneud defnydd digonol o brosesau tendr, er enghraifft nid oes rhestr ffurfiol o gontractwyr cymeradwy i Gymru sydd wedi tendro, wedi cael eu gwerthuso, eu hadolygu a'u hailbrofi o bryd i'w gilydd yn erbyn y farchnad. Mae hwn yn wendid o ran caffael lleol cynaliadwy yn unol â blaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad.
- Ym marn y Comisiwn mae diffyg Strategaeth Gaffael i Gymru gyfan yn flaenoriaeth allweddol dros y pum mlynedd nesaf.
- Nid oes gan y Comisiwn gofrestr ganolog o dendrau ar waith i gofnodi manylion pob ymarfer tendro a wneir gan y Comisiwn (er enghraifft, i gofnodi dyddiadau allweddol, nifer y tendrau sy'n dod i law, cofnod o'r

### Ffigur 9 – Cynllun grant Coetiroedd Gwell i Gymru

Yn 2007, cafodd y Cynllun Grantiau Coetir i'r DU gyfan (WGS), a lansiwyd ym mis Mehefin 1988 ac a gaewyd i geisiadau newydd ar ddiwedd mis Awst 2006, ei ddisodli gan gynllun Coetiroedd Gwell i Gymru. Yn 2007-2008, rhoddodd y Comisiwn grantiau i ddeiliaid coetiroedd gwerth £0.24 miliwn, yn erbyn cyllideb o £0.73 miliwn ar gyfer y flwyddyn honno. Mae Coetiroedd Gwell i Gymru yn gynllun penodol i Gymru, mae'r meini prawf ar gyfer grantiau yn amlwg yn gyson ag amcanion y strategaeth *Coetiroedd i Gymru*, gyda grantiau ar gyfer coedwigaeth gymdeithasol a gwarchod coetiroedd brodorol ochr yn ochr â grantiau am yr agweddau economaidd mwy traddodiadol ar goedwigaeth. Cefnogwyd y cynllun gan grŵp rhanddeiliaid yn cynrychioli amrywiaeth mawr o fuddiannau.

Un o egwyddorion craidd Coetiroedd Gwell i Gymru yw bod rheoli coetiroedd yn effeithiol yn gofyn am gynllun rheoli hirdymor cadarn. Mae perchnogion sydd am ymuno â'r cynllun yn cael cymorth proffesiynol drwy grant i baratoi'r cais cychwynnol, Cynllun Sylfaen, ac wedyn Cynllun Rheoli pum mlynedd terfynol.

Ar ôl i Gynllun Rheoli gael ei gymeradwyo a'i lofnodi gan y perchennog, dyfernir contract Cynllun Gweithrediadau sy'n nodi'n fanwl y gwaith sydd i'w wneud bob blwyddyn a'r grantiau sy'n daladwy am bob darn o waith. Yn y modd hwn, mae gan y Comisiwn ddealltwriaeth lawer gwell o lefel y grantiau a neilltuwyd yn y dyfodol. Mae Coetiroedd Gwell i Gymru yn gynllun 'ei ddefnyddio neu ei golli', sy'n golygu bod yn rhaid i'r grant gael ei hawlio yn y flwyddyn a nodwyd yn y cynllun neu caiff ei golli. Mae'n rhaid i'r Cynllun Rheoli Hirdymor hwn gyrraedd y safonau gofynnol o dan yr UKWAS. Ategir y cynllun pum mlynedd gan 'weledigaeth' 20 mlynedd ar gyfer rheoli'r coetir.

Mae Llywodraeth y Cynulliad a'r Undeb Ewropeaidd (drwy Amcan Un) yn darparu arian craidd y cynllun. Noda'r Comisiwn fod y broses gyfredol o ddiwygio'r strategaeth *Coetiroedd i Gymru* yn debygol o ofyn am fireinio'r cynllun Coetiroedd Gwell i Gymru i sicrhau bod y gwaith y mae'n ei ariannu yn parhau i adlewyrchu amcanion gweledigaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer coetiroedd yng Nghymru.

*Ffynhonnell: Comisiwn Coedwigaeth Cymru*

sawl fu'n llwyddiannus a phwy agorodd bob tendr). Yn hytrach, delir taflenni tendro ar y ffeiliau caffael ym mhob uned neu ranbarth sy'n ei gwneud yn anodd monitro a sicrhau cydymffurfiaeth. Er bod y Comisiwn wedi rhoi ar waith gronfa ddata o gontractau erbyn hyn a gynhelir gan staff cyllid, nododd adroddiad Archwilio Mewnol diweddar nad yw'n gyfredol.

- Fodd bynnag, nid yw'r Comisiwn yn gwneud defnydd rheolaidd o gymorth allanol i gaffael, er enghraifft drwy arbenigedd caffael canolog Comisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr a Gwerth Cymru. Mae wedi defnyddio arbenigedd Comisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr i gynorthwyo caffael ar raddfa fawr megis contractau'r ffermydd gwynt a llunio contractau hirdymor ar gyfer gwerthu coed.

**2.15** Er mwyn mynd i'r afael â'r problemau hyn o ran caffael mae'r Comisiwn yn penodi swyddog caffael arbenigol i feithrin gallu ymhellach yn y maes hwn. Mae'n bwysig bod y swyddog caffael newydd yn cael cymorth corfforaethol cryf i gyflawni'r newidiadau sydd eu hangen o ran caffael. Gallai'r cynghorydd newydd ystyried y potensial i gymhwyso manteision caffael ar raddfa fwy, er enghraifft y Rhaglen Ffermydd Gwynt Genedlaethol, at ymarferion tendro mwy arferol, megis contractau coed hirdymor.

### Mae angen monitro grantiau'n effeithiol er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni yn unol ag amcanion cynllun Coetiroedd Gwell i Gymru

**2.16** Mae'r Comisiwn yn gyfrifol am weinyddu nifer o grantiau coetiroedd, gan gynnwys Cynllun Coetiroedd Gwell i Gymru (Ffigur 9). Mae enghreifftiau eraill o grantiau a weinyddir gan y Comisiwn yn cynnwys Cynllun Busnes Ynni Coed ac ariannu o dan y prosiect Reclaiming our Forgotten Inheritance, sy'n rhoi grantiau i berchnogion coetiroedd sydd am droi planhigfeydd ar Safleoedd Coetiroedd Hynafol (PAWS) yn goetir brodorol unwaith eto.



**Ffigur 10 – Mae'r Comisiwn wedi cymryd camau i wella'r ffordd y mae'n rheoli risg**

- Ystyrir risg ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd Rheoli.
- Mae'r Comisiwn wedi comisiynu ymgynghorydd allanol i weithio gyda'r Archwiliad Mewnol gan lunio Cynlluniau Parhad Busnes (risg allweddol a nodwyd gan y Comisiwn).
- Sefydlwyd Pwyllgor Archwilio a Risg yn 2006-2007 gyda dau aelod anweithredol ac a fynychir gan archwilwyr mewnol, archwilwyr allanol, Cyfarwyddwr Cymru a Phennaeth Cyllid. Mae rheoli risg yn eitem sefydlog ar agenda'r Pwyllgor.
- Mae'r Comisiwn wedi gwneud buddsoddiad sylweddol mewn hyfforddiant rheoli risg i staff ac mae wedi cyflwyno meddalwedd rheoli risg benodol.
- Mae gan y Comisiwn Gofrestr Risg Gorfforaethol ar waith sy'n rhoi crynodeb lefel uchel o risgiau busnes allweddol. Mae'n cael ei diweddaru'n flynyddol a'i datblygu ar y cyd ag Uwch Swyddogion Cyfrifol cyn cael ei rhannu â grŵp rheoli risg y Comisiwn ei hun.
- Er bod prosiectau mawr eraill yn cael eu hannog i ddefnyddio fformat y Gofrestr Risg Gorfforaethol, dim ond y Rhaglen Ffermydd Gwynt Genedlaethol sydd wedi datblygu ei chofrestr risg ei hun y noda'r Comisiwn ei bod yn cael ei diweddaru tua bob mis.

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru*

**2.17** Yn ôl gwaith gan yr Archwiliad Mewnol a Swyddfa Archwilio Cymru roedd y Comisiwn yn gweithredu prosesau priodol i sicrhau bod ymgeiswyr am grant yn cydymffurfio â thelerau ac amodau grantiau[14]. Fodd bynnag, nodwyd nifer o ffyrdd gennym lle roedd angen i'r Comisiwn wella'r ffordd y mae'n gwerthuso cynlluniau grant coetir er mwyn deall yn well a yw cynlluniau grant o'r fath yn cyflawni neu a ydynt mewn sefyllfa dda i gyflawni'r canlyniadau a fwriedir ac i gyflymu'r broses o symud o geisiadau i gymeradwyo cynlluniau rheoli:

- Dim ond ers 2007 mae Coetiroedd Gwell i Gymru wedi bod yn weithredol – mae natur coetiroedd yn golygu y gall canlyniadau'r cynllun gymryd amser i ddod yn amlwg. Mae'r meini prawf i ymuno â'r cynllun Coetiroedd Gwell i Gymru yn adlewyrchu amcanion *Coetiroedd i Gymru*. Er hynny, mae angen i'r Comisiwn ddatblygu cyfres o ddangosyddion perfformiad sy'n mesur ac yn rhoi adroddiad ar gynnydd yn erbyn canlyniadau, yn hytrach na pherfformiad yn erbyn agweddau ar broses, megis yr ardal o goetir a gwmpesir gan gynlluniau a gwariant arnynt. Mae'r Comisiwn yn cydnabod bod angen o hyd iddo nodi'r ffordd fwyaf priodol o fesur canlyniadau Coetiroedd Gwell i Gymru, a phennu dangosyddion perthnasol.
- Er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni DPAau, mae angen i'r Comisiwn ddeall yn well y rhwystrau a brofir gan ymgeiswyr wrth fynd ati i gyflwyno Cynllun Rheoli wedi'i lunio'n llawn a rhoi cymorth priodol. Awgrymodd sylwadau gan y cyhoedd a chyfweliadau â rhanddeiliaid allanol hefyd fod rhai sy'n ymwneud â choedwigaeth fasnachol yn credu bod y cynllun Coetiroedd Gwell i Gymru yn rhy gymhleth ac felly y byddai'n angenrheidiol ei newid.

## Mae lle i wella'r ffordd y rheolir risg

**2.18** Mae rheoli risg yn y Comisiwn yn gweithredu ar lefel Cymru ac yng nghyd-destun cysylltiadau'r Comisiwn yng Nghymru â Chomisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr drwy Grŵp Rheoli Risg ar lefel Prydain Fawr, sy'n cyfarfod tua dwy neu dair gwaith y flwyddyn. Mae Grŵp Rheoli Risg y Comisiwn ei hun yn

14 Mewn gwaith gan Swyddfa Archwilio Cymru yn 2005/2006 ni nodwyd unrhyw bryderon mawr ynglŷn â'r systemau a oedd ar waith yn y Comisiwn ar gyfer monitro cydymffurfiaeth â thelerau ac amodau grantiau. Adolygwyd y Cynllun Grantiau Coetir bob blwyddyn gan yr Archwiliad Mewnol, ac yn ystod y blynyddoedd diwethaf ni nodwyd unrhyw bryderon mawr yn y prosesau sydd ar waith yn y Comisiwn ar gyfer monitro cydymffurfiaeth (er i argymhellion gael eu gwneud). Cynhaliodd yr Archwiliad Mewnol brofion cynnar ar y cynllun Coetiroedd Gwell i Gymru hefyd. Daeth ei adolygiad interim lefel uchel yn 2006/2007 i'r casgliad bod y fframwaith rheoli risg a rheolaeth i gyflawni Coetiroedd Gwell i Gymru yn eithaf cadarn.

cyfarfod yn flynyddol. Mae'r strwythurau hyn yn rhan o drefniadau rheoli risg cymharol newydd a gyflwynwyd gan y Comisiwn o 2005-2006, sydd wedi arwain at welliannau o ran rheoli risg (Ffigur 10).

2.19 Fodd bynnag, erys lle o hyd i welliant pellach yn y ffordd y mae'r Comisiwn yn ymateb i risgiau busnes allweddol. Mae Grŵp Rheoli Risg y Comisiwn yn cyfarfod yn flynyddol a gall hynny beryglu ei allu i ymateb i risgiau wrth iddynt godi yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ran gwerthu coed sef tua un rhan o bump o incwm y Comisiwn (£9 miliwn y flwyddyn). Mae prisiau coed yn gyfnewidiol iawn ac yn amrywio drwy'r flwyddyn mewn ymateb i ffactorau megis cyflenwad a galw a chyfraddau cyfnewid. Yn yr un modd, mae nifer y ceisiadau a wneir o dan gynlluniau grant y Comisiwn yn dibynnu ar ffactorau megis a all y tirfeddiannwr wneud mwy o elw o ddefnyddio'r tir mewn ffyrdd eraill. Rydym yn ystyried bod yr adolygiad blynyddol o risgiau sy'n ymwneud â gwerthu coed a grantiau yn annigonol i nodi amrywiadau tebygol yn amserol, er enghraifft y gor-gymynu a welwyd yn 2004-2005. Mae angen ystyried cofrestrau risg sylfaenol ar wahân a pherchnogion risg ar gyfer meysydd busnes allweddol megis gwerthu coed a grantiau, ac i'r rhain gael eu hadolygu ar lefel uchel, sy'n mynd y tu hwnt i fonitro o ddydd i ddydd, o leiaf unwaith bob chwarter. Er mwyn cefnogi'r broses fwy rhagweithiol hon o reoli risg, mae angen i'r Comisiwn ddatblygu systemau sy'n dal ac yn monitro risgiau a chyfleoedd newydd yn fwy effeithiol yn ystod y flwyddyn, yn ogystal â'u cysylltu'n agosach â'i amcanion corfforaethol.

## Mae angen i'r Comisiwn reoli ei adnoddau'n effeithiol

### Mae angen i'r Comisiwn a Llywodraeth y Cynulliad ddatblygu ymagwedd hirdymor a strategol tuag at gynllunio ariannol, yn enwedig yng ngoleuni pwysau ariannol

2.20 Nid yw'r trefniant ariannu diffyg net a roddwyd ar waith gan Lywodraeth y Cynulliad lle mae'r Comisiwn yn dibynnu ar gynhyrchu incwm i fantoli'r gyllideb, yn cefnogi defnydd strategol a chynlluniedig o adnoddau. Rhwng 2008-2009 a 2010-2011, mae'r Comisiwn yn amcangyfrif y bydd angen rhwng £43.6 miliwn a £46 miliwn arno i redeg ei fusnes. Dengys Ffigur 11 mai Llywodraeth y Cynulliad yw ariannwr mwyaf y Comisiwn - gan ddarparu arian sylfaenol o tua £22.5 miliwn y flwyddyn.

2.21 Mae'r Comisiwn yn ariannu'r gwahaniaeth rhwng gwariant ac arian sylfaenol o nifer o ffrydiau grant Ewropeaidd ac o werthu coed. Mae incwm o goed yn ansicr, gan y gall prisiau newid yn sylweddol. O dan ariannu diffyg net, gall Llywodraeth y Cynulliad ddarparu arian i'r Comisiwn y tu hwnt i'w arian sylfaenol. Fodd bynnag, ni all y Comisiwn warantu y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cynyddu'r arian a ddarperir os bydd incwm coed yn gostwng yn is na'r lefel a ragwelwyd. Mae gan Lywodraeth y Cynulliad, i bob diben, system fyrdymor o ariannu sefydliad sydd â chylch busnes hirdymor.


2.22 Mae'r posibilrwydd y bydd incwm coed yn gostwng yn is na'r lefelau a ragwelwyd a'r ansicrwydd ynglŷn â'r graddau y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi arian yn ychwanegol at yr arian sylfaenol blynyddol y cytunwyd arno yn amlygu'r Comisiwn i'r risg na fydd ganddo ddigon o arian ar gyfer ei rwymedigaethau presennol. Mae'r Comisiwn yn ceisio lliniaru'r risg o ddiffyg ariannol mewn sawl ffordd ond mae hyn yn tueddu i arwain at ymagwedd fyrdymor a llai strategol tuag at wariant.

### Ffigur 11 – Rhagamcan o incwm a gwariant y Comisiwn ar gyfer 2008-2009 a 2010-2011

| Rhagamcan (£'000) | 2008-2009 | 2009-2010 | 2010-2011 |
|---|---|---|---|
| COSTAU | | | |
| Cynllunio Coedwigoedd | 2,065 | 2,021 | 2,012 |
| Cynaeafu (gan gynnwys Ffyrdd) | 8,249 | 8,280 | 8,305 |
| Rheoli, Diogelu a Chynnal a Chadw'r Ystad Gyhoeddus | 8,577 | 9,224 | 11,201 |
| Coedwigaeth Gymdeithasol ac Amgylcheddol | 7,277 | 6,967 | 6,884 |
| Grantiau, Trwyddedu a Phrosiectau/ Partneriaethau â'r Sector Preifat | 8,069 | 7,004 | 7,078 |
| Gwasanaethau canolog gan Lywodraeth y Cynulliad a Chomisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr | 3,386 | 4,435 | 4,338 |
| Cyfalaf | 1,329 | 474 | 482 |
| Ildio Derbyniadau Net Ffermydd Gwynt i Lywodraeth y Cynulliad | 1,400 | 1,400 | 1,400 |
| **Cyfanswm y Costau** | **40,352** | **39,805** | **41,700** |
| INCWM | | | |
| Gwerthu Coed | (12,555) | (12,456) | (12,489) |
| Derbyniadau Ffermydd Gwynt | (1,900) | (1,900) | (1,900) |
| Grantiau/Cyd-ariannu'r UE | (1,215) | (807) | (790) |
| Arall | (2,149) | (2,109) | (3,988) |
| **Cyfanswm yr Incwm** | **(17,819)** | **(17,272)** | **(19,167)** |
| Diffyg Comisiwn Coedwigaeth Cymru | 22,533 | 22,533 | 22,533 |
| Arian Sylfaenol Llywodraeth y Cynulliad | (22,533) | (22,533) | (22,533) |
| **Diffyg** | **0** | **0** | **0** |

*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata Comisiwn Coedwigaeth Cymru*

**Ffigur 12 – Roedd proffil gwariant y Comisiwn ar gyfer 2005-2006 a 2006-2007 wedi'i bwysoli tuag at ran olaf y flwyddyn pan oedd mwy o hyder ynglŷn â lefelau incwm**





*Ffynhonnell: Dangosyddion Busnes Comisiwn Coedwigaeth Cymru*

**2.23** Er enghraifft, mae cryn weithgarwch caffael yn digwydd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol er mwyn defnyddio'r gyllideb sydd dros ben. Mae hyn yn adlewyrchu proffil gwariant a gynlluniwyd sydd wedi'i bwysoli i ran olaf y flwyddyn i adlewyrchu'r ddibyniaeth ar dderbyniadau coed a risg ddilynol o orwario os bydd y derbyniadau coed yn is na'r disgwyl. Dengys Ffigur 12 fod mwy o wariant tua diwedd y flwyddyn ym mhob maes gwariant yn 2005-2006 a 2006-2007. Mae aros tan ddiweddarach yn y flwyddyn cyn ymrwymo ei hun i wariant, pan fydd y Comisiwn yn fwy hyderus ynglŷn ag incwm coed yn creu'r potensial y bydd gwariant yn adlewyrchu penderfyniadau byrdymor ar ddiwedd y flwyddyn gyda'r risg gysylltiedig o gynllunio caffael gwael a gwerth gwael am arian o ganlyniad.

**2.24** Mae'r Comisiwn hefyd yn ceisio lliniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â diffyg posibl yn incwm coed drwy weithredu byrdymor a all beryglu gwerth am arian. Ymhlith y rhain:

- Gwneir penderfyniadau caffael ar sail flynyddol yn hytrach nag ar sail tymor hwy (er enghraifft tair blynedd).
- Mae gan y Comisiwn gyllidebau cyfalaf cyfyngedig. Nododd y Comisiwn fod cyfalaf yn aml yn cael ei aberthu pan fydd pwysau ar gyllidebau neu ddiffygion yn incwm coed, i'r graddau na fu fawr ddim cyllideb gyfalaf mewn rhai blynyddoedd. Yn yr un modd, mae'r gwrthwyneb yn digwydd hefyd, gydag arian ychwanegol yn y gyllideb gyfalaf os bydd incwm coed yn mynd y tu hwnt i'r lefel a ragwelwyd. Rhwng 2004-2005 a 2006-2007,

**Ffigur 13 – Tanwariodd y Comisiwn ei gyllideb arian parod net bob blwyddyn rhwng 2002-2003 a 2006-2007**





*Ffynhonnell: Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2002-2003 i 2006-2007 Comisiwn Coedwigaeth Cymru*

dyrannodd y Comisiwn gyfanswm o £1.39 miliwn i'w gyllideb gyfalaf, ond o ganlyniad i'r farchnad goed gryf gwnaeth gwariant cyfalaf gwirioneddol fwy na dyblu i £2.86 miliwn.

- Proses gwneud penderfyniadau byrdymor i adlewyrchu newidiadau yn y farchnad. Er enghraifft, pan fydd marchnad goed wan yn golygu bod incwm coed yn gostwng yn is na'r lefel a ragwelwyd, y duedd yw gweithio mewn ardaloedd 'da' sy'n rhatach eu trin ac yn fwy proffidiol, yn hytrach na chymynu mewn ardaloedd yn unol ag amcanion Cynlluniau Dylunio Coedwig ac amcanion coedwigaeth ehangach.

**2.25** Ar hyn o bryd nid yw Llywodraeth y Cynulliad yn caniatáu i'r Comisiwn ddal cronfeydd wrth gefn er y gall gario dau y cant o'i ofyniad arian parod net ymlaen. Fodd bynnag, yn ystod y blynyddoedd diweddar, mae'r Comisiwn wedi tanwario o fwy na hyn ac nid yw Llywodraeth y Cynulliad wedi adhawlio'r holl wahaniaeth (Ffigur 13). Byddai cronfeydd wrth gefn yn caniatáu i'r Comisiwn ddatblygu ymagwedd tymor hwy tuag at gynllunio ariannol a gwariant cyfalaf sy'n adlewyrchu'n well bwyslais cynyddol Llywodraeth y Cynulliad ar amcanion cymdeithasol ac amgylcheddol yn hytrach na rhai economaidd. Dylai caniatáu i'r Comisiwn ddal cronfeydd wrth gefn a gronnir pan fydd y farchnad goed wedi perfformio'n dda helpu'r Comisiwn i reoli ei lif arian parod yn fwy effeithiol pan fydd marchnadoedd yn mynd tuag i lawr, cynllunio gwaith cyfalaf ar raddfa fawr yn fwy strategol a rheoli effaith lleihad mewn incwm ers i gyfaint y coed a gyflenwir yng Nghymru gael

**Ffigur 14 – Gwelwyd tanwariant rheolaidd a sylweddol yn alldro gwirioneddol y Comisiwn yn erbyn Cyllideb Arian Parod bob blwyddyn rhwng 2002-2003 a 2006-2007**




*Ffynhonnell: Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2002-2003 i 2006-2007 Comisiwn Coedwigaeth Cymru*

ei ostwng yn 2004-2005. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn nodi ei fod yn archwilio sut y gellid rhoi mwy o hyblygrwydd diwedd y flwyddyn i'r Comisiwn, tra'n cydymffurfio â rheolau cyfrifyddu'r llywodraeth.

**2.26** Gall cyfrifyddu ar gyfer cost cyfalaf yn y Datganiad o Gost Weithredu'r Comisiwn fod yn gymhelliant i fuddsoddi yn yr ystad goedwigaeth gyhoeddus yn groes i bob rheswm. Yn ei Ddatganiad o Gost Weithredu, mae'r Comisiwn yn dyrannu cost tâl cyfalaf, sef 3.5 y cant o werth amcangyfrifedig yr ystad goedwigaeth gyhoeddus ac mae'n dâl ar y Comisiwn am ddefnyddio'r ystad i bob golwg[15].

**2.27** Yn amlwg mae cysylltiad agos iawn rhwng cost y setliad cyfalaf a phrisiau coed sy'n newid yn ôl y farchnad ryngwladol. Gan gydnabod hyn, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cynnwys cyllideb gyfalaf gymharol gost uchel o fewn cytundeb ariannu sylfaenol blynyddol y Comisiwn. Yn hanesyddol, bu hyn yn fodd i'r Comisiwn danwario ei gyllideb adnoddau yn rheolaidd ac yn sylweddol (Ffigur 14).

**2.28** Rhagwelir y bydd gwerth yr ystad coedwigoedd yn cynyddu yn y dyfodol agos. Cynghorodd prisiwr proffesiynol allanol y Comisiwn bod gwerth planhigfeydd ar gyfer 2007-2008 yn debygol o gynyddu 70 y cant o tua £135 miliwn i £230 miliwn, a fydd yn cynyddu cost y tâl cyfalaf. Bydd hyn yn achosi problem os bydd yr arian sylfaenol blynyddol

15 Cyfrifir y tâl ar gyfradd safonol y Llywodraeth sef 3.5 y cant mewn termau real ar swm cario cyfartalog pob ased llai rhwymedigaethau, ac eithrio ar gyfer balansau arian parod a ddelir gan Swyddfa'r Tâl-feistr Cyffredinol a symiau sydd i'w hildio i Lywodraeth y Cynulliad (Cyfrifon 2006-2007 y Comisiwn).



a ddarperir gan Lywodraeth y Cynulliad yn aros heb ei newid ac nad yw'n cynyddu i adlewyrchu cost ychwanegol taliadau cyfalaf. Yna efallai y bydd gwrthanogaeth i fuddsoddi yn yr ystad coedwigoedd oherwydd y pwysau ariannol a fyddai'n codi o daliadau cyfalaf uwch. Fodd bynnag, noda Llywodraeth y Cynulliad y bydd y Comisiwn, fel rhan o'r Ymarfer Asesu Adnoddau diweddar, yn debygol o gael arian ychwanegol, a fydd yn adlewyrchu cost gynyddol taliadau cyfalaf yn llawn.

**2.29** Tuedda gwaith cynllunio ariannol y Comisiwn fod yn fyrdymor o ran natur ac mae cysylltiad gwan â'i amcanion strategol (paragraff 2.5). Mae datblygu cynllunio ariannol cadarn yn y tymor canolig yn hanfodol oherwydd cylch oes hir prif asedau'r Comisiwn. Heb gynllunio ariannol trwyadl yn y tymor canolig mae gallu'r Comisiwn i fesur cyfaddawdu rhwng amcanion strategol croes o bosibl yn y fantol. Er enghraifft, ni all y Comisiwn asesu effeithiau ar incwm a gwariant pe bai'n penderfynu, yn y tymor canolig neu hirdymor, leihau ei ymrwymiad i gefnogi'r diwydiant coed prif ffrwd drwy gymryd cam sylweddol oddi wrth blannu a chynaeafu coed conwydd tuag at blannu a chynaeafu coetiroedd llydanddail.

**2.30** Mae'r Comisiwn yn cyflwyno offer a ddylai gefnogi gwaith cynllunio ariannol cadarn yn y tymor canolig neu hirdymor (Ffigur 15). Mae cynlluniau Dylunio Coedwig, cynlluniau cynhyrchu pum mlynedd U18, cynlluniau ailstocio a'r cynllun grant sydd newydd ei gyflwyno, Coetiroedd Gwell i Gymru (Ffigur 7) oll yn fodd i ragweld incwm a gwariant yn fwy cywir ar sail tymor hwy. Mae'r cynllun cynaeafu pum mlynedd yn parhau'n hwy na'r cynlluniau cyfatebol yn Lloegr a'r Alban, sef dwy flynedd. Yn sgîl cyflwyno Cyfrifyddu yn ôl Amcanion o 1 Ebrill 2008 sy'n golygu mapio pob maes incwm a gwariant yn llawn yn ôl amcanion y Comisiwn, dylai cynllunio ariannol strategol wella hefyd. Dylai Cyfrifyddu yn ôl Amcanion alluogi'r Comisiwn i fonitro ac asesu'r graddau y mae'r ffordd y dyrennir adnoddau yn adlewyrchu ei flaenoriaethau strategol ac yna i ddechrau ailgyfeirio adnoddau i sicrhau eu bod yn fwy cyson ag amcanion strategol.

### Mae angen i'r Comisiwn wella'r ffordd y mae'n rheoli asedau corfforaethol er mwyn sicrhau gwerth am arian

**2.31** Archwiliwyd y ffordd y mae'r Comisiwn yn rheoli ei asedau, gan ganolbwyntio'n bennaf ar y ffordd y rheolir ei adeiladau a'i fflyd. Daeth ein gwaith ar reoli fflyd i'r casgliad, er bod gan y Comisiwn drefniadau boddhaol ar waith i reoli ei fflyd, fod lle o hyd i wella ymhellach (Blwch 3).

**Blwch 3 – Nododd ein gwaith ar reoli fflyd y camau gweithredol canlynol y mae angen i'r Comisiwn eu cymryd**

- datblygu dangosyddion perfformiad i asesu cynnydd o ran cyflawni ei strategaeth rheoli fflyd;
- meincnodi perfformiad ei fflyd yn erbyn perfformiad sefydliadau eraill;
- gwella ymhellach yr Achosion Busnes hynny a ddefnyddir i ategu prynu cerbydau ysgafn;
- mwy o gofnodi a monitro'r rhesymau dros waith atgyweirio a chynnal a chadw a damweiniau i gefnogi camau unioni;
- sicrhau bod estyniadau i gerbydau hur ar brydles yn cael eu rheoli'n fwy cost effeithiol;
- adolygu prosesau ar gyfer sicrhau bod gan aelodau o staff y mae angen iddynt weithredu cerbydau yr hawl i yrru;
- adolygu'r ffordd y defnyddir ceir y fflyd, er mwyn nodi ffyrdd o leihau'r defnydd o geir hur; a
- chydweithio â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus yng Nghymru i:
  - gaffael cerbydau;
  - nodi cyfleoedd i rannu ceir fflyd;
  - darparu gwasanaeth rheoli fflyd mewnol;
  - llunio contractau ceir hur; a
  - rhannu cyfleusterau atgyweirio a chynnal a chadw (hy, gweithdai).

*Ffynhonnell: Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o reoli fflyd*

2.32 Nododd archwiliad Iechyd a Diogelwch o ystadau mewnol yn 2003-2004 fod ‘angen cryn dipyn o waith i weithredu polisi'r Comisiwn Coedwigaeth ar reoli eiddo’. Nododd hefyd fod perfformiad y Comisiwn dipyn yn waeth o ran rheoli eiddo o'i gymharu â Chomisiwn Coedwigaeth Lloegr a Chomisiwn Coedwigaeth yr Alban. Tynnodd yr adroddiad sylw at y ffaith bod cynlluniau cynnal a chadw adeiladau'n ddiffygiol, nad oedd adeiladau'n cael eu rheoli'n briodol a bod adnoddau'n cael eu cyfeirio at fannau eraill ar draul gwaith ar adeiladau. Cydnabu'r Comisiwn y problemau hyn ac mewn ymateb sefydlwyd cronfa ddata rheoli eiddo (Rheolwr Eiddo) i gofnodi manylion yr holl asedau adeiledig a gwaith a gynlluniwyd ar gyfer y tymor hwy. Ym mis Mehefin 2007, cyhoeddodd y Comisiwn hefyd ddogfen gyfarwyddyd gryno ar ystadau a amlinellodd briod rolau a chyfrifoldebau staff y Comisiwn ar gyfer rheoli adeiladau.

2.33 Er hynny, bedair blynedd ar ôl yr archwiliad Iechyd a Diogelwch, erys rheoli asedau yn broses o'r bôn i'r brig a lywir gan reolwyr lleol. Nid yw'r Comisiwn wedi rhoi Cynllun neu Strategaeth Rheoli Asedau Adeiladau corfforaethol ar waith eto i roi arweiniad i reolwyr canolfannau cost a'i gwneud yn bosibl i gaffael gwaith cyfalaf mewn ffordd gydlynol ar draws y Comisiwn cyfan. Gan nad oes rhaglen gyfalaf wedi'i chostio yn y tymor canolig nid oes modd i'r Comisiwn wneud cais am arian cyfalaf a allai fod ar gael gan Lywodraeth y Cynulliad. O ganlyniad, mae gwariant cyfalaf yn tueddu i adlewyrchu natur amrywiol y farchnad goed, a llywir penderfyniadau gan ystyriaethau ariannol yn hytrach na dadansoddiad llawn o adeiladau a ddelir a pha mor addas ydynt at y diben. Dylai strategaeth rheoli asedau o'r fath, y byddai angen ei hategu gan fesurau llwyddiant priodol a rhaglen a chyllideb gyfalaf, nodi:

- polisi'r Comisiwn ar gyfer asedau adeiladau, er enghraifft a ddylid eu prydlesu neu fod yn berchen arnynt;
- pa adeiladau sydd eu hangen, a ydynt yn y lleoliad cywir ac a oes unrhyw adeiladau dros ben;
- unrhyw adeiladau eraill sydd eu hangen; a
- faint o waith sydd ei angen i sicrhau bod yr adeiladau presennol yn addas at y diben.

2.34 Adlewyrchir yr angen am strategaeth gorfforaethol gliriach i ddatblygu'r ystad coedwigoedd gan gydnabyddiaeth y Comisiwn nad yw ei ystad wedi'i leoli yn y rhannau mwyaf priodol o Gymru ar hyn o bryd. Y rheswm dros hyn yw bod yr ystad wedi datblygu dros gyfnod hir, a'i unig nod ar y cychwyn oedd ateb galw'r diwydiant coed. Er mwyn asesu'n gywir a yw'r ystad bresennol yn y lle iawn (ac felly a oes angen i'r Comisiwn gaffael tir mewn rhai ardaloedd, a gwaredu tir mewn ardaloedd eraill) byddai angen dealltwriaeth gliriach o flaenoriaethu'r sefydliad a chyfraniad yr ystad i gefnogi'r blaenoriaethau hynny. Ar hyn o bryd, er bod gan y Comisiwn bolisi ar gyfer achosion o waredu coetiroedd ad hoc a all godi, nid oes ganddo strategaeth glir ar gyfer adleoli’r ystad dros gyfnod hwy er mwyn sicrhau bod lleoliad a strwythur yr ystad yn briodol i anghenion ac amcanion nawr ac yn y dyfodol. Hefyd, o dan y trefniadau ariannol cyfredol â Llywodraeth y Cynulliad, ni all y Comisiwn ddefnyddio unrhyw dderbyniadau o werthiannau y tu hwnt i'r flwyddyn waredu.

2.35 Mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn yr Alban wedi datblygu Polisi Strategol pum mlynedd y cytunwyd arno ar gyfer adleoli ei ystad coedwigoedd ac felly mae wedi cysylltu â'i strategaeth waredu â rhaglen gaffael, ac mae'n rhagweld y bydd yn cynhyrchu tua £20 miliwn o werthu coetiroedd dros ben i'w hailfuddsoddi mewn caffael tir.

**2.36** Gan gydnabod hyn, mae'r Comisiwn wrthi'n dadansoddi ei bortffolio fel asesiad sylfaenol o'r ffordd y mae ardaloedd unigol o'r ystad coedwigoedd yn cyflawni yn erbyn amcanion craidd.

## Mae'r Comisiwn wedi rhoi sylfeini priodol ar waith, ond mae angen iddo ddatblygu ei brosesau cynhyrchu coed ymhellach

### Mae'r Comisiwn yn datblygu ffyrdd newydd o lunio rhagamcanion

**2.37** Mae incwm coed yn cyfrif am gyfran sylweddol o gyfanswm incwm y Comisiwn (£8.7 miliwn yn 2006-2007 a £8.2 miliwn yn 2005-2006), sy'n ei gwneud yn hollbwysig bod gan y Comisiwn brosesau cadarn ar waith i sicrhau'r incwm mwyaf o werthu coed ac i gyflawni ei gynlluniau cynhyrchu. Mae'r Comisiwn yn gwerthu coed mewn dwy ffordd (Blwch 4), naill ai fel coed heb eu cymynu yn y goedwig neu fel coed sy'n cael eu cymynu a'u cyflwyno ar ymyl y ffordd (a elwir yn gynhyrchu uniongyrchol).

**Blwch 4 – Cynhyrchu uniongyrchol a gwerthu coed heb eu cymynu**

Cynhyrchu uniongyrchol – mae'r Comisiwn yn gwerthu coed wrth ymyl y ffordd ac yn cynaeafu ei hun, naill ai drwy dimau cynaeafu a gyflogir yn uniongyrchol (fflyd) neu drwy ddefnyddio contractwyr.

Gwerthu coed heb eu cymynu – coed a werthir i gwsmeriaid heb eu cymynu ac mae'r cwsmer yn trefnu'r holl waith cynaeafu.

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru*

**Ffigur 15 – Prosesau'r Comisiwn i gynllunio ei waith cynhyrchu coed**

**Cynlluniau Dylunio Coedwig**
- Wedi'u datblygu gan Ranbarthau Coedwigoedd.
- Wedi gosod gweledigaeth hirdymor ar gyfer ardaloedd o goedwig.
- Wedi'u cymeradwyo gan y tîm Grantiau a Thrwyddedau Rheoliadol – i nodi eu bod yn cydymffurfio â Safon Coedwigaeth y DU.

↓

**Cynllun Cynhyrchu 'U18'**
- Cynllun cynaeafu pum mlynedd i gyflawni Cynllun Dylunio Coedwig.
- Sicrhau bod y Comisiwn yn darparu 770,000 metr ciwbig i ddiwydiant bob blwyddyn rhwng 2005 a 2011.
- Wedi'i ategu gan gontractau coed hirdymor â'r rhai sy'n prynu coed.
- Yn y dyfodol, caiff 'U18' ei gefnogi gan ddiogelwch llif arian parod.

↓

**Strategaeth Farchnata a Chynllun Gwerthu**
- Nodi sut y bydd y Comisiwn yn gwerthu cyfaint y coed y cytunwyd arno mewn unrhyw flwyddyn benodol.

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru*

2.38 Dengys Ffigur 15 y prosesau sy'n sail i waith cynhyrchu coed y Comisiwn bellach. Mae'r cynllun U18 pum mlynedd, sy'n ategu Cynlluniau Dylunio Coedwig y pedwar Rhanbarth Coedwig ar gyfer pob ardal o goedwig, yn gynllun sy'n ymestyn dros gyfnod hwy na'r cynlluniau dwy flynedd a ddefnyddir yn Lloegr a'r Alban, a ddylai helpu'r Comisiwn i leihau natur gyfnewidiol ei gynhyrchu. Mae'r cynllun U18 wrthi'n cael ei ddatblygu i gynnwys rhagamcan arian parod ar sail cyfradd ddisgowntio net a ddylai alluogi cynllunwyr coedwigoedd i ddeall effeithiau penderfyniadau cynllunio ar gynhyrchu ac incwm.

### Mae contractau hirdymor â'r rhai sy'n prynu coed wedi arwain at rai manteision er bod y sector preifat yn parhau i fod yn bryderus ynglŷn â rhagamcanion coed


2.39 Un o amcanion allweddol eraill y Comisiwn yw cynnal diwydiant coed cynaliadwy yng Nghymru. Mae cwmnïau coed yn y sector preifat am i'r Comisiwn lunio rhagamcanion cywir, hirdymor o gyfaint y coed sy'n dod i'r farchnad fel y gallant gynllunio a thyfu busnesau cynaliadwy. Ers 1997 mae'r Comisiwn wedi cynnig contractau hirdymor i'r rhai sy'n prynu coed, sy'n gadarn ac yr ymddengys y byddant yn arwain at well gwerth am arian. Dyfernir y contractau hyn am rhwng pump a saith mlynedd, ac mae'r Comisiwn wedi sefydlu panel annibynnol i wneud penderfyniadau ynghylch pa gwmnïau y dylid dyfarnu contractau hirdymor iddynt. Mae gan y panel hwn gadeirydd annibynnol. Disgwylir i gwmnïau y dyfernir contractau hirdymor iddynt:

- fuddsoddi mewn technegau e-fusnes, fel y gall y Comisiwn sicrhau effeithlonrwydd mewn trafodion talu dros y cyfnod hwy; a
- sicrhau safonau uchel ar y safle, a thrwy hynny leihau'r angen i'r Comisiwn oruchwylio safleoedd.

2.40 Daeth y rhan fwyaf o'r cylch cyntaf o gontractau hirdymor i ben yn 2005-2006. Ymestynnodd y rhain dros gyfnod pan oedd y farchnad yn mynd ar i lawr, a olygai eu bod wedi rhoi mwy o sefydlogrwydd o ran incwm i'r Comisiwn ar adeg pan oedd amodau'r farchnad yn anffafriol. Nododd adolygiad Archwilio Mewnol gan Gomisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr yn 2006 fod contractau hirdymor yn gadarn ac yn seiliedig ar risg gyda chofrestr risg gynhwysfawr ar waith. Nod y cylch newydd o gontractau hirdymor a ddyfarnwyd yn 2007-2008 yw sicrhau nad yw ymrwymo i gontractau hirdymor yn atal y Comisiwn rhag manteisio ar brisiau coed cynyddol, gan fod gwerth y contractau hirdymor newydd yn gysylltiedig â phrisiau coed drwy fynegeion. Er bod pris sylfaenol y flwyddyn gyntaf yn hafal i bris y tendr, bydd prisiau yn y dyfodol yn adlewyrchu pris sylfaenol y tendr, ynghyd ag asesiad gan y Comisiwn o bris y farchnad yn y tymor hwy.

2.41 O'r 28 o gyflwyniadau gan y cyhoedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru a sefydlwyd fel rhan o'r astudiaeth hon, galwodd 19 ar y Comisiwn i wella'r ffordd y mae'n cynhyrchu coed a rheoli'r farchnad goed gan adlewyrchu pryderon ynglŷn â lleihad yn y cyflenwad o goed a digonolrwydd rhagamcanion o gynhyrchu a'r graddau y cedwid atynt. Er bod y sylwadau hyn o bosibl yn adlewyrchu pryderon ynglŷn â'r lleihad mewn cyfeintiau o goed a gynhyrchwyd yn sgîl problemau o ran gorgymynu yn 2004/2005 (paragraff 2.42), awgryma'r cyflwyniadau fod lle o bosibl i'r Comisiwn reoli disgwyliadau'r diwydiant coed yn well nawr ac yn y dyfodol, yn enwedig o ran faint o goed y bydd yn ei roi ar y farchnad. Ymhlith y pryderon penodol a godwyd gan y rhai a wnaeth sylwadau ar ein gwefan roedd:

- penderfyniad y Comisiwn i leihau faint o goed y mae'n ei roi ar y farchnad;



- biwrocratiaeth ganfyddedig y system contractau hirdymor; a'r
- ffordd y mae'r Comisiwn yn rheoli ei gwsmeriaid coed allweddol.

**Mae angen i'r Comisiwn arallgyfeirio o ran ei ffrydiau incwm er mwyn darparu ar gyfer incwm is o werthu coed sy'n codi o gyfeintiau llai er mwyn adlewyrchu problemau gorgynhyrchu**

**2.42** Fodd bynnag, er bod y Comisiwn wedi gosod rhai o'r sylfeini cywir, mae angen i fireinio rhai meysydd o'r broses gynhyrchu ymhellach. Nododd yr adroddiad diweddaraf ar ardystiad UKWAS yn 2006 fod angen i'r Comisiwn wneud addasiad i osgoi cymynu'r ardaloedd mwyaf proffidiol o'r goedwig er mwyn cynyddu incwm. Tynnodd yr adroddiad sylw at orgymynu yn 2004 a 2005, diffyg gwybodaeth wedi'i datblygu'n rhagweithiol i lunio rhagamcanion yn y tymor canolig a'r hirdymor a nifer o ragamcanion a oedd yn groes i'w gilydd. O ganlyniad, mae'r Comisiwn wedi cymryd nifer o gamau i wella'r ffordd y mae'n llunio rhagamcanion. Arweiniodd hyn at leihad yn ei ragamcan o lefelau cynhyrchu coed i 770,000 metr ciwbig y flwyddyn am y cyfnod 2007 i 2012.

**2.43** Nododd ein gwaith archwilio hefyd fod y Comisiwn wedi caniatáu tynnu mwy o goed o'r goedwig na'r cyfeintiau a nodwyd mewn contractau, sy'n cynyddu'r risg nad yw'r Comisiwn yn cael y pris gorau wrth werthu ei goed. Yn 2005-2006 argymhellwyd gennym y dylai'r Comisiwn adolygu contractau tynnu coed yn ffurfiol pan gyrhaeddir y cyfeintiau amcangyfrifedig o goed. Yna câi'r contractau eu hailnegodi yn ôl yr angen ar sail prisiau cyfredol y farchnad. Yn 2006-2007, daeth ein profion archwilio ar gontractau coed ar draws problemau eraill y rhoddodd y Comisiwn esboniadau yn eu cylch (Ffigur 16).

**2.44** Er bod y Comisiwn yn dadlau ei bod yn fwy buddiol yn fasnachol weithiau i fynd y tu hwnt i werthoedd contractau, nid yw'n gwybod faint o incwm posibl y mae'n ei golli o'r coed a dynnir ar ôl i gontract ddod i ben, ac nid oes ychwaith sail gadarn dros benderfyniadau o'r fath. O ganlyniad, mae angen i'r Comisiwn gynnal ymarfer cost a budd ar gontractau coed diweddar i ganfod yr effaith ar incwm o

**Ffigur 16 – Canlyniadau o brofion archwilio o gontractau coed yn 2006-2007**

| Canfyddiad Archwilio | Esboniad y Comisiwn |
|---|---|
| Nid oedd gan y Comisiwn brosesau digon cadarn ar waith ar gyfer monitro faint o goed a dynnwyd o'r ystad coedwigoedd o'i gymharu â'r cyfeintiau a nodwyd yn y contract, a thynnwyd cryn dipyn yn fwy o goed o'r ystad coedwigoedd na'r hyn a nodwyd yn y contract. | Dadl y Comisiwn yw bod tynnu mwy o goed nag a nodir yn y contract yn digwydd am fod coed heb eu cymynu yn cael eu gwerthu ar sail cyfaint amcangyfrifedig ac y byddai'r costau a fyddai'n gysylltiedig â rhoi prosesau ar waith i gael gwell amcangyfrif o faint o goed sydd ar unrhyw safle lle gwerthir coed heb eu cymynu yn sylweddol. Dadla'r Comisiwn hefyd pe bai'n rhoi'r gorau i dynnu coed yn ôl y cyfaint yn y contract byddai ganddo ardaloedd o goed yn weddill yn yr ardaloedd llai proffidiol (am fod contractwyr yn cymynu'r coed gorau sy'n rhad eu cymynu gyntaf) ac felly y bydd y rhain wedyn yn fwy anodd eu gwerthu gan eu bod yn fwy costus i'w trin ac felly y bydd y Comisiwn yn cael pris is. Dadl y Comisiwn yw ei bod yn fwy buddiol yn fasnachol gorfodi contractwyr i gymynu ar y safle cyfan tra'n derbyn nad yw'r cyfeintiau a dynnir bob amser yn cydymffurfio â'r cyfaint a nodir, na chyflwyno arferion i sicrhau bod yr hyn a dynnir yn cydymffurfio â gofynion y contract. |
| Ar gyfer rhai contractau coed, tynnwyd coed o'r ystad coedwigoedd ar ôl i'r contract unigol ddod i ben. | Dadla'r Comisiwn ei bod yn fwy buddiol yn fasnachol mewn marchnad sy'n mynd ar i lawr, ymestyn y contract nag aildendro. |


*Ffynhonnell: Profion archwilio ariannol Swyddfa Archwilio Cymru*

ymestyn dyddiadau terfynu contractau a thynnu mwy o goed na'r cyfaint a nodir. Byddai hyn yn caniatáu i'r Comisiwn sicrhau'n well bod penderfyniadau perthnasol yn sicrhau'r incwm coed gorau posibl, a deall yn well sut y gallai reoli contractau coed yn fwy cost effeithiol.


**2.45** Mae gwendidau hefyd mewn rheolaethau a chanllawiau i staff gan nad yw'r Comisiwn wedi pennu trothwy y gall staff awdurdodi meintiau y tu hwnt i lefelau contractau yn unol ag ef. Mae'r Comisiwn yn derbyn bod angen sicrhau pan gaiff mwy o goed eu tynnu na'r hyn a nodir yn y contract y cytunwyd arno y gwneir hyn drwy benderfyniad wedi'i reoli ac wedi'i gynllunio, ac wedi'i ategu gan sail dystiolaeth gadarn.

**2.46** Ar wahân i ddatblygu dulliau mwy sensitif o ragweld prisiau coed a rheoli risgiau cysylltiedig, efallai drwy fodel cyfrifiadurol yn hytrach na systemau â llaw, mae angen i'r Comisiwn fynd i'r afael â nifer o faterion eraill mewn perthynas â chynhyrchu coed. Mae'r Comisiwn yn monitro pris yn rheolaidd gan ddefnyddio gwybodaeth o nifer o fynegeion. Mae'r Comisiwn hefyd yn defnyddio dangosyddion pellach oddi wrtho i farnu sut y gall prisiau symud mewn gwerthiannau yn y dyfodol ac ymhlith y rhain mae ffactorau macro-economaidd, cyfraddau cyfnewid a nifer y tai newydd sy'n cael eu codi yn y DU i ragweld y galw am goed wedi'u trin, sef y prif ddefnydd o foncyffion. Mae'r tueddiadau o ran prisiau a geir gan y Comisiwn yn debyg i'r ddwy wlad arall sy'n rhan o Gomisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr (Ffigur 17), sy'n awgrymu bod y Comisiwn yn monitro prisiau o leiaf yr un mor effeithiol â'r ddwy wlad arall.


**Ffigur 17 – Rhwng mis Ionawr 2005 a mis Rhagfyr 2007, cafodd y Comisiwn brisiau dosbarthu cyfartalog cymaradwy â Lloegr a'r Alban**




*Ffynhonnell: 'Prisiau Uned Dosbarthu Coed' Comisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr*




## Ffigur 18 – Gwnaeth y maint o goed a gynhyrchir drwy gynhyrchu uniongyrchol a gwerthu coed ymwahanu ond mae'r bwlch yn awr yn cau




*Ffynhonnell: Cyfrifon Blynyddol a system e-gyllid 2004-2005 i 2007-2008 Comisiwn Coedwigaeth Cymru*

## Ffigur 19 – Proffidioldeb fesul uned dulliau gwerthu coed heb eu cymynu a chynhyrchu uniongyrchol




*Ffynhonnell: Cyfrifon Blynyddol a system e-gyllid 2004-2005 i 2007-2008 Comisiwn Coedwigaeth Cymru. Dengys hwn broffidioldeb fesul uned a werthir (Elw gros wedi'i rannu â'r cyfaint a werthir)*

**2.47** Cafwyd tua'r un maint o werthiannau yn fras drwy werthu coed heb eu cymynu a chynhyrchu uniongyrchol yn 2004-2005. Yn sgîl mwy o werthu ar goed heb eu cymynu yn 2005-2006, mae'r ddau ddull wedi'u cysoni'n well erbyn hyn a dim ond o ychydig y gwerthir mwy o goed heb eu cymynu (Ffigur 18).

**2.48** Dros yr un cyfnod, bu proffidioldeb fesul uned o werthu coed heb eu cymynu ychydig yn uwch na chynhyrchu uniongyrchol ond mae'r ddau fwy neu lai yn debyg erbyn hyn (Ffigur 19).

**2.49** Dadla'r Comisiwn nad yw ei strategaeth ar gyfer y cymysgedd o ddulliau cynhyrchu bob amser yn ei gwneud yn bosibl iddo gael yr elw mwyaf posibl o werthiannau. Dadla fel sefydliad yn y sector cyhoeddus nad gwneud yr elw mwyaf posibl yw ei unig ddiben a bod yn rhaid iddo ystyried ffactorau eraill megis:

- cadw at ragamcanion cynhyrchu;
- gweithio o fewn cynlluniau dylunio a bennwyd; a
- bod yn sail i'r diwydiant/marchnad goed.

**2.50** Hefyd, mae'r Comisiwn wedi nodi nifer o risgiau sy'n gysylltiedig â symud tuag at werthu ei holl goed heb eu cymynu, a nifer o fanteision a ddaw yn sgîl cynhyrchu uniongyrchol (Ffigur 20). Byddai unrhyw ddadansoddiad ar lefel facro o broffidioldeb y ddau ddull cynhyrchu hyn i gefnogi'r strategaeth farchnata yn gymhleth a byddai angen iddo ystyried newidynnau megis:


- y mathau o gnwd i'w drin;
- amodau'r safle;
- maint y coed;

**Ffigur 20 – Risgiau a manteision cynhyrchu uniongyrchol a gwerthu coed heb eu cymynu**

| | |
|---|---|
| Cynhyrchu uniongyrchol | ■ Mewn rhai ardaloedd o'r ystad coedwigoedd sy'n anodd eu trin, nid yw coed heb eu cymynu yn atyniadol i ddarpar gynigwyr. Felly mae angen cynhyrchu uniongyrchol i sicrhau bod ardaloedd anodd eu trin yn cael eu cynaeafu (a'u hailstocio wedyn) yn unol â'r Cynlluniau Dylunio Coedwig. Mae hyn yn ei dro yn sicrhau bod y Comisiwn yn gallu cyflawni ei amcanion ar gyfer unrhyw ardal benodol o'r ystad.<br>■ Mae cynhyrchu uniongyrchol yn ei gwneud yn bosibl i'r Comisiwn arloesi gyda dulliau newydd ond y contractwyr sy'n penderfynu sut y maent yn gweithredu pan werthir coed heb eu cymynu.<br>■ Mae cynhyrchu uniongyrchol yn rhoi mwy o reolaeth i'r Comisiwn dros Iechyd a Diogelwch ar safleoedd am fod ganddo reolaeth lwyr drostynt.<br>■ Lle i ddatblygu marchnadoedd newydd, a chynnal marchnad fwy cystadleuol nag y gellid ei wneud drwy werthu coed heb eu cymynu yn unig. |
| Gwerthu coed heb eu cymynu | ■ Mae peth amharodrwydd ymhlith cwsmeriaid i brynu coed heb eu cymynu.<br>■ Efallai y bydd symud tuag at werthu coed heb eu cymynu yn amharu ar farchnad y contractwyr a'r cynaeafwyr ac yn arwain at fusnesau yn methu a cholli swyddi.<br>■ Mae'n bosibl na fydd lleihad mewn incwm o gynhyrchu coed uniongyrchol yn arwain at leihad llawn cyfatebol mewn costau gan y gallai fod yn anodd ad-drefnu staff.<br>■ Y gallu i gynnig contractau newydd i farchnadoedd sy'n bodoli eisoes yn lleihau.<br>■ Gallu annigonol o fewn y sector cynaeafu preifat i ymateb i unrhyw symudiad pellach tuag at werthu coed heb eu cymynu.<br>■ Cynnydd posibl mewn prisiau drwy ymwneud canolwyr.<br>■ Colli gwybodaeth am gynhyrchu, gyda'r cyfle cysylltiedig i brofi'r farchnad a cholli hygrededd o bosibl.<br>■ Risgiau cynyddol o bosibl o niwed i'r amgylchedd a risgiau iechyd a diogelwch. |

*Source: Papers to the FCW Management Board, June and October 2004*

**Ffigur 21 – Maint Elw Gros dulliau gwerthu coed heb eu cymynu a chynhyrchu uniongyrchol (elw gros wedi'i rannu â throsiant)**




*Ffynhonnell: Cyfrifon Blynyddol a system e-gyllid 2004-2005 i 2007-2008 Comisiwn Coedwigaeth Cymru*


- y gwahanol farchnadoedd ar gyfer coed;
- strategaeth farchnata ehangach y Comisiwn; a'r
- systemau coedamaeth ar bob safle.

**2.51** Hefyd, gan ystyried costau cynhyrchu pob dull gwerthu, mae gwerthu coed heb eu cymynu yn cynnig elw gros dipyn yn uwch na chynhyrchu uniongyrchol, gan awgrymu bod hwn yn ddull mwy cost effeithiol. Dengys Ffigur 21 yr amrywiad o ran maint elw gros, sy'n cyfrifo elw gros fel canran o drosiant. Nododd y Comisiwn fod cost uwch cynhyrchu uniongyrchol, a'r elw is o ganlyniad, yn codi'n bennaf oherwydd y ffactorau a nodwyd ym mharagraff 2.50. Hefyd, noda fod cynhyrchu uniongyrchol ar y cyfan yn cynnwys cyfran uwch o'r ardaloedd mwy sensitif y mae angen eu rheoli'n ddwys ond dim ond os bydd maint yr elw yn rhesymol yr eir ati i werthu coed heb eu cymynu.

**2.52** O ganlyniad, mae lle i ystyried y cyfle posibl i newid y cydbwysedd rhwng gwerthu coed heb eu cymynu a chynhyrchu uniongyrchol, lle y bo'n briodol yng ngoleuni'r ffactorau a nodir ym mharagraff 2.49 a dangos yn glir y rhesymau dros y rhaniad yn strategaeth farchnata'r Comisiwn.

**2.53** Nid yw'r Comisiwn wedi cynnal dadansoddiad annibynnol a chynhwysfawr o gost a budd i gefnogi'r cydbwysedd presennol rhwng cynhyrchu uniongyrchol a gwerthu coed heb eu cymynu ac i ymgorffori'r ffactorau uchod. Mae gan y Comisiwn strategaeth farchnata

**Ffigur 22 – Mae incwm net y Comisiwn o goed fesul mil hectar wedi gostwng o fod yr incwm uchaf i fod yr incwm isaf yn ystod y pum mlynedd diwethaf, o'i gymharu â Lloegr a'r Alban**





*Ffynhonnell: 'Forestry Facts & Figures – A summary of Statistics about Woodland & Forestry in Great Britain' 2007, 2006, 2005, 2004, 2003 ac Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon pob gwlad ar gyfer 2002-2003 i 2006-2007*

ond mae angen iddo ychwanegu ati i gefnogi'r cydbwysedd presennol ac yn y dyfodol rhwng cynhyrchu uniongyrchol a gwerthu coed heb eu cymynu.

**2.54** Dengys Ffigur 22 fod incwm net y Comisiwn fesul mil hectar wedi gostwng o fod yr incwm uchaf o blith y tair gwlad yn 2002-2003 i'r incwm isaf yn 2006-2007. Mae'r cyfeintiau o goed a werthwyd yng Nghymru wedi gostwng yn sylweddol ers 2002-2003 oherwydd oedran a strwythur cyffredinol y coedwigoedd, ond maent wedi aros yn gymharol sefydlog yn Lloegr a'r Alban neu wedi cynyddu ychydig. Fodd bynnag, nid yw'r lleihad mewn incwm gros o werthu coed yng Nghymru wedi arwain at leihad cyfatebol yng nghost gwerthiannau. Mae hyn yn wahanol i Loegr a'r Alban lle mae incwm gros wedi cynyddu dros y cyfnod ond mae cost gwerthiannau wedi aros yn gymharol sefydlog ers 2002-2003, a thrwy hynny gynyddu incwm net. Mae'r Comisiwn wedi nodi bod cost gwerthiannau wedi bod yn uwch yng Nghymru oherwydd arbedion maint llai sy'n codi o'r lleihad yn y cyflenwad o goed i 770,000 $m^3$ o 2004-2005 (o lefel flaenorol o 1,200,000 $m^3$).

**2.55** Er bod rhesymeg ddilys dros yn y gostyngiad yn lefel derbyniadau coed, mae'n amlwg hefyd fod angen i'r Comisiwn nodi sut y bydd yn ymateb i'r risgiau i barhad busnes a allai godi o leihau incwm coed. Er bod y Comisiwn wedi datblygu marchnadoedd ychwanegol (megis y rhai sy'n ymwneud â biodanwyddau) a'i fod yn ceisio datblygu rhai eraill (er



**Ffigur 23 – Rhwng 2004-2005 a 2006-2007, gostyngodd lefelau staffio'r Comisiwn ond cynyddodd lefelau yn y Comisiwn Coedwigaeth yn Lloegr a'r Alban**

| | 2004-2005 | 2005-2006 | 2006-2007 | Change |
|---|---|---|---|---|
| Cymru | 408 | 379 | 373 | -9% |
| Yr Alban | 1,027 | 1,029 | 1,051 | 2% |
| Lloegr | 1,104 | 1,143 | 1,156 | 5% |

*Ffynhonnell: Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2004-2005 i 2006-2007 ar gyfer y tair gwlad*

enghraifft drwy benodi rheolwr datblygu llydanddail rhan-amser), ni fydd y raddfa fach yn gwneud iawn am yr incwm a gynhyrchir drwy gynhyrchu coed ar raddfa fawr. Er enghraifft, gwerth contract cychwynnol y Comisiwn â melin bapur yn Shotton i ddarparu malurion oedd £4,000 (Astudiaeth Achos Dd). Nid yw'r Comisiwn yn ymgymryd ag unrhyw gynllunio senario ar gyfer y tymor canolig a'r hirdymor i ystyried unrhyw ostyngiad (neu gynnydd) yn incwm coed. O ganlyniad, tueddir i ymdrin â hyn drwy strategaethau ad hoc neu fyrdymor. Bydd angen i'r Comisiwn ddatblygu cynllunio senario clir i asesu'r cyfleoedd a'r risgiau sy'n codi o incwm coed sy'n gostwng neu'n cynyddu, yn enwedig os yw'r strategaeth *Coetiroedd i Gymru* ar ei ffurf ddiwygiedig yn newid y cydbwysedd rhwng canlyniadau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol coedwigaeth yng Nghymru ymhellach.

## Mae angen cynllunio gweithlu effeithiol i ystyried y niferoedd llai o staff a chyflawni agenda ehangu'r Comisiwn

**2.56** Rhwng 2004 a 2007, gostyngodd nifer staff y Comisiwn naw y cant, ond cynyddodd lefelau staff yn Lloegr a'r Alban dros yr un cyfnod (Ffigur 23). Mae Cynllun Gweithredu Staffio'r Comisiwn yn cynnwys targed i leihau lefelau staffio ymhellach, i 356, yn 2008-2009. Noda'r Comisiwn fod y bwriad i leihau lefelau staffio yn adlewyrchu effaith y setliad ariannol y cytunwyd arno gyda Llywodraeth y Cynulliad.

**2.57** Ar ôl cyflawni agenda ehangach wrth i nifer y staff leihau, mae'r Comisiwn yng Nghymru a Chomisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr wedi mynegi pryder ynglŷn â ph'un a fydd y Comisiwn yn gallu darparu ar gyfer agenda ehangu, er enghraifft o'r strategaeth *Coetiroedd i Gymru* ar ei newydd wedd, heb adnoddau ychwanegol. Eto i gyd, mae cyflawni agenda ehangu coedwigaeth yng Nghymru yn her i gynllunio gweithlu'r Comisiwn yng nghyd-destun pwysau ar gyllideb a maint y gweithlu. Bydd angen i'r Comisiwn sicrhau bod ganddo'r cymysgedd iawn o sgiliau i ymgymryd â'r rôl arallgyfeirio. Mae Cynllun Gweithredu Staffio 2006-2012 y Comisiwn yn nodi sut y mae'r Comisiwn yn bwriadu cyflawni ei amcanion craidd (fel y'u nodwyd yn y Cynllun Corfforaethol), ac ar yr un pryd gweithredu o fewn y setliad ariannol y cytunwyd arno gyda Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r Cynllun Gweithredu Staffio hefyd yn nodi ei gynlluniau olyniaeth i sicrhau bod cymysgedd a dosbarthiad priodol o sgiliau yn y Comisiwn.

**2.58** Fodd bynnag, mynegodd rhai staff bryder ynglŷn â'r lefelau staffio presennol a'r risg y bydd y Comisiwn yn ceisio gwneud gormod (Ffigur 24). Dadl y staff oedd y dylai'r Comisiwn flaenoriaethu ei amcanion i fynd i'r

**Ffigur 24 – Mynegodd staff y Comisiwn bryderon ynglŷn â gallu'r gweithlu**

Pan ofynnwyd i gyfranogwyr nodi meysydd i'w gwella gwnaed y sylwadau canlynol:

- 'Bydd angen digon o staff i gyflawni'r amcanion hyn.'
- 'Mwy o staff. Rydym wedi bod yn colli staff, nid drwy ddileu swyddi ond yn aml ni wneir penodiadau newydd pan fydd pobl yn gadael. Fodd bynnag mae llwythi gwaith bob amser yn cynyddu, er enghraifft wrth i ofynion Iechyd a Diogelwch wella.'
- 'Dealltwriaeth bod angen yr adnoddau er mwyn i bolisïau gael eu gweithredu a bod angen mwy o staff i gyflawni hyn.'
- 'Allwn ni ddim parhau i ddarparu gwasanaethau os caiff swyddi eu dileu o hyd.'
- 'Mae angen mwy o staff ac adnoddau gweinyddol, rydym yn ymgymryd â mwy o dasgau, ond yn anffodus rydym yn gorfod ymdrin ag amcanion ychwanegol (sy'n creu mwy o dasgau) gyda'r un staff fwy neu lai.'

*Ffynhonnell: Grwpiau ffocws Swyddfa Archwilio Cymru â staff Comisiwn Coedwigaeth Cymru*

afael â risgiau i allu'r gweithlu. Mynegodd rhanddeiliaid eraill bryderon tebyg. Mae hyn yn adlewyrchu'r angen i'r Comisiwn ddatblygu gwell dealltwriaeth o'i flaenoriaethau sefydliadol fel y gall gydbwyso'r gallu presennol a galw yn well.

## Mae angen rheoli newid yn effeithiol er mwyn sicrhau newid a sicrhau bod gan randdeiliaid mewnol ac allanol ddealltwriaeth glir o gyfeiriad strategol y Comisiwn

### Yn fewnol, mae angen rheoli newid yn effeithiol er mwyn uno staff o amgylch cyfeiriad strategol clir

**2.59** Dengys Ffigur 25 fod ein grwpiau ffocws o staff wedi canfod nad oeddent yn teimlo bod gan y Comisiwn flaenoriaethau sefydliadol clir, a nodwyd tystiolaeth o raniad diwylliannol o fewn y Comisiwn yn codi o densiynau clir ynglŷn â ffocws priodol y sefydliad ym marn y staff eu hunain. Yn fras, roedd y tensiynau hyn yn ymwneud â'r graddau y dylai'r Comisiwn ymgymryd â gweithgareddau ar wahân i gynhyrchu coed.

**2.60** Yn ddiweddar penderfynodd y Comisiwn sefydlu tîm Polisi a Rhaglen (paragraffau 2.6 a 2.8), sy'n cyfarfod yn y Swyddfa Genedlaethol yn Aberystwyth, y bwriedir iddo ddatblygu cyfeiriad corfforaethol strategol a phrosesau busnes cryfach ac y bydd ganddo 16.24 staff sy'n gyfwerth ag amser llawn pan fydd wedi'i staffio'n llawn. Nid yw rhai aelodau o staff yn deall yn llawn yr angen am y newidiadau diweddar yn strwythur y Comisiwn, gan weld newid o'r fath yn arwydd o orbenion mewnol cynyddol a datblygiad strwythur sy'n rhy drwm ar y brig (gyda gormod o staff band cyflog uwch), ar draul staff coedwigaeth a gweinyddol yn y rheng flaen. Fel rhan o'n dadansoddiad o grwpiau ffocws staff, nodwyd rhestr o'u meysydd gwella y dylid rhoi blaenoriaeth iddynt (Atodiad 4, Ffigur 2); roedd yr angen i ailddosbarthu adnoddau staffio – yn benodol er mwyn sicrhau cydbwysedd priodol rhwng graddau gwahanol o staff ac atal strwythur rheoli sy'n rhy drwm ar y brig rhag datblygu – yn drydydd ar y rhestr o flaenoriaethau. Roedd yn amlwg bod meddylfryd 'Ni a Nhw' yn datblygu ynglŷn â'r broblem hon, a hefyd y graddau y dylai'r Comisiwn symud y tu hwnt i'w rôl draddodiadol sef cyflenwi'r diwydiant coed.

**2.61** Disgrifiodd rhanddeiliaid y Comisiwn fel partner a oedd yn dangos diddordeb, yn agored i safbwyntiau eraill ac yn sefydliad a oedd yn cyfathrebu'n dda; pwynt a adleisiwyd gan staff a nododd fod gweithio mewn partneriaeth yn un o'r meysydd lle roedd y Comisiwn yn perfformio'n dda. Fodd bynnag, ym marn staff roedd cyfathrebu mewnol yn broblem fawr; roedd yr angen i wella cyfathrebu mewnol rhwng gwahanol feysydd



## Ffigur 25 – Tensiynau diwylliannol o fewn y Comisiwn ynglŷn â'i ddiben craidd

Yn ystod y grwpiau ffocws, gwnaed y sylwadau canlynol:

- Ffocws clir ynglŷn â'n pwrpas – Comisiwn Coedwigaeth = coed – beicio mynydd = Cyngor Chwaraeon (ee) – canolfan ymwelwyr = menter breifat = syml.
- Peidio â meddwl mai cynhyrchu coed yw popeth. Mae gan y rhan fwyaf o staff sy'n ymwneud â chynhyrchu coed agwedd wych tuag at ein sefydliad amlbwrpas, ond mae criw bach o goedwigwyr hen ffasiwn sy'n parhau i gwyno bod yr holl bethau eraill a wnawn yn rhyw ffasiwn dros dro ac mae hyn yn gwneud i bobl golli cymhelliant.
- Mae'r diwylliant yn un ... lle mae diffyg ymddiriedaeth mawr yn y rhai ohonom sydd wedi dod o fyd ehangach coedwigaeth, yn hytrach na chroesawu profiad[au] a chymhwyster [cymwysterau] gwahanol, maent yn lladd ar bopeth a wnawn yn y gobaith y byddwn yn digalonni.
- Mae gormod o bobl yn ystyried rheoli coedwig yn rhywbeth craidd a phopeth arall yn rhywbeth braf i'w gael, yn hytrach na chydnabod bod gennym fel sefydliad graidd eang iawn.
- Cynhyrchu coed yw coedwigaeth – cofiwch hynny – heb gynhyrchu coed yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol fydden ni.
- Mae'r sefydliad wedi bod yn profi newid diwylliant yn ddiweddar – mae anfodlonrwydd mewn rhai meysydd ynglŷn â'r canlyniad a rhwystredigaeth ynglŷn â maint y newidiadau i feysydd busnes traddodiadol y Comisiwn Coedwigaeth - rhy gyflym i rai, rhy araf i eraill.
- Mae'r Comisiwn yn dal i ganolbwyntio'n llawr ar gynhyrchu coed fel ei unig fusnes – diffyg gwerthfawrogiad drwy'r sefydliad o'r potensial ehangach.
- Ymddengys bod y Comisiwn am ganolbwyntio ar reoli coetiroedd fel dibyn ynddo'i hun.
- Mae [angen] dychwelyd at arferion coedamaeth gan arbenigwyr hyfforddedig a phrofiadol, gan mai o'r arferion blaenorol hyn a ddaeth holl fuddiannau'r goedwig a gawn nawr.
- Y nodweddion unigryw a gynhyrchwyd gan y Comisiwn Coedwigaeth yw coedwigoedd. Ni ddylem byth anghofio'r amryw gyfleoedd a ddaw yn sgîl hyn ac mae angen [i ni] barhau i weithio ar y cysyniad sylfaenol.

*Ffynhonnell: Grwpiau ffocws Swyddfa Archwilio Cymru â staff Comisiwn Coedwigaeth Cymru*

swyddogaethol yn dod ail yn ein rhestr o ddeg maes i'w wella. Yn fwy penodol, teimlai'r rhai a gymerodd ran yn ein grwpiau ffocws fod unedau cost amrywiol o fewn y Comisiwn (megis Cynaeafu a Marchnata Cymru a'r Rhanbarthau Coedwigoedd) yn tueddu i weithio'n annibynnol heb gyfathrebu'n effeithiol. Nid ystyrid bod y sefydliad yn gweithredu fel tîm ac nid oedd gwybodaeth – gwybodaeth sylfaenol megis rolau unedau gwahanol – yn cael ei lledaenu drwy'r sefydliad.

**2.62** O ganlyniad mae angen i'r Comisiwn sicrhau bod ei gyfathrebu mewnol mor effeithiol â'i dechnegau i ymwneud a chyfathrebu â rhanddeiliaid allanol. Gwnaeth staff a fu'n bresennol yn ein grwpiau ffocws nifer o awgrymiadau ynglŷn â sut i wella cyfathrebu mewnol, a rhannwyd pob un ohonynt gyda Chyfarwyddwr y Comisiwn. Mae tensiynau mewnol ynglŷn â diben, pryderon staff ynglŷn â'r ffordd y dosberthir adnoddau staffio a methiant canfyddedig cyfathrebu mewnol oll yn awgrymu bod angen arweiniad effeithiol a gweladwy i fynegi prif ddiben y sefydliad yn glir, a rhoi rhesymeg glir dros benderfyniadau allweddol. Yn wir mae'r staff eu hunain wedi galw am fwy o gyfeiriad ac arweiniad mwy gweladwy; roedd yr angen i'r Comisiwn nodi ei amcanion craidd yn glir yn bedwerydd ar y rhestr o feysydd gwella y dylid rhoi blaenoriaeth iddynt (Atodiad 4, Ffigur 2). Gwnaed nifer o sylwadau hefyd yn galw ar uwch staff i fod yn fwy uchel eu proffil yn fewnol er mwyn dangos gweledigaeth a rhoi cyfeiriad i staff y Comisiwn.

**2.63** Mae lle hefyd i'r Comisiwn feithrin diwylliant cryfach o ddysgu gwersi yn fewnol yr un mor effeithiol ag y mae'n eu dysgu o sefydliadau allanol. Canfuwyd nad yw gwersi wedi cael eu dysgu a'u lledaenu'n gyson yn fewnol. Er enghraifft, costiodd Cydcoed (rhaglen y

Comisiwn a ariennir gan yr UE i wella mynediad i fannau gwyrdd a choetir mewn cymunedau difreintiedig) £16 miliwn ond ni chafodd ariannu ar gyfer gwaith monitro parhaus ei gynnwys yng nghostau'r prosiect. Arweiniodd hyn at ddiffyg data sylfaenol, sydd yn ei dro wedi creu anawsterau o ran y gwerthusiad terfynol o'r rhaglen sy'n cymryd amser i'w baratoi.

**2.64** Yn yr un modd, er bod y prosiect caffael ffermydd gwynt diweddar yn faes gwaith newydd i'r Comisiwn, nid yw wedi nodi nac wedi lledaenu'r pwyntiau dysgu o'r ymarfer hwn, sy'n adlewyrchu diffyg cydlynu cyffredinol o ran caffael. Drwy fethu â nodi'r gwersi a ddysgwyd o'r prosiect caffael ffermydd gwynt a'u rhannu â meysydd eraill o'i fusnes, mae'r Comisiwn mewn perygl o golli'r wybodaeth hon, wrth i unigolion adael y sefydliad neu wrth i arbenigedd o'r fath gael ei gadw o fewn uned fusnes benodol.

**2.65** Nid yw hynny yn golygu nad oes gan y Comisiwn systemau ar waith i nodi a dysgu gwersi pwysig oddi wrth bartneriaid allanol. Mae'r Comisiwn wedi gweithio'n effeithiol gydag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru i nodi sut y dylid gwella ei ddulliau cynaeafu a lleihau eu heffeithiau anffafriol ar ansawdd pridd a dŵr. Mae gwaith arall gydag Asiantaeth yr Amgylchedd wedi peri i'r Comisiwn ailystyried sut y mae'n defnyddio plaladdwyr i reoli clefydau mewn coed ifanc yn sgîl ymchwil gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a ddangosodd fod y plaladdwyr hyn yn wenwynig i bysgod. Mae'r Comisiwn hefyd wedi defnyddio proses ardystio UKWAS i ysgogi dysgu a gwella.

### Yn allanol, mae angen i'r Comisiwn reoli disgwyliadau newydd a chroes o bosibl ymhlith ei randdeiliaid

**2.66** Dangosodd ein dadansoddiad o ddata a gyflwynwyd gan aelodau'r cyhoedd flaenoriaethau croes rhanddeiliaid allanol, gyda nifer o ymatebwyr yn amau a yw'r Comisiwn wedi cael y cydbwysedd iawn rhwng cyflenwi'r diwydiant coed a sicrhau manteision cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach o'r ystad coedwigoedd. Mae Ffigur 26 yn rhoi nifer o safbwyntiau a disgwyliadau allanol o'r Comisiwn, sy'n adlewyrchu disgwyliadau a safbwyntiau croes ynglŷn â datblygiad polisi coedwigaeth yng Nghymru. Cawsom ohebiaeth fanwl ychwanegol gan aelodau'r cyhoedd a wrthwynebai ddatblygiadau ffermydd gwynt ar dir y Comisiwn. Efallai y bydd ceisio ateb gofynion croes o'r fath yn mynd yn fwy cymhleth os bydd y strategaeth *Coetiroedd i Gymru* ar ei ffurf ddiwygiedig yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn wneud newidiadau pellach yn y cydbwysedd rhwng canlyniadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol coedwigaeth.

**2.67** O ganlyniad, bydd angen i'r Comisiwn sicrhau y gall chwilio'r gorwel i nodi unrhyw ofynion (a risgiau) tebygol yn y dyfodol a ddaw yn sgîl portffolio ehangach o gyfrifoldebau a fframwaith deddfwriaethol newydd, yn ogystal â cheisio nodi ffyrdd effeithiol o gyfleu unrhyw newidiadau yn ei flaenoriaethau a'i wasanaethau sy'n codi o bolisïau Llywodraeth y Cynulliad.



## Ffigur 26 – Mae gan randdeiliaid allanol flaenoriaethau croes i'r Comisiwn

**Mae blaenoriaethau'r diwydiant coed yn rhai economaidd ar y cyfan**

- ‘Cydnabyddir bod rôl y Comisiwn Coedwigaeth wedi newid yn sgîl datganoli. Rydym wedi gweld datblygiad y Comisiwn a newidiadau mewn ymateb i agendâu newydd y Llywodraeth, sy'n rhoi mwy o bwyslais ar agweddau cymdeithasol ac amgylcheddol ar goedwigaeth a defnydd tir. Teimlid yn gyffredinol ym myd coedwigaeth bod y polisi coedwigaeth cyfredol yng Nghymru wedi arwain at ymagwedd anghytbwys tuag at goedwigaeth ac o ganlyniad, bod y sector coedwigaeth fasnachol a phrosesu coed yng Nghymru o dan anfantais, sy'n peryglu effeithlonrwydd a chystadleurwydd sawl busnes mewn ardaloedd gwledig. Yn draddodiadol, mae'r Comisiwn Coedwigaeth wedi hwyluso cynhyrchu coed masnachol drwy gymorth grant ar gyfer plannu coed. Yn ddiweddar, mae'r ffocws wedi newid o gymorth i blannu coed i gynhyrchu cynhyrchion coed, i blannu coed er mwyn sicrhau manteision eraill. Mae'n hanfodol bod cydbwysedd mewn ymagwedd o'r fath.’
- ‘Mae angen i'r Comisiwn gydnabod anghenion y diwydiant i raddau llawer mwy a blaenoriaethu ei ffocws ar wasanaeth cwsmeriaid. Sefydlwyd y Comisiwn Coedwigaeth i ddarparu adnoddau coed i'r genedl ac ymddengys bod anghenion grwpiau eraill â diddordeb sy'n cyfrannu dim tuag at ariannu'r Comisiwn yn cael blaenoriaeth. Mae'n rhaid i gydnabyddiaeth o anghenion y diwydiant sy'n defnyddio coed er mwyn ei alluogi i barhau i greu cyfoeth a swyddi gael blaenoriaeth dros faterion cymdeithasol ac amgylcheddol. Mae angen i ni ddychwelyd at y cydbwysedd cyn datganoli, pan nad oedd cynhyrchu coed o dan anfantais.’
- ‘A yw'r polisi cyfredol yn ddigonol i ddiwallu anghenion y diwydiant sy'n defnyddio coed yng Nghymru yn y dyfodol yn ogystal â rhanddeiliaid eraill? Awgrymir bod angen mwy o gydbwysedd, fel na fydd yr un amcan yn drech nag amcanion eraill. O safbwynt diwydiant, cred rhai fod pwysigrwydd coedwigaeth fasnachol yng Nghymru yn cael ei israddio o blaid amcanion cymdeithasol ac amgylcheddol. Y gwir amdani yw y bydd ein coedwigoedd yn parhau i roi manteision i bawb, ar yr amod y cânt eu rheoli'n briodol – dyma'r her.’
- ‘Prif amcanion y Comisiwn yw amcanion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Mae'n briodol bod y ddau olaf wedi bod yn fwy amlwg yn ystod y blynyddoedd diwethaf ond mae'r agwedd fasnachol (cynhyrchu coed) mewn perygl. Ymddengys bod hanfodion coedamaeth gadarn yn cael eu tanseilio a bod amcan economaidd cynaliadwy yn cael ei golli.’

**Risgiau sy'n codi o flaenoriaethau croes o bosibl**

- ‘Gellir gofyn a yw'r Comisiwn yn cael ei dynnu i ormod o gyfeiriadau gwahanol; dengys profiad mai anaml mae ceisio ‘plesio pawb’ yn llwyddo. Dylai fod gan y Comisiwn rôl ac amcanion penodol iawn a dylai ganolbwyntio ar wneud y rhain yn dda. Mae'n rhaid i'r amcanion fod yn ymarferol, yn rhesymol ac yn gyflawnadwy ac mae'n rhaid bod gan y sefydliad adnoddau digonol i gyflawni'r hyn y gellir yn rhesymol ddisgwyl ganddo.’

**Blaenoriaethau sy'n canolbwyntio ar fanteision cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach coedwigaeth**

- ‘Ymddengys bod Cynlluniau Dylunio Coedwig a rheoli ardaloedd unigol yn canolbwyntio ar gynhyrchu coed yn bennaf yn aml ar draul bywyd gwyllt a chynefinoedd.’
- ‘Mae'r Comisiwn yng Nghymru fel mewn mannau eraill ers amser wedi bod yn dilyn polisi o greu meysydd gwaith newydd a rolau newydd i'w weithlu ond adleolir staff presennol i lenwi'r swyddi hyn. Mewn sefydliad sy'n cyflogi coedwigwyr hyfforddedig ac arbenigol yn bennaf mae prinder arbenigedd yn y meysydd eraill hyn, er nad wyf yn dweud nad yw'r staff presennol yn cyflawni safon dda o waith. Yn benodol bu prinder cymorth arbenigol ym maes gweithio gyda chymunedau (llai na thri neu bedwar o bobl yng Nghymru) gyda nifer fach iawn o arbenigwyr yn y maes gwaith hwn wedi'u cyflogi. Mae gwarchod natur a thirwedd unwaith eto wedi dioddef ac mae problemau o ran integreiddio’r meysydd gwaith hyn â gwaith y Comisiwn wedi codi. Mae cyflawni amcanion lluosog yn gofyn am feysydd eraill o arbenigedd ac mae angen i'r Comisiwn recriwtio i adlewyrchu'r meysydd gwaith hyn.’
- ‘Dylid cydnabod nad cynhyrchu refeniw coed yw llawer o waith y Comisiwn. Er y dylai Cynaeafu a Marchnata geisio cael yr elw mwyaf o goed, mae'n rhaid cydbwyso hyn â'r manteision eraill i gymdeithas. Hamdden er enghraifft, mae darparu cyfleuster beicio mynydd o'r radd flaenaf yng Nghoed y Brenin o fudd i nifer cymharol fach o feicwyr mynydd ond mae'r economi leol hefyd wedi cael hwb.’

*Ffynhonnell: Cyflwyniadau gan y cyhoedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru*

# Atodiad 1 – Methodoleg

1 Wrth gynnal yr astudiaeth hon, defnyddiwyd nifer o ddulliau:

- adolygu dogfennau;
- dadansoddi data;
- cyfweliadau lled-strwythuredig;
- grwpiau ffocws ac ymweliadau rhanbarthol â staff; a
- chyflwyniadau gan y cyhoedd ar wefan benodol.

## Adolygu dogfennau

2 Adolygwyd amrywiaeth eang o ddogfennau mewnol y Comisiwn yn ymwneud â'r meysydd busnes allweddol: cynllunio corfforaethol a chynllunio busnes; rheoli ariannol; rheoli perfformiad corfforaethol; llywodraethu; Adnoddau Dynol; strategaeth a gwasanaethau coedwig. Ategwyd y gwaith hwn gan adolygiad o ddogfennau polisi a strategaeth perthnasol Llywodraeth y Cynulliad (megis y Strategaeth Amgylcheddol, Nodyn Cyngor Technegol 8). Er mwyn deall sut y perfformiodd y Comisiwn o'i gymharu â'r Comisiwn Coedwigaeth yn Lloegr a'r Comisiwn Coedwigaeth yn yr Alban, defnyddiwyd hefyd nifer o ddogfennau a gyhoeddwyd gan Gomisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr (ee, *Forestry Statistics*, 2007).

## Dadansoddi data

3 Dibynnodd ein gwaith dadansoddi data yn fawr ar amrywiaeth eang o ddata ariannol a pherfformiad yn bennaf a ddarparwyd gan y Comisiwn. Defnyddiwyd y data hwn i ystyried materion megis: patrymau incwm a gwariant; lefelau staffio; gwariant grant; costau cynaeafu; tueddiadau o ran ailstocio a pherfformiad yn erbyn DPAau. Defnyddiwyd hefyd ddata perthnasol o'r Comisiwn Coedwigaeth yn Lloegr a'r Comisiwn Coedwigaeth yn yr Alban a olygai y gallem ddefnyddio'r gwaith hwn i'n helpu i ddeall sut yr oedd y Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru yn cymharu â'r ddwy ardal arall sy'n rhan o Gomisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr.

## Cyfweliadau lled-strwythuredig

4 Cyfwelwyd â'r canlynol:

- Staff y Comisiwn ar lefel ranbarthol a lefel y pencadlys, roedd yr aelodau hyn o staff yn cynrychioli'r prif unedau swyddogaethol yn y Comisiwn; gan gynnwys Rhanbarthau Coedwigoedd, Tîm Cymdeithasol, Uned Cynaeafu a Marchnata Cymru a Gweithrediadau Coedamaeth Cymru;
- staff Comisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr a swyddogion perthnasol Adran Materion Gwledig Llywodraeth y Cynulliad; a
- rhanddeiliaid allweddol yn cynrychioli amrywiaeth o fuddiannau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, o'r sectorau statudol, elusennol a masnachol.

## Grwpiau ffocws ac ymweliadau rhanbarthol â staff

5 Cynhaliwyd wyth sesiwn grŵp ffocws gyda staff y Comisiwn; cynhaliwyd dwy sesiwn ym mhob un o'r pedwar Rhanbarth Coedwig yng Nghymru. Daeth 109 o aelodau o staff i gyd i'r sesiynau hyn, sef bron traean o'r 373 o



aelodau staff y Comisiwn. Roedd cyfranogwyr wedi dewis eu hunain yn yr ystyr eu bod wedi ymateb i wahoddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru i gymryd rhan yn y sesiynau. Defnyddiwyd meddalwedd sy'n galluogi cyfranogwyr i gofrestru eu safbwyntiau'n electronig (drwy liniadur) ac yn ddienw, ac ar yr un pryd gallu gweld sylwadau gan gyfranogwyr eraill a gwneud sylwadau arnynt. Yn ystod y sesiynau hyn gofynnwyd i'r staff ar y dechrau nodi a blaenoriaethu problemau canfyddedig, cyn symud ymlaen i gynnig atebion i'r problemau hyn. Er mwyn helpu datblygiad rheoli a sefydliadol mewnol y Comisiwn ei hun, rhoddwyd adroddiad manwl i Gyfarwyddwr y Comisiwn ar ein dadansoddiad o ddata'r grwpiau ffocws.

6 Gan gydnabod nad oedd pob aelod o staff yn teimlo'r un mor gyfforddus o ran defnyddio TG, cynhaliwyd cyfres o sesiynau galw i mewn ledled Cymru. Roedd y rhain yn rhoi cyfle i staff fynegi eu barn mewn lleoliad un wrth un.

## Cyflwyniadau gan y cyhoedd

7 Sefydlwyd gwefan yn disgrifio ein hastudiaeth o weithrediadau'r Comisiwn a rhoddwyd cyfle i'r cyhoedd wneud sylwadau ar y canlynol:

- beth mae'r Comisiwn yn ei wneud yn dda;
- beth mae angen i'r Comisiwn ei wella; a
- sut y gallai'r Comisiwn wella ei waith a'i wasanaethau.

8 Cafwyd 28 o gyflwyniadau i'r wefan hon. Cafwyd cyflwyniadau gan unigolion yn cynrychioli amrywiaeth o fuddiannau, ond y daeth y grŵp mwyaf o gyflwyniadau oddi wrth goedwigwyr preifat neu broffesiynol.

# Atodiad 2 – Gwaith grŵp Rheoli Ystad y Comisiwn

**Ffigur 1 – Prif gyfrifoldebau unedau allweddol o fewn y grŵp Rheoli Ystad**

### Rhanbarthau Coedwigoedd

Ceir pedwar Rhanbarth Coedwig ledled Cymru, sy'n gyfrifol am y canlynol:

- Llunio Cynllun Strategol ar gyfer y rhanbarth a datblygu Cynlluniau Dylunio Coedwig, sydd yn llifo o'r Cynllun Strategol (a ddiwygir yn flynyddol).
- Ymgynghori â chymunedau o ran datblygu Cynlluniau Dylunio Coedwig.
- Sicrhau bod y Comisiwn yn cyflawni ei gyfrifoldebau cyfreithiol fel rheolwr tir.
- Amrywiaeth o faterion rheoli ystad (ee, sicrhau bod ffensys ar goetir Llywodraeth y Cynulliad wedi'u cynnal a'u cadw yn ddigonol, ymdrin â choed sydd wedi cwympo).
- Datblygu a rheoli mynediad cyhoeddus i goetiroedd Llywodraeth y Cynulliad.

### Cynaeafu a Marchnata Cymru

Fe'i sefydlwyd yn 2000 ac fe'i lleolir ym mhrif swyddfeydd y Comisiwn yn Aberystwyth, fodd bynnag mae staff hefyd wedi'u lleoli ym mhob un o'r pedwar Rhanbarth Coedwig. Mae'n gyfrifol am y canlynol:

- Datblygu contractau â'r diwydiant coed ar gyfer cynaeafu tir, a gwerthu cynhyrchion coed.
- Rheoli gweithrediadau cynaeafu'r Comisiwn ei hun.
- Datblygu'r 'U18' neu gynllun cynhyrchu pum mlynedd, sy'n nodi pa ardaloedd o'r goedwig y dylid eu cynaeafu, pa ddull y dylid ei ddefnyddio a phryd. Mae cynllun cynhyrchu 'U18' yn seiliedig ar Gynlluniau Dylunio Coedwig a ddatblygwyd gan y Rhanbarthau Coedwigoedd.
- Gweithio gyda chydweithwyr ym mhob rhan o Gomisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr (ee, rhan o grŵp Gwasanaethau Gweithredol ar lefel Prydain Fawr).
- Llunio rhagamcanion o incwm coed, ac olrhain tueddiadau o ran prisiau coed.

### Gweithrediadau Coedamaeth Cymru

Ers mis Ionawr 2008, mae wedi cael ei alinio'n llawn â'r pedwar rhanbarth coedwig, sy'n golygu bod y staff wedi'u cydleoli â staff rhanbarthau coedwigoedd ledled Cymru. Mae'r staff yn gyfrifol am y canlynol:

- Ailstocio (hy, ailblannu) coetiroedd Llywodraeth y Cynulliad, gan gynnwys gweithio â changen Cyflenwi Planhigion a Hadau Comisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr i sicrhau'r stoc briodol. Penderfynir ar lefel yr ailstocio blynyddol yn ôl faint o dir sy'n cael ei gynaeafu gan Cynaeafu a Marchnata Cymru. Mae angen i Weithrediadau Coedamaeth Cymru sicrhau na ddylai'r gronfa o dir (neu'r ardal o goetir Llywodraeth y Cynulliad sy'n aros i'w hailblannu) fynd y tu hwnt i'r ardal flynyddol gyfartalog a gymynwyd o fwy na ffactor o 3.5. Yn 2008-2009 bydd yn gyfrifol am ailstocio 1,330 o hectarau o goetir Llywodraeth y Cynulliad.
- Rhoi cyngor i swyddogion cynllunio rhanbarth, fel rhan o'r broses o lunio Cynlluniau Dylunio Coedwig (ee, o ran y mathau o rywogaethau i'w plannu).
- Gweithio gyda chydweithwyr ym mhob rhan o Gomisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr (ee, fel rhan o Grŵp Swyddogion Rheoli Coedwigoedd, sydd yn ddiweddar wedi bod yn ystyried difa plâu, megis gwiddon, drwy ddulliau biolegol).



## Tîm Coedwigaeth Gymdeithasol

Mae gan y tîm Coedwigaeth Gymdeithasol gyfrifoldeb am bolisi ar gyfer yr agweddau ar goedwigaeth sy'n ymwneud â thwristiaeth, iechyd, addysg a mynediad cyhoeddus. Mae meysydd gwaith eraill yn cynnwys:

- Rhoi cyngor, arweiniad a chymorth i'r Rhanbarthau Coedwigoedd ar y cysylltiadau rhwng y meysydd hyn a datblygu coedwigaeth, a'r ffordd orau o gyflawni'r rhain drwy brosiectau ar wahân. Cyflawnir prosiectau coedwigaeth gymdeithasol drwy'r Rhanbarthau Coedwigoedd, yn hytrach na thrwy'r tîm coedwigaeth cymdeithasol yn uniongyrchol.
- Monitro perfformiad y Comisiwn o ran cyflawni amcanion coedwigaeth gymdeithasol (ee, cynnal arolygon o foddhad ymwelwyr ym mhob un o ganolfannau ymwelwyr y Comisiwn).
- Cydgysylltu ag adrannau eraill Llywodraeth y Cynulliad (ee, mae'r tîm wedi sicrhau £70,000 gan Lywodraeth y Cynulliad yn ddiweddar i wella mynediad i ddyfrffyrdd mewndirol ar yr ystad).

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru*

# Atodiad 3 – Perfformiad diweddar y Comisiwn yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol

**Ffigur 1 – Perfformiad yn erbyn DPAau (2006 i 2008)**

| Blwyddyn Adrodd | Disgrifiad o'r DPA | Canlyniadau |
|---|---|---|
| 2006-2007 | DPA 1 Ardystio Coetiroedd o dan UKWAS | Cyflawnwyd |
| 2007-2008 | DPA 1 Ardystio Coetiroedd y Cynulliad o dan UKWAS | Cyflawnwyd |
| 2006-2007 | DPA 2 Cronfa tir ar ddiwedd y flwyddyn ar ystad Coetiroedd y Cynulliad | Cyflawnwyd |
| 2007-2008 | DPA 2 Nifer yr achosion o ddiffyg cydymffurfio sylweddol â chynlluniau dylunio cymeradwy ar ystad coetiroedd y Cynulliad | Cyflawnwyd |
| 2006-2007 | DPA 3 Nifer yr achosion o ddiffyg cydymffurfio sylweddol â chynlluniau dylunio cymeradwy ar ystad coetiroedd y Cynulliad | Cyflawnwyd |
| 2007-2008 | DPA 3 Canran yr Ystad coetiroedd a gynhelir y nodwyd ei bod yn cael ei throi'n system goedamaeth fach ei heffaith mewn Cynlluniau Dylunio | Cyflawnwyd |
| 2006-2007 | DPA 4 Ardal o goetir o dan gynlluniau grant cymeradwy | Cyflawnwyd |
| 2007-2008 | DPA 4 Canran o Ardal yr ystad coedwigoedd y nodwyd ei bod yn cael ei throi'n system goedamaeth fach ei heffaith lle mae'r coed wedi cael eu teneuo yn ystod y flwyddyn | Cyflawnwyd |
| 2006-2007 | DPA 5 Ardal o ystad coetiroedd Llywodraeth y Cynulliad lle mae'r coed wedi cael eu teneuo yn ystod y flwyddyn | Cyflawnwyd yn rhannol |
| 2007-2008 | DPA 5 Ardal o goetir sydd wedi ymuno â Coetiroedd Gwell i Gymru (cynlluniau cymeradwy) | Heb ei gyflawni |
| 2006-2007 | DPA 6 Canran o ystad coetiroedd Llywodraeth y Cynulliad y nodwyd ei bod yn cael ei rheoli drwy systemau coedamaeth bach eu heffaith | Cyflawnwyd |
| 2007-2008 | DPA 6 Canran yr Henebion Cofrestredig ar yr ystad â chynlluniau cymeradwy (mae'n rhaid llunio cynlluniau ar gyfer dynodiadau newydd o fewn naw mis) | Cyflawnwyd |
| 2006-2007 | DPA 7 Ardal o ystad coetiroedd y Cynulliad sydd â Chynlluniau Dylunio Coedwig cymeradwy 100 y cant | Cyflawnwyd yn rhannol |
| 2007-2008 | DPA 7 Sgôr Ansawdd Profiad Ymweliad â Choedwig | Cyflawnwyd |
| 2006-2007 | DPA 8 Canran yr Henebion Cofrestredig ar ystad y Cynulliad sydd â chynlluniau rheoli cymeradwy | Cyflawnwyd |
| 2007-2008 | DPA 8 Nifer y Cytundebau Rheoli Cymunedol ar waith ar yr Ystad [y ffigur sylfaenol ar gyfer 2006-2007 oedd 17 o gytundebau] | Cyflawnwyd |



| Blwyddyn Adrodd | Disgrifiad o'r DPA | Canlyniadau |
| --- | --- | --- |
| 2006-2007 | DPA 9 Nifer y cytundebau rheoli cymunedol ar ystad coetiroedd y Cynulliad | At ddibenion adrodd yn unig |
| 2007-2008 | DPA 9 Nifer y prosiectau datblygu cymunedol a gwblhawyd drwy Cydcoed | Heb ei gyflawni |
| 2006-2007 | DPA 10 Nifer y cynlluniau prosiect manwl a ddatblygwyd ar y cyd ag awdurdodau lleol ar gyfer tai gwledig fforddiadwy | Cyflawnwyd yn rhannol |
| 2007-2008 | DPA 10 Cyfanswm a gynaeafwyd o'r Ystad drwy ddull coedamaeth | Heb ei gyflawni |
| 2006-2007 | DPA 11 Cyfanswm y coed a gynaeafwyd o Ystad Coetiroedd y Cynulliad | Cyflawnwyd |
| 2007-2008 | DPA 11 Canran y SoDdGAau ar yr ystad sydd â chynlluniau cymeradwy (mae'n rhaid llunio cynlluniau ar gyfer dynodiadau newydd o fewn naw mis) | Heb ei gyflawni |
| 2006-2007 | DPA 12 Cyfeintiau cynhyrchu a ragwelwyd o ystad y Cynulliad am y 10 mlynedd nesaf yn erbyn cyfeintiau gwerthiannau targed a gyhoeddwyd | Heb ei gyflawni |
| 2007-2008 | DPA 12 Ardal o Blanhigfeydd ar Safleoedd Coetiroedd Hynafol ar yr Ystad a nodwyd ar gyfer adfer lle cafwyd ymyriad yn ystod y flwyddyn | Cyflawnwyd |
| 2006-2007 | DPA 13 Canran y SoDdGAau ar ystad y Cynulliad sydd â chynlluniau rheoli cymeradwy | Heb ei gyflawni |
| 2007-2008 | DPA 13 Cynnydd Rhaglen Ffermydd Gwynt yr Ystad Coedwigoedd Genedlaethol | Cyflawnwyd |
| 2006-2007 | DPA 14 Canran y Planhigfeydd ar Safleoedd Coetiroedd Hynafol ar ystad y Cynulliad a nodwyd ar gyfer adfer | At ddibenion adrodd yn unig |
| 2007-2008 | DPA 14 Nifer y prosiectau Ynni Coed a gwblhawyd drwy'r Cynllun Busnes Ynni Coed | Cyflawnwyd |
| 2006-2007 | DPA 15 Nifer y cytundebau opsiwn ffermydd gwynt a lofnodwyd â datblygwyr | Heb ei gyflawni |
| 2007-2008 | DPA 15 Canran yr achosion o gymynu anghyfreithlon honedig yr ymchwilir iddynt gan yr uned Grantiau a Thrwyddedu a chanran y canlyniadau boddhaol | Cyflawnwyd |
| 2006-2007 | DPA 16 Canran yr achosion o gymynu anghyfreithlon honedig yr ymchwilir iddynt gan yr uned Grantiau a Thrwyddedu | Cyflawnwyd |
| 2007-2008 | DPA 16 Canran y galwadau 'a gollwyd' [sef pan fydd y sawl sy'n ffonio yn rhoi'r gorau iddi ar ôl gadael i'r ffôn ganu am 30 eiliad] | Cyflawnwyd |
| 2006-2007 | DPA 17 Nifer y penderfyniadau ar Asesiadau o Effaith Amgylcheddol lle roedd angen paratoi Datganiad Amgylcheddol a'r ganran lle cyhoeddwyd hysbysiadau atal a gorchmynion adfer Asesiadau o Effaith Amgylcheddol | At ddibenion adrodd yn unig |
| 2007-2008 | DPA 17 Canran y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol yr ymdrinnir â hwy o fewn terfyn amser statudol o 20 diwrnod gwaith | Cyflawnwyd |
| 2006-2007 | DPA 18 Siarter Cwsmeriaid Coed | Cyflawnwyd |

| Blwyddyn Adrodd | Disgrifiad o'r DPA | Canlyniadau |
|---|---|---|
| 2007-2008 | DPA 18 Canran y trosiant ymhlith staff newydd [yr aelodau hynny o staff sy'n gadael o fewn dwy flynedd, naill ai o gontract parhaol neu o gytundeb llawn amser nad yw'n fwy na dwy flynedd | Cyflawnwyd |
| 2006-2007 | DPA 19 Siarter i Ymgeiswyr y Cynllun Grantiau Coetir | Cyflawnwyd |
| 2007-2008 | DPA 19 Diwrnodau absenoldeb staff fesul aelod o staff y flwyddyn | Cyflawnwyd |
| 2006-2007 | DPA 20 Datganiad Safonau Siarter ar gyfer Trwyddedu Cymynu | Heb ei gyflawni |
| 2007-2008 | DPA 20 Cyrhaeddwyd safonau'r system rheoli perfformiad [Cytunwyd ar flaengynlluniau gwaith, cyfarfodydd adolygu wedi'u cynnal yn ôl yr amserlen a chynllun dysgu unigol ar waith | Cyflawnwyd |
| 2006-2007 | DPA 21 Canran yr ymholiadau gan gwsmeriaid i'r Ganolfan Gyswllt Cwsmeriaid a ddatrysir ar y cysylltiad cyntaf | Heb ei gyflawni |
| 2007-2008 | DPA 21 Alldro o'i gymharu â'r gyllideb | Cyflawnwyd |
| 2006-2007 | DPA 22 Canran y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth/ Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol yr ymdrinnir â hwy o fewn y terfyn amser statudol | Cyflawnwyd yn rhannol |
| 2007-2008 | DPA 22 Alldro o'i gymharu â'r gyllideb | |
| 2006-2007 | DPA 23 Boddhad cwsmeriaid ar safleoedd hamdden allweddol ar ystad coetiroedd y Cynulliad | At ddibenion adrodd yn unig |
| 2007-2008 | DPA 23 Defnydd o gyllideb grantiau Coetir Preifat | Heb ei gyflawni |
| 2006-2007 | DPA 24 Achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl | Cyflawnwyd |
| 2007-2008 | DPA 24 Cadw at broffil gwariant y cytunwyd arno ar gyfer prosiectau sy'n cael arian Ewropeaidd | Cyflawnwyd |
| 2006-2007 | DPA 25 Diwrnodau absenoldeb staff fesul aelod o staff y flwyddyn | Cyflawnwyd |
| 2006-2007 | DPA 26 Cyfradd damweiniau ymhlith staff | Heb ei gyflawni |
| 2006-2007 | DPA 27 Alldro o'i gymharu â'r gyllideb | Cyflawnwyd |
| 2006-2007 | DPA 28 Arian Llywodraeth Cynulliad Cymru | Cyflawnwyd |
| 2006-2007 | DPA 29 Gwariant grant fel canran o'n cyllideb grantiau | Cyflawnwyd |
| 2006-2007 | DPA 30 Nifer y digwyddiadau sy'n ymwneud ag atebolrwydd cyhoeddus sy'n arwain at anaf personol ar Ystad y Cynulliad | Cyflawnwyd |

*Ffynhonnell: Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2006-2007 a 2007-2008 Comisiwn Coedwigaeth Cymru*



# Atodiad 4 – Canfyddiadau allweddol o'n grwpiau ffocws o staff y Comisiwn

**Ffigur 1 – Meysydd lle mae'r Comisiwn yn gweithio'n dda**


| Cefnogi diwydiannau coetir ffyniannus | |
|---|---|
| Y pethau y mae'r Comisiwn yn eu gwneud yn dda | Nifer y syniadau |
| Hyrwyddo buddsoddiad sector preifat yn y diwydiant coed, drwy:<br>■ Warantu cyflenwadau coed<br>■ Contractau hirdymor | <br>7<br>4 |
| Rheoli diwydiant coed y sector cyhoeddus yn ôl safonau uchel | 7 |
| Cynhyrchu coed mewn ffordd gynaliadwy | 7 |
| Ymwneud â diwydiant coed y sector preifat | 4 |
| Cyfanswm y syniadau | **29** |
| **Enghreifftiau o arfer da a nodwyd**<br>GATE - Sicrhau Gwerth Ychwanegol ar gyfer Coed yn Ewrop | |
| Cyfrannu at amgylchedd o ansawdd gwell ledled Cymru | |
| Y pethau y mae'r Comisiwn yn eu gwneud yn dda | Nifer y syniadau |
| Gwarchod rhywogaethau a chynefinoedd allweddol | 10 |
| Gwell tirwedd Cymru | 6 |
| Cynnal a chadw a/neu wella gwerth amgylcheddol coetiroedd preifat | 6 |
| Gweithio i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd | 5 |
| Adfer ac arallgyfeirio coetiroedd | 4 |
| Cyfanswm y syniadau | 31 |
| **Enghreifftiau o arfer da a nodwyd**<br>Planhigfeydd ar Safleoedd Coetiroedd Hynafol<br>Reclaiming Our forgotten Inheritance<br>Coedwigoedd Caerffili<br>Gwaith afonol yn Nyffryn Tywi<br>Grantiau Coetiroedd Gwell i Gymru | |

| Rhoi manteision cymdeithasol a chymunedol gwirioneddol, yn lleol ac yn genedlaethol | |
|---|---|
| Y pethau y mae'r Comisiwn yn eu gwneud yn dda | Nifer y syniadau |
| Rhoi cyfleoedd hamddena i'r cyhoedd yng nghoedwigoedd y Comisiwn (cerdded, beicio mynydd, marchogaeth a chanolfannau ymwelwyr) | 38 |
| Atgyfnerthu economïau lleol a chefnogi busnesau bach | 20 |
| Ymwneud â'r gymuned a datblygu cymunedol | 13 |
| Addysgu'r cyhoedd am goedwigoedd a choedwigaeth | 11 |
| Ymestyn mynediad i goetiroedd preifat | 4 |
| Rhoi cyfleoedd am gynhwysiant cymdeithasol | 3 |
| **Cyfanswm y syniadau** | **90** |
| **Enghreifftiau o arfer da a nodwyd**<br>Cydcoed<br>Ysgolion Coedwig<br>Llwybrau Beicio Mynydd Parc Coedwig Afan a Chwm Carn<br>Prosiect LINCs Ceredigion<br>Canolfannau ymwelwyr ee, Coed y Brenin a Nant yr Arian<br>Prosiect Pyrth Rhanbarthau | |

*Ffynhonnell: Grwpiau ffocws Swyddfa Archwilio Cymru â staff Comisiwn Coedwigaeth Cymru*

## Ffigur 2 – Meysydd gwella y dylid rhoi blaenoriaeth iddynt a nodwyd gan y staff

| Blaenoriaeth ar gyfer Gwella | Esboniad | Nifer y syniadau a gofnodwyd |
|---|---|---|
| 1 Gwella canfyddiadau cyhoeddus o waith y Comisiwn | Teimlai cyfranogwyr fod y Comisiwn yn sicrhau nifer o ganlyniadau cadarnhaol yn llwyddiannus ym mhob agwedd ar ei gylch gwaith. Fodd bynnag, teimlent hefyd nad oedd cyflawniadau o'r fath yn cael digon o gyhoeddusrwydd, ac o ganlyniad prin oedd dealltwriaeth y cyhoedd o'r hyn yr oedd y Comisiwn yn ei wneud a'r meysydd eang lle y gallai/roedd yn gwneud cyfraniad cadarnhaol. Roedd cyfranogwyr am weld mwy o gyhoeddusrwydd, gwell brandio a gwell gwaith hyrwyddo ar y brand a ddatblygwyd. | 39 |
| 2 Gwella cyfathrebu mewnol ym mhob maes swyddogaethol gwahanol | Teimlai cyfranogwyr fod y gwahanol unedau cost yn y Comisiwn (megis Cynaeafu a Marchnata Cymru a'r Rhanbarthau Coedwigoedd) yn tueddu i weithio'n annibynnol ar ei gilydd a pheidio â chyfathrebu'n effeithiol. O ganlyniad nid ystyrid bod y sefydliad yn gweithredu fel tîm ac nid oedd gwybodaeth - gwybodaeth sylfaenol megis rolau unedau gwahanol - yn cael ei lledaenu drwy'r sefydliad. | 33 |



| Blaenoriaeth ar gyfer Gwella | Esboniad | Nifer y syniadau a gofnodwyd |
|---|---|---|
| 3 Ailddosbarthu adnoddau staffio - yn enwedig er mwyn sicrhau cydbwysedd priodol rhwng graddau gwahanol o staff ac atal strwythur rheoli sy'n rhy drwm ar y brig rhag datblygu | Teimlai cyfranogwyr fod adnoddau staffio yn canolbwyntio'n anghymesur ar Fandiau Cyflog pedwar ac yn uwch, ac o ganlyniad nid oedd digon o staff gweinyddol na choedwigwyr hyfforddedig.<br>Ymddengys o'n dadansoddiad o sylwadau ynglŷn â'r mater hwn, bod canfyddiadau o'r fath yn achosi tensiwn o fewn y Comisiwn; ac i ryw raddau, mae meddylfryd 'Ni a Nhw' yn datblygu ynglŷn â'r broblem hon. | 32 |
| 4 Egluro amcanion y Comisiwn | Roedd cyfranogwyr yn amlwg am weld mwy o eglurder ac arweiniad o ran amcanion craidd y Comisiwn; roeddent am weld amcanion yn cael eu mynegi yn nhermau canlyniadau, er mwyn iddynt ddeall yn well yr hyn yr oeddent yn ceisio ei gyflawni.<br>Gwelwyd bod angen mwy o eglurder cyn y gellid pennu a dyrannu adnoddau staff a gwella cydberthnasau â sefydliadau allanol. Yn fwy penodol, dadleuwyd mai dim ond pan oedd gan y Comisiwn ddealltwriaeth fewnol glir o'i gyfeiriad yn y dyfodol y gallai ymwneud yn effeithiol â phartneriaid i wireddu'r weledigaeth hon. | 28 |
| 5 Gwella cyfathrebu allanol - yn benodol er mwyn sicrhau bod partneriaid (yn enwedig Llywodraeth y Cynulliad) yn cael gwell gwybodaeth am gyfeiriad y Comisiwn a'r cyfraniad y gall ei wneud. | Teimlai cyfranogwyr nad oedd sefydliadau allanol yn deall cylch gwaith y Comisiwn yn glir, na'r holl feysydd polisi yr oedd y Comisiwn yn cyfrannu atynt: addysg; iechyd; twristiaeth a datblygu cymunedol. | 19 |
| 6 I uwch reolwyr wella'r ffordd y maent yn cyfathrebu - yn benodol gwelwyd bod angen i uwch reolwyr ddangos eu bod yn wirioneddol yn gwrando ar staff | Er i nifer o gyfleoedd i staff godi eu pryderon a chyfrannu eu syniadau gael eu nodi teimlai cyfranogwyr nad oedd cyfleoedd o'r fath wedi arwain at newid mawr. Mae'r datgysylltiad ymddangosiadol hwn - rhwng y pryderon a godwyd gan staff ac unrhyw gamau a gymerwyd mewn perthynas â'r pryderon hyn - wedi peri i staff deimlo nad oedd uwch reolwyr yn gwrando mewn gwirionedd. At hynny, teimlai rhai cyfranogwyr hefyd nad oedd uwch reolwyr yn barod i gael deialog â staff. | 15 |
| 7 Datblygu'r Comisiwn fel sefydliad mwy integredig | Teimlai cyfranogwyr fod y symud tuag at unedau busnes arbenigol/canolfannau costau wedi peri i'r unedau unigol fynd yn ynysig, a mabwysiadu 'meddylfryd seilo' ac ar adegau i fynd i gyfeiriadau gwahanol. O ganlyniad, teimlid bod angen integreiddio'r unedau arbenigol yn well, er mwyn iddynt gydweithio i gyflawni nodau'r sefydliad.<br>Mae'n ddigon posibl bod y pwys a roddir ar well cyfathrebu mewnol yn gysylltiedig â'r angen canfyddedig i ddatblygu'r Comisiwn fel sefydliad wedi'i integreiddio'n well. | 14 |

| Blaenoriaeth ar gyfer Gwella | Esboniad | Nifer y syniadau a gofnodwyd |
|---|---|---|
| 8 Blaenoriaethu o blith amcanion | Teimlai cyfranogwyr, o gofio'r adnoddau presennol, fod perygl bod y Comisiwn yn ceisio cyflawni gormod. Dadleuwyd hefyd bod rhoi'r un pwys ar gyfres amrywiol o amcanion yn golygu ei bod yn anodd - ar adegau - i'r staff nodi beth ddylent ei wneud, ac roeddent yn cael eu tynnu i gyfeiriadau gwahanol.<br>Er mwyn mynd i'r afael â'r risgiau hyn, dadleuodd y cyfranogwyr y dylai'r Comisiwn flaenoriaethu o blith ei amcanion. At hynny, lle na nodwyd bod amcan yn flaenoriaeth dylai'r Comisiwn fod yn ddigon hyderus i 'wneud safiad' a'i gwneud yn glir nad oedd yn ystyried hwn yn rhan o'i fusnes craidd. | 13 |
| 9 Ailddosbarthu adnoddau staff – yn benodol er mwyn sicrhau cydbwysedd priodol rhwng swyddogion polisi a choedwigwyr | Ni theimlai cyfranogwyr fod dealltwriaeth dda o'r adnoddau rheng flaen yr oedd eu hangen i gyflawni polisïau a rhaglenni'r Comisiwn. Ystyrid bod hyn, ynghyd â methiant canfyddedig i ailbenodi pan adawodd staff coedwigaeth, wedi creu diffyg cydbwysedd rhwng nifer y swyddogion polisi a nifer y staff coedwigaeth hyfforddedig. O ganlyniad, dadleuwyd nad oedd digon o staff ar lawr gwlad yn rheoli'r coetiroedd, na digon o staff yn y maes yn meithrin cydberthnasau â sefydliadau allanol.<br>Fel yn achos maes gwella 3, roedd yn amlwg o'n dadansoddiad o sylwadau perthnasol bod canfyddiadau o'r fath yn achosi tensiwn o fewn y Comisiwn; ac i ryw raddau, bod meddylfryd 'Ni a Nhw' yn datblygu ynglŷn â'r broblem ganfyddedig hon. | 12 |
| 10 Datblygu gweledigaeth gyffredin o rôl y Comisiwn | Yn ôl ein dadansoddiad o ddata'r grwpiau ffocws nid oedd cyfranogwyr yn rhannu gweledigaeth o rôl y Comisiwn. Roedd yr anghydfod hwn yn ymwneud â'r graddau y dylai'r Comisiwn ymestyn ei gylch gwaith y tu hwnt i gynhyrchu coed, i gynnwys agweddau ar goedwigaeth gymdeithasol, megis datblygu llwybrau beicio mynydd. | 11 |
| 11 Symud oddi wrth bennu amcanion byrdymor, y dylanwedir arnynt gormod gan bwysau gwleidyddol | Teimlai cyfranogwyr fod polisïau'r Comisiwn, yn y gorffennol, wedi newid o ran pwyslais a chyfeiriad cyffredinol yn gyflym a heb esboniad. Ystyrid bod hyn yn groes i ddatblygu'r weledigaeth hirdymor sydd ei hangen i gefnogi coetiroedd sy'n tyfu'n araf a chredid ei bod yn deillio o adael i bwysau gwleidyddol dros dro ddylanwadu gormod ar bolisïau'r Comisiwn. | 11 |
| 12 Gwella lefelau staffio | Mae meysydd gwella 9 a 3 yn adlewyrchu'r angen canfyddedig i ailddosbarthu adnoddau staffio. Fodd bynnag, nododd cyfranogwyr hefyd fod angen gwella lefelau staffio drwy'r sefydliad cyfan. | 11 |
| 13 Ailystyried rôl contractwyr a lefel arbenigedd rheoli contractau yn y Comisiwn | Teimlai cyfranogwyr fod y Comisiwn wedi mynd yn rhy ddibynnol ar gontractwyr. Dadleuwyd bod contractwyr nid yn unig yn gwneud gwaith o ansawdd gwael, ond hefyd, bod rheoli contractwyr yn mynd â gormod o amser ac yn atal staff rhag ymgymryd â chyfrifoldebau eraill.<br>Ar lefel ychydig yn wahanol roedd cyfranogwyr yn pryderu a oedd gan y Comisiwn yr arbenigedd angenrheidiol i reoli contractau'n effeithiol. | 9 |

*Ffynhonnell: Grwpiau ffocws Swyddfa Archwilio Cymru â staff Comisiwn Coedwigaeth Cymru*